# Canllawiau Uwch 3

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol — National Centre for Learning Welsh

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cymraeg
Dysgu
Learn

# Cwrs Uwch 3 – Canllawiau Cyffredinol

**Croeso i Uwch 3.** Mae'r gyfrol hon yn wahanol i Uwch 1 ac Uwch 2. Ceir 10 uned a fydd yn para tua 6 awr yr un. Cwestiynau o gyn-bapurau arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch a ddefnyddir yn bennaf, ond ceir adrannau hefyd yn cyflwyno Cymraeg Ffurfiol ac adran Cefndir gynhwysfawr ym mhob uned. Mae pob croeso i diwtoriaid ddewis a dethol adrannau, yn unol ag anghenion eu dosbarthiadau.

Yn ogystal â dilyn yr unedau hyn, bydd tiwtoriaid hefyd yn derbyn pum uned gyfoes i'w cyflwyno o fewn y flwyddyn academaidd.

**Egwyddorion Cyffredinol**
Er bod llawer o'r cynnwys yn dod o gyn-bapurau Defnyddio'r Gymraeg Uwch, bernir bod y cwrs yn addas i bawb, nid darpar ymgeiswyr yr arholiad yn unig. Wedi dweud hynny, hyderir y bydd cynnwys y tasgau hyn yn codi hyder yn gyffredinol ac y bydd mwy o ddysgwyr yn barod i sefyll yr arholiad. Ystyrir yr holl dasgau fel rhai ar gyfer ystafell ddosbarth, nid rhai i'w gwneud dan amodau arholiad a chynigir nifer o gamau.

Mae'n bwysig iawn neilltuo digon o amser ar gyfer gwaith llafar.

Ffurfiau – Gan nad oes fersiwn de/gogledd, mae'r ffurfiau yn fwy niwtral neu ffurfiol. Dylid pwysleisio mai Cymraeg llafar naturiol a ddisgwylir gan y dysgwyr.

**Gwaith llafar**
Mae'r prif gyfleoedd ar gyfer Gwaith llafar yn rhannu'n unol â'r cwestiynau ym mhrawf llafar Arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch. Ceir dau o blith yr isod ym mhob uned:

> **Crynhoi prif bwyntiau erthygl**
> **Siarad Personol**
> Yn y cwestiwn hwn, rhaid sicrhau bod y dysgwyr yn cyfeirio at bob un o'r pwyntiau sy'n codi o dan y prif deitl.
> **Pwnc llosg**

Yn ogystal â'r adrannau hyn, mae cyfleoedd ar gyfer gwaith llafar wedi'u gweu i mewn i'r holl elfennau yn y cwrs.

**Gwybodaeth o Iaith**
Yn gyffredinol, argymhellir gadael i'r dysgwyr roi cynnig ar y cwestiynau cyn troi at yr ymarferion. Os yw pob person wedi cael rhywbeth sy'n cael ei ymarfer yn gywir, gellid hepgor yr ymarfer. Os teimlwch y byddai'n fanteisiol ymarfer ymlaen llaw, mae hynny hefyd yn berffaith dderbyniol os yw'n addas i'r dosbarth dan sylw, yn enwedig yn yr unedau cyntaf. Ceir dau o'r isod ym mhob uned.

### Aralleirio

Ceir wyth brawddeg ym mhob uned. Os ydych am roi llai o bwysau ar aelodau'r dosbarth, gellid gofyn i barau roi cynnig ar y pedair maen nhw'n teimlo fwyaf hyderus yn eu cylch ac yna cyfnewid atebion gyda phobl eraill yn y dosbarth. Bydd yn ddiddorol gweld a oes unrhyw frawddegau na fydd neb wedi gellir rhoi cynnig arnynt, a rhoi mwy o sylw i'r brawddegau hynny.

### Dewis y ffurf gywir

Mae gêm ryngweithiol ar gael ar wefan **Kahoot** y gellir ei defnyddio i gyflwyno'r ymarferion hyn mewn ffordd fywiog, ysgafn. Er mwyn defnyddio'r gêm, bydd angen cyswllt gwe yn y dosbarth a sgrin i ddangos y cynnwys o'r we i'r dosbarth, a bydd angen i bob grŵp (o leiaf ddau grŵp o ddysgwyr) fod â dyfais symudol wedi'i chysylltu â'r we (ffôn clyfar neu lechen). Os oes gan bawb ddyfais o'r fath yr un, gallant chwarae'r gêm fel unigolion. Bydd angen gwneud hyn yn y dosbarth rhithiol. Dechreuwch gyfrif Kahoot ymlaen llaw – ewch i https://kahoot.com/ a gwasgu'r ddolen '*Sign up*' sydd ar yr ochr dde tua phen uchaf y wefan (does dim cost). Wedi i chi greu eich cyfrif, gallwch fewngofnodi ('*sign in*') unrhyw bryd.

Nodir y ddolen ar gyfer y gêm yng nghanllawiau'r unedau unigol.

Pan fyddwch chi'n agor y gêm ac yn gwasgu '*Play*', bydd cod (PIN) yn ymddangos ar y sgrin. Dylai'r dysgwyr sydd yn gyfrifol am y ddyfais symudol ar ran eu grŵp fynd i kahoot.it a mewnbynnu'r cod yno. Bydd angen iddynt roi enw neu ffugenw a phan fyddant wedi ymuno'n llwyddiannus â'r gêm, bydd yr enw hwnnw'n ymddangos ar eich sgrin chi. Pan fydd pob grŵp wedi llwyddo i ymuno, dechreuwch y gêm. Bydd y brawddegau â'r bylchau'n ymddangos fesul un gyda symbolau ar y sgrin i gynrychioli'r gwahanol atebion aml-ddewis. Bydd y dysgwyr yn gwasgu ar un o'r symbolau hyn ar eu dyfais symudol i ddewis eu hateb. Pan fydd pob grŵp wedi ateb, bydd y nifer a ddewisodd bob ateb yn cael ei ddangos ar eich sgrin a bydd cyfle i oedi cyn symud ymlaen i'r cwestiwn nesaf. Ar ddiwedd yr wyth cwestiwn, bydd sgoriau pob tîm i'w gweld a'r enillwyr yn cael eu coroni'n bencampwyr!

Os nad oes modd defnyddio Kahoot yn y dosbarth, gellir rhoi cardiau o bedwar lliw gwahanol i bob pâr/grŵp i gynrychioli atebion a, b, c, neu ch a gofyn iddynt ddangos y cerdyn sy'n cynrychioli'r ateb cywir i bob cwestiwn yn ei dro. Rhowch farc am bob ateb cywir a chymharu sgoriau ar y diwedd.

### Llenwi bylchau

Rhag i'r ymarferion hyn ddod yn rhy undonog, diflas ac eisteddog, cynigir technegau gwahanol isod ac awgrymir eich bod yn defnyddio amrywiaeth o'r rhain yn ystod y cwrs:

a) Rhowch yr atebion ar gardiau (un ateb i bob cerdyn) a'u dosbarthu ymhlith y dysgwyr. Os ydych am godi lefel yr her ryw ychydig, rhowch bob ateb heb ei dreiglo ar y cardiau a dweud bod rhaid penderfynu a oes treiglad ai peidio ar gyfer pob ateb. Os oes llai nag 16 yn y dosbarth, bydd rhai dysgwyr yn cael mwy nag un cerdyn; os oes

mwy nag 16, gwnewch fwy nag un copi o rai o'r cardiau er mwyn sicrhau bod digon i bawb gael un yr un. Gofynnwch i bawb grwydro o gwmpas y dosbarth i holi beth sydd ar y cardiau. Pan fyddan nhw'n cael gair gan ddysgwr arall, dylent ystyried i ba fwlch y mae'r gair hwnnw'n perthyn a'i nodi yno. Gallwch ofyn i barau fynd trwy'r darn yn gwirio'r atebion cyn i chi wneud hynny gyda'r dosbarth cyfan a thrafod unrhyw bwyntiau ieithyddol sy'n codi.

b) Defnyddiwch gardiau fel y rhai yn a) uchod, ond y tro hwn, gofynnwch i barau fynd trwy'r darn a rhoi cynnig ar gymaint o'r bylchau ag y gallant yn y lle cyntaf. Tra byddan nhw'n gwneud hynny, gosodwch y cardiau mewn gwahanol fannau o gwmpas yr ystafell ddosbarth. Wedi i chi osod y cardiau, gofynnwch i un o bob pâr fynd i ganfod unrhyw un o'r cardiau, darllen (a chofio) beth sydd ar y cerdyn a dychwelyd at ei b/phartner i adrodd hynny ac i gyd-drafod i ba fwlch y mae'r gair yn perthyn. Eto, gwiriwch yr atebion a thrafod pwyntiau ieithyddol ar y diwedd.

c) Byrddau gwyn bach – rhowch fwrdd gwyn bach i bob dysgwr (neu i bob pâr). Yn y dosbarth rhithiol, gellir defnyddio'r 'chat'. Dylai pawb anfon neges breifat atoch. Darllenwch drwy'r darn, gan oedi wrth ddod i bob bwlch a rhoi ychydig eiliadau i'r dysgwyr ysgrifennu eu cynigion ar eu byrddau gwyn. Gofynnwch i bawb ddangos y cynigion ar yr un pryd, ac ar ôl iddynt weld atebion ei gilydd, gofynnwch iddyn nhw a ydyn nhw am gadw at eu hateb gwreiddiol neu ei newid. Cadarnhewch yr ateb cywir a thrafod yn ôl yr angen cyn darllen ymlaen at y bwlch nesaf ac ailadrodd y broses.

ch) Gofynnwch i barau weithio gyda'i gilydd i roi cynnig ar y pedwar bwlch cyntaf yn y darn, a'r pedwar cyntaf yn unig. Wedi caniatáu munud a hanner iddyn nhw, gofynnwch i un o bob pâr symud ymlaen at bartner newydd a rhowch ddau funud i'r parau newydd wirio'r pedwar ateb cyntaf a rhoi cynnig ar y pedwar nesaf. Ar ddiwedd y ddau funud, gofynnwch i un o bob pâr symud ymlaen eto a rhowch ddau funud a hanner iddyn nhw wirio'r wyth ateb cyntaf a rhoi cynnig ar y pedwar nesaf. Ailadroddwch unwaith eto, gan roi tri munud i'r parau gynnig atebion i'r pedwar bwlch olaf a gwirio'r cyfan. Gwiriwch yr atebion a thrafod pwyntiau ieithyddol ar y diwedd. Gallwch gynyddu neu leihau'r amserau a ganiateir yn ôl yr hyn sy'n gweddu i'ch dosbarth chi.

**Gwrando**

Ceir un ymarfer Gwrando ym mhob uned, eto o dri chategori gwahanol, yn unol ag Arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch:

**Gwybodaeth ffeithiol**

**Gwybodaeth bersonol**

**Trafodaeth**

Yn yr arholiad, chwaraeir y darn gwrando ddwywaith. Fodd bynnag, gellid ei chwarae dair gwaith yn ystod y cwrs - y tro cyntaf i'r dysgwyr ymgyfarwyddo â'r acenion a'r cynnwys ac i wrando am eiriau penodol.

**Cymraeg Ffurfiol**

Bwriad yr adrannau hyn yw cyflwyno'r dysgwyr i agweddau ar Gymraeg ffurfiol. Y nod yw eu cynorthwyo i ddeall Cymraeg ffurfiol wrth ddarllen, yn hytrach na defnyddio'r ffurfiau hyn eu

hunain. Dylai pob tiwtor ystyried pa mor addas yw'r adrannau hyn i'w dosbarthiadau.

**Cefndir**

Ceir adrannau cynhwysfawr sy'n seiliedig ar fideo i gyflwyno agweddau ar gefndir Cymru a'r iaith Gymraeg. Manteisir ar bob cyfle i gyflwyno gwaith llafar a thynnu sylw at bwyntiau ieithyddol, yn ogystal â chyflwyno cefndir.

**Geirfa**

Yr egwyddor yw bod y dysgwyr yn ymgyfarwyddo â'r eirfa cyn troi at yr uned. Golyga hyn y dylent allu mwynhau'r darnau goddefol yn fwy.

Gan fod yr unedau'n hir, mae'r rhestri geirfa hefyd yn hir. Fodd bynnag, credir y bydd y dysgwyr eisoes yn gyfarwydd â llawer o'r geiriau a nodir ac wrth fynd dros yr eirfa, gellid gofyn iddynt nodi pa rai sy'n newydd iddynt.

Yn unol â'r llyfrau eraill yn y gyfres Dysgu Cymraeg, rhennir yr eirfa'n enwau benywaidd, enwau gwrywaidd, berfenwau, ansoddeiriau ac arall. Eglurir y cod lliw yn yr uned gyntaf. Cofiwch ddefnyddio'r adrannau hyn ar gyfer gwaith atgyfnerthu neu ymestynnol, e.e. troi enwau yn ansoddeiriau, ymarfer cyfleoliadau.

Ceir ymarfer ym mhob uned i atgyfnerthu'r eirfa.

**Gwaith cartref**

Ceir adrannau Gwybodaeth o iaith, darllen a deall, ac ysgrifennu rhydd yn y Gwaith cartref. Anogwch y dysgwyr i roi cynnig ar o leiaf un dasg ar ôl pob dosbarth.

**Unedau cyfoes**

Darperir pum uned gyfoes yn ystod y flwyddyn. Bydd y gwersi hyn ar gael ar y Safle Rhyngweithiol. Mae'r amserlen yn newid o flwyddyn i flwyddyn, yn dibynnu beth fydd y gwersi.

**Asesu ar gyfer Dysgu**

Mae hwn yn rhywbeth y dylai tiwtoriaid fod yn ei wneud yn barhaus, ond mae'n bwysig iawn ar ddiwedd gwers. Dyma rai syniadau:

i. Gofyn ar ddiwedd gwers beth a ddysgwyd. Gellir nodi'r pethau hyn ar y bwrdd gwyn a llenwi unrhyw fylchau. Gellid tynnu siâp ymennydd ar y bwrdd a llenwi'r siâp.

ii. Rhoi post-it i bob dysgwr nodi tri pheth a ddysgwyd yn ystod y wers. Gellir eu casglu a dychwelyd atynt ar gyfer atgyfnerthu ar ddechrau'r wers nesaf.

iii. Rhoi post-it i bawb gofnodi eu hoff frawddeg o'r wers/uned. Gellir eu hailddosbarthu a chael pawb i ddyfalu pwy ysgrifennodd beth.

iv. Dewis hyd at bedwar gair o'r wers a gofyn i bawb ysgrifennu 4 brawddeg/cwestiwn yn ymarfer y geiriau hyn a'r patrymau targed.

v. 3-4-5. Pawb i ddweud tri pheth maen nhw wedi'u dysgu wrth bedwar person mewn pum munud.

vi. Pawb i greu bwydlen yn nodi tri peth maen nhw wedi'u dysgu ar ffurf cwrs cyntaf, prif gwrs a phwdin. Gellid gofyn am rywbeth gwahanol ym mhob categori, e.e. cwrs cyntaf yn eitem geirfa, y prif gwrs yn batrwm a'r pwdin yn ddarn o wybodaeth newydd. (Gallai'r wybodaeth hon fod yn gyfle Dysgu Anffurfiol.)

vii. Ysgrifennu neges destun at ffrind yn dweud beth ddysgwyd yn y wers/uned.

# Uned 1

## Cam 1 – Siarad cychwynnol

Defnyddiwch y cardiau sy yn Atodiad 1 i sbarduno siarad cychwynnol. Dylai pob dysgwr ddewis tri cherdyn – dau sy'n dweud rhywbeth amdanyn nhw ac un sy ddim yn wir amdanyn nhw o gwbl. Gellid rhannu'r dosbarth yn barau ar gyfer y gwaith hwn, gan newid y parau hyd at dair gwaith. Os byddwch chi'n dysgu dosbarth rhithiol, gellid anfon y cardiau at y dysgwyr ymlaen llaw.

## Cam 2 – Siarad personol

**Storom eirfa swyddi**

**Y swydd gyntaf** – Yn yr arholiad, rhaid sôn am bob un o'r pwyntiau bwled felly mae angen annog y dysgwyr i wneud hyn o'r cychwyn cyntaf. Gofynnwch i bawb godi ar eu traed a chrwydro gan siarad â phobl wahanol wrth ymdrin â phob un o'r pwyntiau bwled fesul un. Bydd hyn hefyd yn dangos o'r dechrau y byddan nhw ar eu traed yn siarad yn ystod y cwrs. Ar ôl mynd trwy'r cam hwn, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri i drafod y pwnc, gan gyfeirio at y pwyntiau bwled, ond gan ymhelaethu hefyd.

## Cam 3 – Gwybodaeth o iaith

**Llenwi bylchau**

Ymarfer llenwi bylchau o un o gyn-bapurau'r arholiad Defnyddio'r Gymraeg – Uwch a geir yma. Bydd yr ymarferion hyn yn ymddangos yn rheolaidd yn ystod y cwrs. Gweler y canllawiau cyffredinol ar gyfer syniadau sut i'w defnyddio yn y dosbarth.

Dyma'r atebion:

1. i
2. o'r
3. tasai/tasa/'sai
4. Doedd
5. heb
6. pam
7. geni
8. gilydd
9. gwreiddiau
10. tafliad
11. teithio
12. treulio/hala
13. fod
14. gwrando
15. iaith
16. hiraeth

**Ymarfer – fel tasai**

Ymarfer cyfieithu sydd yma er mwyn hoelio sylw ar y defnydd o 'fel tasai' i gyfateb i'r Saesneg *seems to be/as if*. Tynnwch sylw i ddechrau at y defnydd o'r ymadrodd yn y darn llenwi bylchau – 'Mae'n teimlo fel tasai fo'n gartref i ni erbyn hyn'. Yna, gofynnwch i barau fynd trwy'r brawddegau sydd i'w cyfieithu yn y llyfr cwrs cyn i chi fynd drostynt gyda'r dosbarth. Gallwch dynnu sylw at amrywiadau tafodieithol yma hefyd ac ymarfer gyda ffurfiau a ddefnyddir yn eich ardal chi, e.e. Mae e'n dishgwl fel 'sai fe..., Mae o'n edrych/i weld fel tasa fo... Dyma'r atebion:

1. Mae e/o fel tasai fe/fo'n cysgu.
2. Mae e/o fel tasai fe/fo'n gwrando arna i.
3. Mae hi fel tasai hi'n mynd heb fwyd.
4. Mae hi fel tasen nhw'n anghofio'u gwreiddiau.
5. Mae hi fel tasen ni o fewn hanner awr i'r maes awyr.

Mae'r cyfieithiadau hyn hefyd yn ailgylchu geirfa/ymadroddion eraill sy'n codi yn y darn gwreiddiol.

## Cam 4 – Gwrando a deall

I gychwyn, ceir gwaith llafar fel bod y dysgwyr yn gyfarwydd â'r hyn sy'n cael ei drafod yn y darn – byw neu weithio dramor.

Mae Bethan Rhys Roberts yn siarad yn gyflym ac felly ceir dwy dasg ragarweiniol.

Rhan 1 – Gofynnir i'r dysgwyr wrando am ffurfiau gogleddol: efo, wnes i, mi ges i, ganddi, medru.
Rhan 2 – Gofynnir i'r dysgwyr wrando am bedwar ymadrodd wrth wrando ar yr ail ran:

Ro'n i wastad yn dewis gweini.
Mae rhaid i ti gael hwn yn iawn.
Mae 'na olwg bryderus arnat ti.
Mi ollyngais i'r tatws yng nghôl Madame Rhif 1.

Wedyn, ceir cyfres o ymarferion i ymarfer:
Ro'n i wastad yn dewis gweini: Rhannwch y dosbarth yn barau i greu brawddegau, 'Pan o'n i'n blentyn, ro'n i wastad yn dewis XXX'.

Mae rhaid i ti gael hwn yn iawn: Ceir cyfres o frawddegau i'w cyfieithu. Dyma rai atebion posib:

| | |
|---|---|
| *I got it right.* | Ces i fe'n iawn./Mi ges i fo'n iawn. |
| *I'm determined to get it right.* | Dw i'n benderfynol o'i gael yn iawn. |
| *I will get it right eventually.* | Caf i fe'n iawn yn y pen draw/Mi ga i fo'n iawn yn y pen draw. |

Mae 'na olwg bryderus arnat ti: Disodli pryderus, e.e. da, diflas, blinedig, ansicr, gwael.

Mi ollyngais i'r tatws yng nghôl Madame Rhif 1: Rhaid ymateb i'r brawddegau sbardun. Ceir rhai atebion posib isod ond y mae llawer o amrywiadau eraill yn bosib.

Dyma rai atebion posib:

| | |
|---|---|
| Beth wnaeth y gweinydd? | Gollyngodd e'r plât. |
| Beth wnaeth y gôl-geidwad? | Gollyngodd e'r bêl. |
| Beth wnaeth y pysgotwr? | Gollyngodd e'r pysgodyn (i'r dŵr). |
| Beth wnaeth y gyrrwr tacsi? | Gollyngodd e'r cwsmer. |
| Beth wnaeth y myfyriwr? | Gollyngodd e'r pwnc. |
| Beth wnaeth yr heddlu? | Gollyngon nhw'r cyhuddiad. |

Bydd y ddau ymarfer uchod yn rhoi cyfle i'r dosbarth ymgyfarwyddo â'r acen a rhywfaint o'r cynnwys cyn gorfod poeni am y cwestiynau. Caiff y dysgwyr wrando ar y darn ddwywaith eto er mwyn ateb y cwestiynau. Rhannwch nhw'n barau i drafod eu hatebion cyn cynnal sesiwn adrodd yn ôl. Os y dymunir, gellir chwarae'r darn unwaith eto ar y diwedd.

## Cam 5 – Siarad – Pwnc llosg – Dylai parcio mewn trefi fod yn rhad ac am ddim

Yn gyntaf, rhannwch y dosbarth yn barau i ddisgrifio'r llun yn y llyfr cwrs. Gofynnwch am frawddeg gan bob aelod o'r dosbarth ac ymdriniwch â chywirdeb brawddegau yn ôl y gofyn. Dyma rai syniadau:

Mae'r dyn yn prynu tocyn parcio.
Mae e'n pwyso'r botymau ar y peiriant.
Mae'n costio dwy bunt i barcio am awr neu lai.

Yna, cyflwynwch y chwe therm a fydd yn ddefnyddiol i drafod y pwnc hwn: hwb i'r economi, effaith andwyol, busnesau lleol, llinellau melyn dwbl, toriadau, arian mân. Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i greu brawddeg sy'n berthnasol i'r pwnc yn defnyddio pob un o'r termau hyn.

Yna, rhannwch y dosbarth yn barau newydd neu'n grwpiau bach i drafod y thema.

## Cam 6 - Gwybodaeth o iaith - Aralleirio

Ymarfer aralleirio o un o gyn-bapurau'r arholiad Defnyddio'r Gymraeg – Uwch a geir yma. Mae angen aralleirio'r brawddegau gan ddefnyddio gair sbardun a roddir. Fel arfer, bydd hyn yn golygu newid idiom y frawddeg neu ran ohoni. Bydd yr ymarferion hyn yn ymddangos yn rheolaidd yn ystod y cwrs.
Gofynnwch i barau fynd trwy'r brawddegau gan roi cynnig arnynt. Os bydd rhai o'r brawddegau'n achosi penbleth, cyfunwch barau i greu grwpiau o bedwar i gymharu atebion a thrafod ymhellach (neu gallwch newid partneriaid). Wedi i bawb gael cyfle i drafod y cyfan, ewch dros yr atebion a thrafod y pwyntiau ieithyddol sy'n codi. Dyma'r atebion disgwyliedig:

1. Mae Mair yn bwriadu rhoi'r gorau i 'smygu.
2. Mae John newydd adael clwb y Gweilch.
3. Y peth mwya cyffrous i mi yw gwylio gêm rygbi dda.
4. Ddest ti o hyd i rywbeth arall yn y cwpwrdd?
5. Does dim ots gyda fi/gen i pwy sy'n mynd/Does gen i ddim ots pwy sy'n mynd.
6. Rwyt ti yn llygad dy le.
7. Mae hen ddigon o ddysgwyr ar y cwrs.
8. Mae llawer o ffyrdd prysur yn y ddinas.

**sawl/llawer o**

Atgoffwch y dysgwyr o'r modd y defnyddir **sawl** gydag enwau unigol a **llawer o** gydag enwau lluosog gan roi enghreifftiau (mae un enghraifft yn y llyfr). Yna, gofynnwch i barau fynd trwy'r tabl gan aralleirio'r brawddegau trwy newid 'sawl' i 'llawer o' neu'r ffordd arall. Atgoffwch nhw y gall fod angen newid elfennau eraill yn y brawddegau hefyd e.e. eu/ei. Ewch dros yr atebion gyda'r dosbarth:

| Sawl | Llawer o |
|---|---|
| Mae sawl tŷ yn ein stryd ni wedi cael ei beintio'n ddiweddar. | **Mae llawer o dai yn ein stryd ni wedi cael eu peintio'n ddiweddar.** |
| **Roedd sawl plentyn gartre'n sâl ddydd Gwener diwethaf.** | Roedd llawer o blant gartre'n sâl ddydd Gwener diwethaf. |
| Roedd sawl cadair yn wag yn y cyfarfod. | **Roedd llawer o gadeiriau'n wag yn y cyfarfod.** |
| Mae sawl damwain wedi bod yn y fan honno. | **Mae llawer o ddamweiniau wedi bod yn y fan honno.** |
| **Mae'r Llywodraeth yn cynnal sawl arolwg er mwyn canfod barn y cyhoedd.** | Mae'r Llywodraeth yn cynnal llawer o arolygon er mwyn canfod barn y cyhoedd. |
| Mae sawl swyddfa ar gau heddiw ledled Cymru. | **Mae llawer o swyddfeydd ar gau heddiw ledled Cymru.** |
| Mae sawl atyniad poblogaidd i ymwelwyr yn Sir Benfro. | **Mae llawer o atyniadau poblogaidd i ymwelwyr yn Sir Benfro.** |
| Mae sawl cadeirydd wedi methu cadw trefn ar y pwyllgor hwnnw. | **Mae llawer o gadeiryddion wedi methu cadw trefn ar y pwyllgor hwnnw.** |
| **Mae sawl cenedl yn cael diwrnod o wyliau ar ddydd gŵyl ei nawddsant.** | Mae llawer o genhedloedd yn cael diwrnod o wyliau ar ddydd gŵyl eu nawddsant. |
| Mae sawl creadur diddorol yn llechu yn nyfroedd y llyn. | **Mae llawer o greaduriaid diddorol yn llechu yn nyfroedd y llyn.** |

**newydd**

Atgoffwch y dysgwyr o'r modd y defnyddir **newydd** yn lle **wedi** pan fydd rhywbeth newydd ddigwydd a bod angen treiglad meddal ar ôl **newydd** yn y cyd-destun hwn. Yna, gofynnwch i barau fynd trwy'r gosodiadau sydd yn y llyfr a chreu ymatebion addas sy'n dweud beth sydd newydd ddigwydd. Gwiriwch fod y brawddegau sy'n cael eu creu yn rhai cywir wrth iddyn nhw fynd trwyddynt. Yna, gofynnwch i un partner guddio'r atebion y maen nhw wedi'u creu tra bydd y partner arall yn darllen y gosodiadau. Y nod yw rhoi'r ateb mor gyflym â phosib a symud ymlaen yn gyflym i'r gosodiad nesaf. Wedi gwneud hyn unwaith, dylent gyfnewid rôl ac ailadrodd y dasg. Dylent barhau i ailadrodd y dasg nes byddant yn gallu ateb yn rhwydd heb oedi. Pan fyddant yn barod, gallech chi fynd trwy'r gosodiadau fesul un gyda'r dosbarth, gan alw ar un dysgwr i ateb yn gyflym a slic bob tro!

**Siarad – rhoi'r gorau i**

Rhoddir cyfle yma i ddefnyddio un o'r idiomau o'r ymarfer aralleirio yn sail i sgwrs. Cyflwynwch y cwestiynau - gallech wahodd y dysgwyr i ofyn y cwestiynau i chi i ddechrau. Os byddwch yn gwneud hyn, ymhelaethwch gydag atebion sy'n fwy nag un frawddeg. Bydd hyn yn modelu'r ffordd y byddech chi'n dymuno iddyn nhw drafod y pwnc. Wedi i chi wneud hyn, rhowch y dysgwyr mewn grwpiau o 3 a gofyn iddynt ddefnyddio'r cwestiynau i sbarduno trafodaeth.

## Cam 7 - Cymraeg ffurfiol

Pwrpas yr adrannau hyn yw cyflwyno'r dysgwyr i agweddau ar Gymraeg ffurfiol er mwyn eu cynorthwyo wrth ddarllen. Y testun dan sylw yma yw hepgor rhagenwau yn dilyn berfau ac arddodiaid, a goblygiadau hynny. Dyma'r atebion i'r ymarfer.

| | |
|---|---|
| roeddent | roedden nhw/ro'n nhw |
| ohonom | ohonon ni |
| byddem | bydden ni/basen ni/'sen ni |
| canant | canan nhw/maen nhw'n canu |
| aethom | aethon ni/mi aethon ni/mi wnaethon ni fynd |
| yr ydym | 'dyn ni/dan ni |
| amdanaf | amdana i |
| drostynt | drostyn nhw |

Anogwch y dysgwyr i gasglu enghreifftiau o Gymraeg Ffurfiol fel gwaith cartref.

## Cam 8 - Gwaith cefndir – Cylchgronau Cymraeg

Fel cam cyntaf, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i enwi cymaint â phosib o gylchgronau Cymraeg. Os yn bosib, ewch â chasgliad o gylchgronau i'r dosbarth gan wahodd y dysgwyr i fynd ag un adref. Gallant sôn am rywbeth a fwynheuon nhw yn y cylchgrawn yn y wers nesf.

Rhowch un o'r cardiau sy'n disgrifio cylchgrawn i bob aelod o'r dosbarth. Ceir copi o'r cardiau yn Atodiad 2 ac mae'r atebion isod. Dylid annog y dosbarth i aralleirio'r atebion ar y cardiau yn hytrach na darllen os yn bosib. Os bydd mwy nag 13 yn y dosbarth, bydd rhaid i rai pobl rannu'r un cerdyn.

| Cylchgrawn | Disgrifiad |
|---|---|
| **Barddas** | Cylchgrawn chwarterol sy'n ymwneud â barddoniaeth Gymraeg. Mae'n cynnwys gwaith gwreiddiol gan feirdd, newyddion ac adolygiadau. |
| **Barn** | Cylchgrawn materion cyfoes (print) a gyhoeddir yn fisol. Mae'r cylchgrawn yn cynnwys erthyglau amrywiol, adolygiadau a cholofnwyr o Gymru a thu hwnt. |
| **Bore Da ac Iaw** | Cylchgronau i blant sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae **Bore Da** i blant cynradd, ac **Iaw** i blant oed uwchradd. Yr Urdd sy'n cyhoeddi'r cylchgronau hyn. |
| **Cara** | Cylchgrawn print i fenywod ifanc a gyhoeddir dair gwaith y flwyddyn. Mae'n trafod iechyd, teithio, bwyd, materion cyfoes, merched difyr, ffasiwn, colur, y **celfyddydau** - a chlecs! |
| **CIP** | Cylchgrawn i blant 7-10 oed a gyhoeddir yn fisol gan Yr Urdd. Mae'n cynnwys erthyglau, cystadlaethau, posau, cartwnau, straeon, jôcs, sêr, llythyron a phosteri. |
| **Golwg** | Cylchgrawn wythnosol sy'n cynnwys newyddion sy'n berthnasol i Gymru, colofnwyr amrywiol ac erthyglau am y **celfyddydau**, steil a ffasiwn. |
| **Lingo Newydd** | Cylchgrawn print i ddysgwyr Cymraeg a gyhoeddir bob yn ail fis. Mae rhestr eirfa i'r erthyglau, ac mae pob erthygl wedi'i graddio yn ôl lefelau dysgu Cymraeg. |
| **Lysh** | Cylchgrawn digidol i ferched rhwng 11 a 14 oed, a gyhoeddir yn fisol. Mae'r cylchgrawn hefyd yn cyhoeddi deunydd yn rheolaidd ar ei wefan ac ar instagram. |
| **O'r Pedwar Gwynt** | Cylchgrawn llenyddol a gyhoeddir dair gwaith y flwyddyn. Mae'n cynnwys gwaith beirniadol a chreadigol, erthyglau, adolygiadau, cyfweliadau a chroesair. Cyhoeddir deunydd ychwanegol ar wefan y cylchgrawn bob nos Wener. |
| **Wcw** | Cylchgrawn i blant oed meithrin, sy'n cynnwys cartwnau, cwisiau a chystadlaethau. |
| **Y Cymro** | Papur newydd Cymraeg a sefydlwyd yn 1932. Erbyn hyn, mae'n cael ei gyhoeddi'n fisol ac yn cynnwys erthyglau amrywiol a cholofnwyr poblogaidd. |
| **Y Selar** | Cylchgrawn print wedi'i anelu at ddarllenwyr 16-25 oed, sy'n trafod cerddoriaeth Gymraeg gyfoes. Mae seremoni wobrwyo flynyddol gan y cylchgrawn ar gyfer bandiau ac artistiaid Cymraeg. |
| **Y Wawr** | Cylchgrawn print **chwarterol**, a ddarllenir gan fenywod yn bennaf. Mae'n cynnwys erthyglau amrywiol, cyfweliadau a chystadlaethau. Cylchgrawn y mudiad Merched y Wawr yw e. |

# Fideo 1 – Golwg

Cafodd y fideo ei wneud yn 2018, pan oedd cylchgrawn Golwg, yn dathlu ei ben-blwydd yn 30 oed.

Mae'r fideo hefyd yn trafod gwefan newyddion Golwg 360 a chylchgronau eraill sy'n cael eu cyhoeddi gan gwmni Golwg.

1. Cafodd rhifyn o Golwg ei gyhoeddi yn Eisteddfod Casnewydd, 1988. Beth oedd yn arbennig am y rhifyn hwnnw?

<u>Hwn oedd rhifyn cyntaf y cylchgrawn, ac roedd e'n cael ei roi am ddim.</u>

2 Roedd Siân Sutton yn cyfrannu at gylchgrawn Golwg yn 1988. Mae hi'n dweud bod "y drefen (y **drefn**) wedi newid yn llwyr ers y dechrau." Esboniwch sut roedd hi'n ysgrifennu ac yn anfon erthyglau bryd hynny.

<u>Roedd hi'n teipio erthyglau gyda theipiadur ac yn eu postio.</u>

3. Beth oedd yn bwysig iawn wrth gysylltu â phobl yn y dyddiau cynnar? Sut mae newyddiadurwyr Golwg yn dod o hyd i bobl y dyddiau hyn?

<u>Yn y dyddiau cynnar, roedd y llyfr ffôn yn bwysig i gysylltu â phobl. Erbyn hyn, maen nhw'n dod o hyd i bobl trwy'r cyfryngau cymdeithasol.</u>

4. Nodwch un ffaith ddiddorol arall o'r fideo yn y blwch isod.

Llawer o enghreifftiau posib e.e.: Mae Golwg 360 yn darparu gwasanaeth newyddion di-dor bob dydd; cwmni Golwg sy'n gyfrifol am Lingo Newydd ac Wcw; mae Lingo Newydd yn 'nesu at ugain oed'; yn ôl Dylan Iorwerth mae llawer o'r un straeon yn codi o hyd dros y blynyddoedd.

5. Yn ôl Dylan Iorwerth, buodd cyfnod hir cyn eu bod nhw'n gallu "rhoi Golwg ar ei draed." Mae **troed** a **traed** yn cael eu defnyddio mewn llawer o eiriau ac ymadroddion yn Gymraeg. Gyda'ch partner, ceisiwch gyfieithu'r canlynol:

| | |
|---|---|
| footnote | troednodyn |
| barefooted | troednoeth |
| I put my foot down | Rhoddais i fy nhroed i lawr |
| He put his foot in it(hi) | Rhoddodd e/o ei droed ynddi |
| Mess, confusion | traed moch |
| Something is afoot | Mae rhywbeth ar droed |
| The foot of the bed | troed y gwely |
| Like crows' feet | fel traed brain |

6. Mae Dylan Iorwerth yn dweud bod Golwg yn arfer cael ei **ddylunio** â llaw. Gyda'ch partner, ceisiwch feddwl am o leiaf dri pheth sydd fel arfer yn cael eu gwneud â llaw a nodwch nhw fan hyn.

Enghreifftiau posib: gemwaith, crochenwaith, cerfluniau, paentiadau, brodwaith, caws drud, gwahoddiadau priodas, pizzas mewn bwytai Eidalaidd, modelau awyrennau, golchi dillad, gwnïo, gwneud bara.

7. Wrth siarad am y gwaith o baratoi Golwg, mae Siân Sutton yn dweud "...mae'n **ddi-baid**, does dim diwedd iddi a dweud y gwir." Gofynnwch i'r dysgwyr ddyfalu beth yw ystyr y geiriau isod, sydd hefyd yn dechrau â **di**-?

**Diffiniadau posib:**

**di-asgwrn-cefn**

Yn llythrennol, mae'n golygu bod dim asgwrn cefn gan rywbeth e.e. neidr. Yn ffigurol, mae'n golygu bod rhywun ddim yn ddewr ac yn methu gwneud penderfyniad anodd.

**di-drefn**

Anhrefnus ac anniben/blêr.

**di-hwyl**

Ddim yn teimlo'n dda, anhapus, digalon, dim amynedd nac egni i wneud unrhyw beth. Gellid hefyd cyflwyno'r idiom 'a'i ben yn ei blu / a'i phen yn ei phlu' wrth drafod hyn.

**di-liw**

Ddim yn lliwgar; plaen, undonog a diflas.

**di-wifr**

Does dim angen gwifren i gael cyflenwad o drydan, neu i gysylltu â'r Rhyngrwyd.

**di-dâl**

Does dim angen talu o gwbl – am ddim.

**didalent**

Ddim yn dalentog o gwbl.

**digartref**

Person heb gartref parhaol, efallai'n byw ar y strydoedd.

Mae hi hefyd yn werth egluro pryd byddwn ni'n defnyddio cysylltnod, sef i gysylltu dau air unsill, e.e. di-waith ond digartref.

## Cam 9 – Atgyfnerthu Geirfa Uned 1



Ceir gêm kahoot i adolygu Geirfa Uned 1. Dyma'r ddolen - https://create.kahoot.it/share/uwch-3-geirfa-uned-1/057ee66e-447f-48e3-88aa-f51ec3383f62. Gweler y Canllawiau Cyffredinol ar gyfer arweiniad ar kahoot.


**Uned 1, Atodiad 1**

| | |
|---|---|
| **Alla i ddim cael gwared ar fy hoff degan!** | **Mae fy anifail anwes yn un o fy ffrindiau gorau.** |
| **Dw i'n cymharu prisiau siopau ar y we cyn mynd i siopa.** | **Mae'n well gen i anfon negeseuon testun na ffonio pobl.** |
| **Alla i ddim meddwl am ddim byd gwaeth na gwyliau *all inclusive* mewn gwlad boeth!** | **Ddysgais i ddim llawer yn yr ysgol.** |
| **Dw i'n mwynhau canu *karaoke*.** | **Dw i'n berson annibynnol iawn.** |
| **Dw i'n hoffi gwneud gwaith tŷ.** | **Mae cadw fy nghar yn lân ac yn daclus yn bwysig iawn i mi.** |

| | |
|---|---|
| Dw i'n poeni am newid hinsawdd. | Mae technoleg wedi gwella fy mywyd i. |
| Dw i erioed wedi tynnu hunlun. | Aderyn y nos dw i. |
| Rhaglenni dogfen ydy fy hoff raglenni teledu. | Bydd pobl wastad yn synnu pan fydda i'n dweud wrthyn nhw fy mod i... |
| Bydda i'n mynd i'r salon trin gwallt o leia unwaith y mis. | Dw i erioed wedi bod dramor. |
| Dw i'n credu bod coginio'n wastraff amser. | Dw i'n edrych ymlaen at ymddeol. |

| | |
|---|---|
| Dw i'n hoffi edrych ar fapiau. | Fydda i byth yn gwylio'r teledu. |
| Dw i wedi gwylio fy hoff ffilm sawl gwaith ac yn cofio rhannau o'r sgript. | Dw i ddim yn hoffi mynd i lefydd dieithr ar fy mhen fy hun. |

| Cylchgrawn | Disgrifiad |
|---|---|
| Barddas   | Cylchgrawn chwarterol sy'n ymwneud â barddoniaeth Gymraeg. Mae'n cynnwys gwaith gwreiddiol gan feirdd, newyddion ac adolygiadau. |
| Barn   | Cylchgrawn materion cyfoes (print) a gyhoeddir yn fisol. Mae'r cylchgrawn yn cynnwys erthyglau amrywiol, adolygiadau a cholofnwyr o Gymru a thu hwnt. |
| Bore Da ac Iaw     | Cylchgronau i blant sy'n dysgu Cymraeg fel ail iaith. Mae Bore Da i blant cynradd, ac Iaw i blant oed uwchradd. Yr Urdd sy'n cyhoeddi'r cylchgronau hyn. |
| Cara   | Cylchgrawn print i fenywod ifanc a gyhoeddir dair gwaith y flwyddyn. Mae'n trafod iechyd, teithio, bwyd, materion cyfoes, merched difyr, ffasiwn, colur, y celfyddydau - a chlecs! |
| CIP   | Cylchgrawn i blant 7-10 oed a gyhoeddir yn fisol gan Yr Urdd. Mae'n cynnwys erthyglau, cystadlaethau, posau, cartwnau, straeon, jôcs, sêr, llythyron a phosteri. |

| | |
|---|---|
| Golwg   | Cylchgrawn wythnosol sy’n cynnwys newyddion sy’n berthnasol i Gymru, colofnwyr amrywiol ac erthyglau am y celfyddydau, steil a ffasiwn. |
| Lingo Newydd   | Cylchgrawn print i ddysgwyr Cymraeg a gyhoeddir bob yn ail fis. Mae rhestr eirfa i’r erthyglau, ac mae pob erthygl wedi’i graddio yn ôl lefelau dysgu Cymraeg. |
| Lysh | Cylchgrawn digidol i ferched rhwng 11 a 14 oed, a gyhoeddir yn fisol. Mae’r cylchgrawn hefyd yn cyhoeddi deunydd yn rheolaidd ar ei wefan ac ar instagram. |
| O’r Pedwar Gwynt   | Cylchgrawn llenyddol a gyhoeddir dair gwaith y flwyddyn. Mae'n cynnwys gwaith beirniadol a chreadigol, erthyglau, adolygiadau, cyfweliadau a chroesair. Cyhoeddir deunydd ychwanegol ar wefan y cylchgrawn bob nos Wener. |
| Wcw   | Cylchgrawn i blant oed meithrin, sy’n cynnwys cartwnau, cwisiau a chystadlaethau. |

| | |
|---|---|
| Y Cymro   | Papur newydd Cymraeg a sefydlwyd yn 1932. Erbyn hyn, mae'n cael ei gyhoeddi'n fisol ac yn cynnwys erthyglau amrywiol a cholofnwyr poblogaidd. |
| Y Selar  | Cylchgrawn print wedi'i anelu at ddarllenwyr 16-25 oed, sy'n trafod cerddoriaeth Gymraeg gyfoes. Mae seremoni wobrwyo flynyddol gan y cylchgrawn ar gyfer bandiau ac artistiaid Cymraeg. |
| Y Wawr   | Cylchgrawn print chwarterol, a ddarllenir gan fenywod yn bennaf. Mae'n cynnwys erthyglau amrywiol, cyfweliadau a chystadlaethau.  Cylchgrawn y mudiad Merched y Wawr yw e. |

# Uned 2 Uwch 3

## Cam 1 – Darllen a siarad – Un rheol yn ormod

Rhowch deitl y darn ar y bwrdd gwyn a rhannwch y dosbarth yn grwpiau i ddyfalu am beth mae'r darn. Casglwch syniadau, e.e. iechyd a diogelwch. Gellid creu sgwrs o gwmpas un neu fwy o'r pynciau hyn cyn troi at y darn darllen.

Mae'r darnau darllen hyn yn Uwch 3 yn hwy na'r darnau yn Uwch 1 a 2. Ar ôl i chi ymdrin â'r darn, gofynnwch i barau grynhoi pum prif bwynt. Gofynnwch iddynt adrodd yn ôl. Wedyn gofynnwch y cwestiynau isod. Tybir y bydd yr un pwyntiau'n codi. Gan mai dim ond pum cwestiwn sydd, argymhellir rhoi rhai eiliadau i unigolion gasglu eu meddyliau, trafod yr ateb gyda phartner, ac yna un person i ateb o flaen y dosbarth.

1. Pam roedd Hartsdown Academy yn y newyddion?
Achos cafodd hanner cant o blant eu hanfon adre am dorri rheolau gwisg ysgol.
2. Beth sy'n gwneud i ferched fod yn wahanol i fechgyn, yn ôl yr awdur?
Mae cyrff merched yn newid yn fwy na chyrff bechgyn yn eu harddegau.
3. Ym mha ffordd mae'r gwahaniaethau rhwng plant yn dod i'r amlwg, er gwaetha polisi'r ysgol?
Mae'n amlwg yn eu ffonau symudol, eu trenyrs, eu cartrefi, y bwyd maen nhw'n ei fwyta yn yr ysgol a'r ceir mae eu rhieni'n gyrru.
4. Beth ddylai fod yn bwysig wrth baratoi pobl ifanc at fyd gwaith, yn ôl yr erthygl?
Dylai fod yn bwysig dysgu pobl ifainc i fod yn annibynnol a chyfrifol, sy'n fodlon dyfalbarhau a derbyn bod gwaith yn gallu bod yn *boring*. Ac yn fwy na dim, mae angen i bobl ifainc gael sgiliau trin pobl.
5. Pam mae'r erthygl yn sôn am Corbyn a Cameron?
Achos roedd Cameron yn hapus i feirniadu Corbyn am ei wisg, e.e. peidio â gwisgo tei. Ond roedd e hefyd yn barod i dalu dros £50,000 ar gyfer ymgynghorydd ffasiwn i'w wraig e.

Wedyn, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach ar gyfer y gwaith llafar ac i feddwl am deitl arall ar gyfer y darn.

## Cam 2 – Gwybodaeth o iaith – dewis y ffurf gywir

Ymarferion o gyn-bapurau'r arholiad Defnyddio'r Gymraeg – Uwch a geir yma. Mae angen dewis y ffurf gywir i'w gosod mewn bwlch o blith pedwar dewis. Bydd yr ymarferion hyn yn ymddangos yn rheolaidd yn ystod y cwrs.

Gweler y Canllawiau Cyffredinol i weld sut i gyrchu gweithgareddau ar Kahoot. Mae'r ymarfer hwn ar gael trwy ddilyn y ddolen isod:

https://create.kahoot.it/share/uwch-3-uned-2-dewis-y-ffurf-gywir/7f21b238-5249-4866-8d02-967ce9f6ec37 neu drwy chwilio am "Uwch 3 Uned 2" ar wefan Kahoot.

Dyma'r atebion cywir:

| | |
|---|---|
| 1. ch | 5. ch |
| 2. c | 6. c |
| 3. a | 7. a |
| 4. ch | 8. b |

**Ymarfer**

**berfau amhersonol**

Amser gorffennol y ferf sydd gennym yma (rhif 2 yn yr ymarfer). Ewch dros y gwahaniaeth rhwng berfau personol (sy'n dweud pwy wnaeth rhywbeth) a berfau amhersonol (sy'n dweud beth ddigwyddodd, ond heb ddweud pwy wnaeth). Gall helpu os gwnewch chi esbonio na fydd gan ferf amhersonol fyth oddrych a phwysleisio bod ymadroddion megis 'ysgrifennwyd y clerc lythyr' neu 'diolchwyd y trefnydd i'r beirniaid' yn wallus oherwydd mai goddrych (h.y. y person a gyflawnodd y weithred) yw 'y clerc' ac 'y trefnydd' yma.

Ewch ymlaen at yr ymarfer trwy ofyn i barau fynd trwy'r brawddegau a'u troi'n frawddegau amhersonol cyn i chi fynd dros yr atebion gyda'r dosbarth cyfan. Dyma'r atebion disgwyliedig:

1. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.
2. Diolchwyd i'r staff am eu gwaith gan y pennaeth.
3. Enillwyd y gêm gan Gasnewydd gyda dwy gôl yn yr ail hanner.
4. Gwnaethpwyd/Gwnaed y cynnig gan Dafydd.
5. Eiliwyd y cynnig gan Eleri.

**mawr angen/gwir angen**

Cyflwynwch yr ymadrodd 'mae mawr/gwir angen...' ac esbonio, gydag enghreifftiau, ei fod yn cryfhau'r ymadrodd 'mae angen...'. Yna, gofynnwch i barau fynd trwy'r gosodiadau sydd yn y llyfr a chreu ymatebion addas sy'n dechrau gyda'r ymadrodd 'Mae mawr/gwir angen...'. Gwiriwch fod y brawddegau sy'n cael eu creu yn rhai cywir wrth iddyn nhw fynd trwyddynt. Yna, gofynnwch i un partner guddio'r atebion y maen nhw wedi'u creu tra bydd y partner arall yn darllen y gosodiadau. Y nod yw drilio a rhoi'r ateb mor gyflym â phosib a symud ymlaen yn gyflym i'r gosodiad nesaf. Wedi gwneud hyn unwaith, dylent gyfnewid rôl ac ailadrodd y dasg. Dylent barhau i ailadrodd y dasg nes byddant yn gallu ateb yn rhwydd heb oedi. Pan fyddant yn barod, gallech chi fynd trwy'r gosodiadau fesul

un gyda'r dosbarth, gan alw ar un dysgwr i ateb yn gyflym a slic bob tro!

**Gadael** (rhif 5 yn yr ymarfer)

Cyflwynwch y cwestiynau yn y llyfr sy'n gofyn am ateb gyda ffurfiau gorffennol 'gadael'.

Naill ai:
Ewch trwy'r cwestiynau fesul un gan roi amser penodol (dim mwy na hanner munud) i bawb ysgrifennu eu hateb ar fyrddau gwyn bach (neu ddarn o bapur/gerdyn) neu yn y 'chat', cyn i chi ofyn i bawb ddangos eu hatebion gyda'i gilydd. Rhowch gyfle i unrhyw rai sydd am gywiro'u cynnig wneud hynny cyn i chi gadarnhau'r ateb cywir a thrafod unrhyw faterion sy'n codi, gan gynnwys trafod bôn y ferf – 'gadaw-' a bod yr 'a' yn y sillaf cyn y terfyniad yn troi'n 'e' gyda therfyniadau –ais, -aist, -ir, -id, -i, -wch.

Neu:
Dosbarthwch bedwar cerdyn/darn o bapur ymhlith y dysgwyr - pob un ag un o'r cwestiynau arno. Gofynnwch i'r 4 sydd wedi cael y cardiau ysgrifennu'r ateb arnynt. Yna sicrhewch fod pob cerdyn yn cael ei drosglwyddo i ddwylo pob aelod o'r dosbarth yn ei dro ac y dylent naill ai roi tic ar y cerdyn os ydynt yn credu bod yr ateb yn gywir, neu roi llinell trwy'r ateb a'i gywiro os ydynt yn meddwl bod angen gwneud. Casglwch y cardiau a datgelu'r ateb terfynol sydd ar bob un yn ei dro cyn cadarnhau'r ateb cywir a thrafod unrhyw faterion sy'n codi fel uchod.

**Siarad – dod i arfer â/ag**
Rhoddir cyfle yma i ddefnyddio un o'r idiomau o'r ymarfer uchod (rhif 8) yn sail i sgwrs. Cyflwynwch y cwestiynau - gallech wahodd y dysgwyr i ofyn y cwestiynau i chi i ddechrau. Ymhelaethwch gydag atebion sy'n fwy nag un frawddeg. Bydd hyn yn modelu'r ffordd y byddech chi'n dymuno iddyn nhw drafod y pwnc. Wedi i chi wneud hyn, rhowch y dysgwyr mewn grwpiau o 3 neu 4 a gofyn iddynt ddefnyddio'r cwestiynau i sbarduno trafodaeth.

## Cam 3 – Gwrando a deall – Trafodaeth

Y pwnc dan sylw yw gwaith cartref. Felly, rhannwch y dosbarth yn barau i ragweld pa eirfa allai godi mewn darn yn trafod gwaith cartref. Nodwch nhw ar y bwrdd gwyn. Dylid dychwelyd at y rhestr hon ar ddiwedd y gweithgaredd i weld faint o'r geiriau a gododd.

Dylid chwarae'r darn ddwywaith er mwyn i'r dysgwyr ateb y cwestiynau.

Dyma'r atebion:
1. b   2. a   3. ch
4. ch   5. c   6. ch

Ni chyfeirir at waith llafar yn y llyfr cwrs, ond mae'r pwnc hwn yn un da ar gyfer trafodaeth dosbarth os byddwch am fanteisio ar gyfle ychwanegol ar gyfer gwaith llafar. Dyma rai syniadau ar gyfer y gwaith llafar:

- Rhowch un o'r geiriau a gododd yn y Storom Eirfa i bawb a rhaid iddynt lunio cwestiwn yn cynnwys y gair. Gellid cael pawb ar eu traed yn holi'r cwestiynau i'w gilydd.
- Gosod cyfres o gwestiynau:
  - O'ch chi'n/Oeddech chi'n cael llawer o waith cartref yn yr ysgol?
  - Ydy plant yn cael gormod o waith cartref y dyddiau hyn?
  - Sut dych/dach chi'n mynd ati i wneud eich gwaith cartref Cymraeg?
  - Pa mor bwysig yw/ydy gwneud gwaith cartref wrth ddysgu Cymraeg?

## Cam 4 – Siarad personol – athrawon dylanwadol

Mae'r thema 'dyddiau ysgol' yn parhau gan droi at athrawon dylanwadol. Rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer y gwaith yma. Gellid newid y parau nifer o weithiau. Dylid gwrando am un neu ddau o gyflwyniadau difyr, gan ofyn i'r dysgwyr ddweud eu profiad o flaen y dosbarth.

## Cam 5 – Gwybodaeth o iaith – Llenwi bylchau

Gweler y Canllawiau Cyffredinol.

**Ymarfer – pwy bynnag**

Ceir cyfres o gwestiynau yma i ymarfer defnyddio 'pwy bynnag'. Gofynnwch i barau fynd trwy'r cwestiynau a chreu ymatebion addas sy'n dechrau gyda'r ymadrodd 'Pwy

bynnag...'. Gwiriwch fod y brawddegau sy'n cael eu creu yn rhai cywir wrth iddyn nhw fynd trwyddynt. Yna, gofynnwch i un partner guddio'r atebion y maen nhw wedi'u creu tra bydd y partner arall yn darllen y cwestiynau. Y nod yw drilio a rhoi'r ateb mor gyflym â phosib a symud ymlaen yn gyflym i'r cwestiwn nesaf. Wedi gwneud hyn unwaith, dylent gyfnewid rôl ac ailadrodd y dasg. Dylent barhau i ailadrodd y dasg nes byddant yn gallu ateb yn rhwydd heb oedi. Pan fyddant yn barod, gallech chi fynd trwy'r cwestiynau fesul un gyda'r dosbarth, gan alw ar un dysgwr i ateb yn gyflym a slic bob tro!

**Siarad – lleoliadau gwyliau**

Ceir cyfle yma i ymarfer defnyddio'r ymadroddion 'drws nesa i' ac 'o fewn... i' wrth drafod llety gwyliau ac atyniadau lleol. I ddechrau, gofynnwch i barau drafod pa mor addas ydy'r bwthyn gwyliau a ddisgrifir a pha atyniadau sy'n apelio atyn nhw. Wedyn, gofynnwch iddynt ddisgrifio lleoliad yr atyniadau ar y map, gan ddefnyddio 'drws nesa i Westy'r Ddraig' ac 'o fewn... milltir i Westy'r Ddraig'. Mae'r cylchoedd gwahanol ar y map yn cynrychioli pellteroedd gwahanol o Westy'r Ddraig. Yn olaf, gofynnwch iddynt ddefnyddio'r un ymadroddion wrth drafod atyniadau a chyfleusterau sydd o fewn cyrraedd i'w cartref a/neu rywle ble maen nhw wedi bod ar wyliau.

## Cam 6 - Cymraeg ffurfiol - bod

Nod yr adran hon yw cyflwyno ffurfiau cryno llenyddol y ferf 'bod' yn y presennol a'r amherffaith. Rhannwch y dosbarth yn barau i droi'r iaith lenyddol yn iaith anffurfiol. Dyma rai atebion posib:

| | |
|---|---|
| Yr oedd yn gyfaill i mi. | **Roedd e/o/hi'n gyfaill/ffrind i mi/fi.** |
| Y mae wedi talu am y llyfr. | **Mae e/o/hi wedi talu am y llyfr.** |
| Y maent yn brysur. | **Maen nhw'n brysur/fishi.** |
| Yr ydym yn defnyddio eich data'n ofalus. | **'Dyn/Dan ni'n defnyddio eich data'n ofalus.** |
| Yr oeddent ill dau yn brysur. | **Ro'n/Roedden nhw ill dau/Roedd y ddau ohonyn nhw yn brysur.** |

# Cam 7 - Cefndir: Mudiadau Cymraeg

Mentrau Iaith a'r Urdd yw'r ddau fudiad dan sylw. Byddai'n dda gwahodd un o swyddogion eich Menter Iaith leol i'r dosbarth fel siaradwr gwadd.

**Mentrau Iaith Cymru**

**Gwylio 1**

**Wrth wylio'r fideo, llenwch y bylchau isod yn y sgript:**
"Rhwydwaith o **grwpiau** cymunedol yw'r Mentrau Iaith, sy'n gweithio at **gynyddu** a chryfhau'r **defnydd** o'r Gymraeg yn ein cymunedau."

1. Mae'r rhifau isod yn cael eu dweud yn y fideo. Yn gyntaf, ysgrifennwch y rhifau yn y dull traddodiadol, fel y maen nhw yn y fideo. Yna, esboniwch beth yw arwyddocâd y rhifau.

| | |
|---|---|
| 22 | Dwy ar hugain |
| Arwyddocâd? | Mae 22 Menter Iaith wahanol yng Nghymru. |
| 160,000 | Cant a thrigain mil/Cant a thrigain o filoedd |
| Arwyddocâd? | Mae'r Mentrau Iaith yn gweithio gyda thros 160,000 o bobl yng Nghymru |
| 4,700 | Pedair mil saith cant |
| Arwyddocâd? | Mae'r Mentrau'n cynnal dros 4,700 o weithgareddau yn flynyddol. |

2. Nodwch ffeithiau eraill am Fentrau Iaith yn y blwch isod. Gallwch chi nodi gwybodaeth o'r fideo neu unrhyw beth rydych chi'n ei wybod am eich Menter Iaith leol.

- Mae Mentrau Iaith yn cynnal pob math o weithgareddau, e.e. gwyliau, clybiau gofal plant a sesiynau ymwybyddiaeth iaith.
- Mae Mentrau Iaith yn cefnogi pobl o bob oed ac ym mhob cam o fywyd.
- Mae Mentrau Iaith yn 'siop un stop' ar gyfer yr iaith Gymraeg, ac yn gallu cyfeirio pobl at wasanaethau Cymraeg defnyddiol.
- Mae Mentrau Iaith yn annog pobl i fyw, dysgu a mwynhau yn Gymraeg.
- Gallwch chi ddod o hyd i'ch Menter Iaith leol ar y wefan menteriaith.cymru.

Siaradwch: Ydych chi'n defnyddio eich Menter Iaith leol? Beth fasai'n eich helpu chi i gynyddu eich defnydd o'r Gymraeg yn eich cymuned?

**Fideo 2: Menter Cwm Gwendraeth Elli**

Cyn gwylio'r fideo, edrychwch ar y tabl isod, sy'n cynnwys geiriau a ddefnyddir yn y fideo. Gyda'ch partner, parwch y geiriau gyda'r diffiniadau cywir.

| Gair | Diffiniad |
|---|---|
| llwyddiant | yn hwyrach, yn nes ymlaen |
| awyddus | maen nhw'n cael eu gwneud am hwyl, i addysgu neu i godi arian |
| gweithgareddau | teimlo'n ofnus ac yn ddigalon |
| pryderu | brwdfrydig - eisiau gwneud rhywbeth yn fawr iawn |
| hwb | canlyniad da |
| diweddarach | rhywbeth sy'n gwthio i fyny neu ymlaen; rhywbeth sy'n rhoi cefnogaeth |

1. Beth ddigwyddodd yn 1989? Cynhaliwyd Eisteddfod yr Urdd yng Nghwm Gwendraeth.

2. Beth ddigwyddodd yn 1991? Sefydlwyd Menter Cwm Gwendraeth.

3. Beth oedd yn arbennig am Fenter Cwm Gwendraeth? Hon oedd y Fenter Iaith gyntaf o'i math yng Nghymru.

4. Sut mae'r Fenter hon wedi newid erbyn heddiw? Nodwch ddwy ffaith.

Atebion posib:

- Dim ond dau aelod o staff oedd yn y Fenter yn wreiddiol.
- Erbyn hyn mae dros naw deg o bobl yn gweithio i'r Fenter.
- Mae'r Fenter bellach yn gweithio yn ardal Llanelli hefyd, ac wedi newid ei henw i Menter Cwm Gwendraeth Elli.
- Mae gwaith y Fenter wedi ehangu, ac mae dros bum cant o ddigwyddiadau cymunedol wedi'u cynnal ers sefydlu'r Fenter.

5. Yn y blwch isod, nodwch y gwasanaethau mae Menter Cwm Gwendraeth Elli yn eu cynnig heddiw.

- Sesiynau iwcaleli
- Sesiynau i ddysgwyr
- Clybiau drama

- Clybiau ar ôl ysgol
- Rhoi cyfle i bobl ddefnyddio’r Gymraeg a magu hyder i ddefnyddio’r iaith

**Siaradwch**

Gofynnwch i bawb drefnu'r gwasanaethau a nodwyd yn y rhestr yn y blwch yn ôl eu blaenoriaethau nhw. Wedi iddyn nhw wneud hyn, gofynnwch i barau gymharu rhestri ei gilydd a thrafod pam maen nhw dewis eu trefn a'r rhesymau dros unrhyw wahaniaethau.

**Yr Urdd**
**Beth ydych chi’n ei wybod am Yr Urdd?**

| Gwybod | Ddim yn siŵr | Eisiau gwybod |
|---|---|---|
| | | |

Hyderir y bydd aelodau dosbarthiadau Uwch 3 yn gwybod rhai pethau am yr Urdd yn barod felly anogwch nhw i rannu eu gwybodaeth. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach a defnyddio’r tabl uchod i wneud hyn. Yna, rhowch gerdyn i bawb (Atodiad 1). Os bydd mwy nag 11 yn y dosbarth, bydd yn rhaid rhannu cardiau neu greu dau grŵp o fewn y dosbarth. Rhaid iddynt ddarllen y cerdyn a bod yn barod i aralleirio’r cynnwys wrth gael eu holi gan aelodau eraill o’r dosbarth. Ni ddisgwylir i’r dysgwyr wneud nodiadau manwl yn y blychau – dim ond ychydig o bwyntiau bwled.

Os ydych yn dysgu dosbarth rhithiol, gellir anfon hanner yr atebion (cwestiynau 1-6) at hanner o aelodau'r dosbarth ymlaen llaw, a'r hanner arall (7-11) at yr hanner arall. Gellir wedyn eu rhannu'n barau neu grwpiau bach i gyfnewid atebion.

**Siaradwch:**

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau ar gyfer y gwaith llafar. Gofynnwch i un person adrodd yn ôl.

## Cam 8 – Atgyfnerthu Geirfa Uned 2

Ceir set o gardiau pelmanism yn Atodiad 2. Dylid rhoi'r cardiau i gyd ben i waered yn eu colofnau – gair + diffiniad. Rhaid i'r parau droi dau gerdyn ar hap y tro cyntaf, ac yna ceisio cofio lle mae'r diffiniadau cywir. Os bydd dysgwr yn creu pâr cywir, mae'n cael cadw'r cardiau. Pan fydd y geiriau i gyd wedi'u paru, dylid edrych ar y diffiniadau a chofio beth yw'r geiriau.

Os ydych yn dysgu mewn dosbarth rhithiol, gellir dangos y diffiniadau ar sleid PowerPoint, gan roi amser i bob unigolyn feddwl am yr ateb.

# Unit 2, Atodiad 1

**Beth yw'r Urdd?**
Mudiad ieuenctid gwirfoddol cenedlaethol yw Urdd Gobaith Cymru. Mae gan yr Urdd dros 55,000 o aelodau rhwng 8 a 25 mlwydd oed. Nod yr Urdd yw rhoi cyfleoedd i blant a phobl ifanc fwynhau profiadau trwy gyfrwng y Gymraeg ac i wneud cyfraniad i'w cymuned. Mae'r Urdd yn cyflogi dros 300 o staff ac yn cefnogi degau o brentisiaid. Bob blwyddyn, mae 10,000 o wirfoddolwyr yn helpu'r Urdd mewn rhyw ffordd.

**Sefydlu'r Urdd**
Sefydlwyd Urdd Gobaith Cymru gan Syr Ifan ab Owen Edwards. Roedd Syr Ifan yn golygu cylchgrawn i blant o'r enw Cymru'r Plant, a ddechreuwyd gan ei dad, O.M. Edwards. Yn y cylchgrawn hwn yn 1922, apeliodd ar blant Cymru i ymuno â mudiad newydd, sef 'Urdd Gobaith Cymru Fach'. Erbyn diwedd y flwyddyn gyntaf roedd enwau 720 o aelodau wedi ymddangos yn Cymru'r Plant. Erbyn 1927 roedd gan yr Urdd dros 5,000 o aelodau, a chafodd ei enw ei newid i 'Urdd Gobaith Cymru'.

**Gwersyll Llangrannog**
Sefydlwyd Gwersyll Llangrannog yn 1932, a hwn oedd gwersyll parhaol cyntaf Urdd Gobaith Cymru. Cafwyd pedair wythnos o wersyll yn 1932, gyda lle i 150 o wersyllwyr.

Aeth y gwersyll o nerth i nerth, ac erbyn y 1970au roedd y Gwersyll ar agor drwy'r flwyddyn ac yn cyflogi staff llawn amser. Dros y blynyddoedd, adeiladwyd caban bwyta a blociau cysgu newydd, ac erbyn heddiw, mae dewis eang o weithgareddau yn y Gwersyll, gan gynnwys sgïo, gwibgartio (*go-karting*), marchogaeth a gwifren wib.

**Gwersyll Glan-llyn**
Sefydlwyd Gwersyll Glan-llyn yn 1950 ar lan Llyn Tegid ger Y Bala. Ar y dechrau roedd y gwersyllwyr yn cyrraedd ar y trên yr ochr arall i'r llyn, a chwch Y Brenin Arthur yn eu cludo draw i'r Gwersyll.
Erbyn hyn mae 13,000 o wersyllwyr yn ymweld â Glan-llyn yn flynyddol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys waliau dringo, cwrs rhaffau, saethyddiaeth, bowlio deg, cerdded afon, datrys problemau a chyfeiriannu. Ond wrth gwrs, y prif atyniad o hyd yw Llyn Tegid, ac mae modd rhoi cynnig ar gaiacio, adeiladu rafft, padl-fyrddio, hwylio a cheufadu (*canoeing*) yng Ngwersyll Glan-llyn.

**Gwersyll Caerdydd**
Cafodd Gwersyll yr Urdd Caerdydd ei sefydlu yn 2004 yn adeilad Canolfan y Mileniwm yng nghanol bwrlwm Bae Caerdydd. Mae tîm y Gwersyll yn cydweithio â rhai o atyniadau mwyaf poblogaidd y Brifddinas i gynnig amserlen amrywiol a deniadol i'r gwersyllwyr, sy'n cynnwys Techniquest, Stadiwm y Principality, Castell Caerdydd, Y Senedd, Canolfan Sglefrio Iâ Caerdydd a Phwll Rhyngwladol Caerdydd.

**Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd**
Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd bob blwyddyn yn ystod wythnos y Sulgwyn. Mae'n denu tua 90,000 o ymwelwyr ar draws chwe diwrnod, ac yn un o wyliau teithiol mwyaf Ewrop. Gŵyl gystadleuol yw'r Eisteddfod, lle mae dros 15,000 o blant a phobl ifanc o dan 25 oed yn cystadlu mewn cystadlaethau fel canu, dawnsio a pherfformio.
Canolbwynt yr Eisteddfod yw'r cystadlu yn y Pafiliwn, ond o gwmpas y Pafiliwn mae cannoedd o stondinau lliwgar. Gallwch chi hefyd ymweld â'r Arddangosfa Gelf sy'n gartref i holl waith cystadlaethau Celf, Dylunio a Thechnoleg yr Eisteddfod.

**Neges Ewyllys Da**
Bob blwyddyn, ar 18 Mai, mae'r Urdd yn darlledu Neges Heddwch ac Ewyllys Da Urdd Gobaith Cymru. Pobl ifanc sy'n creu'r neges er mwyn annog heddwch a chydweithio rhwng gwledydd y byd. Darlledwyd y neges am y tro cyntaf ar y BBC World Service yn 1924 ac erbyn heddiw mae'r neges yn cyrraedd pedwar ban y byd ar y we. Gallwch chi wylio fideo o Neges Ewyllys Da eleni a darllen y neges mewn sawl iaith ar wefan yr Urdd.

**Taith Patagonia**
Ers 2007, mae'r Urdd wedi bod yn rhoi cyfle i bobl ifanc wneud gwaith gwirfoddol ym Mhatagonia. Bob blwyddyn, caiff 24 person ifanc (16-18 oed) eu dewis o bob rhan o Gymru i dreulio tua phythefnos ym Mhatagonia. Mae'n rhaid i'r bobl ifanc gynnal gweithgareddau i godi arian at eu taith.

**Gala Nofio'r Urdd**
Cynhelir Gala Nofio'r Urdd bob blwyddyn, gan ddechrau gyda rowndiau rhanbarthol ar draws Cymru. Mae tua 10,000 o blant yn cymryd rhan yn y rowndiau rhanbarthol, a channoedd yn mynd ymlaen i gystadlu yn y rowndiau terfynol yng Nghaerdydd. Yn 2019, cyflwynwyd cystadlaethau am y tro cyntaf i nofwyr ag anghenion arbennig.

**Chwaraeon**
Mae Adran Chwaraeon yr Urdd yn cynnal clybiau chwaraeon cymunedol a digwyddiadau chwaraeon cenedlaethol i blant a phobl ifanc trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae mwy na 11,000 o blant yn mynychu clybiau chwaraeon yr Urdd yn wythnosol. Mae cystadlaethau chwaraeon yr Urdd yn cynnwys rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd, gymnasteg, traws gwlad a nofio.

**Hwngari**
Mae gan yr Urdd ganolfan newydd yn Hwngari, sef Tŷ Kisbodak Ház. Cafodd yr adeilad ei roi'n anrheg i'r Urdd yn 2013 gan ddyn o'r enw Michael Makin. Roedd e'n awyddus i'r adeilad gael ei ddefnyddio gan grwpiau o bobl ifanc, er mwyn iddyn nhw fwynhau profiadau diddorol yn ei wlad. Mae Tŷ Kisbodak Ház mewn pentref bach o'r enw Kisbodak, yng ngogledd-orllewin Hwngari, ger afon Donaw (*Danube*).

Uned 2, Atodiad 2

| | |
|---|---|
| adroddiad | Mae plant ysgol yn derbyn un gan yr ysgol sy'n sôn am eu perfformiad a'u hymddygiad |
| annibyniaeth | Y rhyddid i wneud eich penderfyniadau eich hunan |
| beirniadu'n hallt | dweud pethau drwg iawn am lyfr neu ffilm |
| cenfigennus | byth yn fodlon ac eisiau beth sy gan bobl eraill |
| cymeradwyo | Mae pobl yn gwneud hyn ar ddiwedd drama neu gyngerdd |
| haid | gwenyn sy'n codi gyda'i gilydd i sefydlu cartref newydd dan arweiniad brenhines |
| hallt | Bydd y math yma o fwyd yn codi syched arnoch chi |

| | |
|---|---|
| llofnodi | ysgrifennu eich enw ar waelod ffurflen |
| sgrech | sŵn uchel a glywir pan fydd ofn ar rywun |
| ysgyfaint | Mae ysmygu’n gwneud drwg i’r rhan yma o’r corff |

# Uned 3

## Cam 1 – Gwaith llafar – pwnc llosg

Y gwasanaeth iechyd yw'r pwnc dan sylw a cheir nifer o gamau i arwain at y brif drafodaeth, sef 'Rydyn ni'n lwcus bod y gwasanaeth iechyd yn gweithio'n dda'.

Storom Eirfa

Disgrifio llun – Gellid gosod her, e.e. Rhaid creu o leiaf 10 brawddeg neu osod amser penodedig a gweld faint o frawddegau y gall parau greu yn ystod yr amser hwnnw. Rhannu'n grwpiau i drafod y pum datganiad.

Cyflwyno'r ymadrodd 'Diwedd y gân yw'r geiniog' a rhannu'r dosbarth yn grwpiau newydd i drafod y pwnc – Rydyn ni'n lwcus bod y Gwasanaeth Iechyd yn gweithio'n dda.

## Cam 2 – Gwybodaeth o iaith – Aralleirio

Gofynnwch i bawb yn unigol ddewis unrhyw 4 o'r brawddegau ac ysgrifennu eu cynnig ar gyfer y 4. Wedi i bawb wneud hynny, gofynnwch iddyn nhw ganfod partner a thrafod yr atebion sydd gan y naill a'r llall a cheisio cytuno ar atebion cywir. Ar ôl 5 munud, gofynnwch iddyn nhw symud ymlaen at bartner newydd i wneud yr un peth. Os bydd bylchau'n parhau, gofynnwch i bawb pa frawddegau sydd ganddynt heb eu taclo a cheisiwch eu gosod mewn parau (neu grwpiau os oes angen) fel bod gan bob un bartner sydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw frawddeg sy'n weddill. Os bydd unrhyw frawddegau nad oes neb wedi eu gwneud, trafodwch nhw gyda'r dosbarth cyfan gan geisio ennyn cynigion gan y dysgwyr cyn mynd dros yr atebion eraill a thrafod y pwyntiau ieithyddol sy'n codi. Dyma'r atebion disgwyliedig:

1. Rhaid i ni (ein dau) gwrdd/gyfarfod â'n gilydd yn fuan.
2. Rhedodd hi i'r tŷ nerth ei thraed.
3. Oni bai iddi fwrw glaw, baswn i wedi mwynhau!
   neu: Oni bai ei bod hi wedi bwrw glaw, baswn i wedi mwynhau! Neu: Oni bai am y glaw, baswn i wedi mwynhau!
4. Dw i'n siŵr ei fod e/o ar y pwyllgor.
5. Wnei di roi cynnig ar hyn?
6. Roedd yr athro'n gwybod na ddylai godi ei lais ar y plant.
7. Aeth e i'r siop cyn iddo fe/fo fynd i'r dafarn
8. Doedd neb yn meddwl bod hyn yn bosibl i'r athletwyr.

**ein/eich/ei gilydd**

Mae'r gwaith hwn wedi codi droeon o'r blaen ond mae angen ei atgyfnerthu yn gyson. Felly, ceir cyfres o ddriliau. Gofynnwch i barau ymarfer y set gyntaf o gwestiynau ac atebion sydd yn y llyfr sawl gwaith nes byddant yn gallu rhoi'r atebion yn slic heb eu gweld. Pan fyddant wedi meistroli'r set gyntaf, gofynnwch iddynt fynd ymlaen at y setiau eraill gan ffurfio'r atebion ac ymarfer yn yr un modd eto. Gwiriwch bod eu hatebion yn gywir wrth iddynt wneud hynny.  Gellir eu drilio fel grŵp/yn unigol ar y diwedd i atgyfnerthu.

**nerth eich traed**

Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer hwn sy'n gofyn am lenwi'r bylchau gyda'r ffurf briodol o **nerth ___ pen/traed.**

**Siarad – rhoi cynnig ar**

Rhoddir cyfle yma i ddefnyddio un o'r idiomau o'r ymarfer uchod yn sail i sgwrs. Meddyliwch ymlaen llaw am atebion y gallwch chi eu rhoi a gwahoddwch y dysgwyr i ofyn y cwestiynau i chi i ddechrau. Ymhelaethwch gydag atebion sy'n fwy nag un frawddeg. Bydd hyn yn modelu'r ffordd y byddech chi'n dymuno iddyn nhw drafod. Wedi i chi wneud hyn, rhowch y dysgwyr mewn grwpiau o 3 a gofyn iddynt ddefnyddio'r cwestiynau i sbarduno trafodaeth.

## Cam 3 – Gwrando a Deall – Gwybodaeth ffeithiol

Rhannwch y dosbarth yn barau i ragweld geiriau allai godi mewn darn am ddamwain trên.  Nodwch nhw ar y bwrdd gwyn er mwyn dychwelyd atynt ar ddiwedd y darn er mwyn gweld faint a gododd yn y darn.  Y tebygrwydd gyda'r darn hwn yw na fydd llawer ohonynt wedi codi yn y darn.

Chwaraewch y darn y tro cyntaf er mwyn i'r dysgwyr sylwi ar iaith Alun Lenny a nodi'r geiriau/ffurfiau mae'n eu defnyddio sy'n profi ei fod yn dod o dde Cymru, e.e. cwarter, fe brofodd hynny, gwbod, lan, ar bwys, taw, gyda. Yn ddiddorol, mae'n defnyddio iaith fwy ffurfiol yn y darn o'r adroddiad a chwaraeir nag yn y cyfweliad stiwdio.

Chwaraewch y darn ddwywaith eto er mwyn i'r dysgwyr ateb y cwestiynau.

1. O ble roedd y trên wedi dechrau ar ei daith, a ble roedd y trên i fod i fynd?
O Abertawe i'r Amwythig.
2. Faint o bobl oedd ar y trên, pan ddigwyddodd y ddamwain?
10
3. Yn Llandysul, beth oedd wedi dangos bod y glaw wedi bod yn drwm?
Roedd y bont o'r golwg dan y dŵr.
4. Beth mae Alun Lenny'n ei gofio am farn y rheithgor yn y cwest?
Doedd y rheithgor ddim yn cytuno â chanlyniadau'r adroddiad swyddogol.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach ar gyfer y gwaith llafar.

## Cam 4 – Darllen a siarad – Trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru

Darllenwch y llythyr a rhannwch y dosbarth yn barau i grynhoi'r prif bwyntiau – pum pwynt. Yna, gofynnwch y cwestiynau isod gan ganiatáu amser i'r dysgwyr grynhoi meddyliau a thrafod yr ateb gyda phartner cyn i un person adrodd yn ôl o flaen y dosbarth:

1. Beth fydd effaith cynlluniau'r Llywodraeth ar sefyllfa'r traffig yn y dyfodol?
Byddan nhw'n arwain at ragor o broblemau yn y dyfodol achos bydd mwy o draffig ar y ffyrdd.
2. Beth ydy effaith y sefyllfa bresennol ar yr amgylchedd?
Bydd ardaloedd gwyrdd yn crebachu a chynefinoedd yn diflannu.
3. Sut byddai modd cael mwy o bobl i ddefnyddio'r rheilffyrdd?
Trwy fuddsoddi yn y rheilffyrdd, gan gynnwys trydaneiddio'r prif leiniau ac adfer ac ail agor sawl hen reilffordd.
4. Pa rôl gallai'r porthladdoedd ei chwarae i wella'r sefyllfa?
Gellid cael fferi rhwng Bryste ac Abertawe neu Abergwaun, a rhwng Lerpwl a Chaergybi. Byddai hynny'n lleihau'r pwysau ar y ffyrdd.
5. Yn ôl y llythyr, pam mae 'ffordd o feddwl' y Llywodraeth yn anghywir?
Maen nhw'n meddwl am gysylltu pobl rhwng y dwyrain a'r gorllewin. Dydyn nhw ddim yn meddwl am gysylltiadau rhwng y de a'r gogledd.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod eu profiadau personol o deithio yng Nghymru ac i feddwl am deitl posibl arall i'r darn.

Dyma atebion posib i'r cwestiwn ieithyddol am ffurfiau lluosog:

| | |
|---|---|
| tagfeydd | swyddfeydd, amgueddfeydd, derbynfeydd, mynedfeydd (sylwer: gyrfaoedd) |
| ceir | |
| ffyrdd | ffyrc, ffyn, cyrff (sylwer: ton > tonnau) |
| ardaloedd | mynyddoedd, dyffrynnoedd, blynyddoedd, cannoedd, miloedd |
| cynefinoedd | |
| porthladdoedd | |
| gyrwyr | myfyrwyr, darlithwyr, cyfarwyddwyr, cynhyrchwyr, cerddwyr |

## Cam 5 – Gwybodaeth o iaith – dewis y ffurf gywir

**Dewis y ffurf gywir**

Ymarferion o gyn-bapurau'r arholiad Defnyddio'r Gymraeg sydd yma. Mae gêm ryngweithiol ar gael ar wefan **Kahoot** ar gyfer yr ymarfer hwn eto – gweler y canllawiau cyffredinol. Mae'r ymarfer hwn ar gael trwy ddilyn y ddolen isod:

https://create.kahoot.it/share/uwch-3-uned-3-dewis-y-ffurf-gywir/be109804-d98e-4da2-9700-392c62b44dd5 neu trwy chwilio am "Uwch 3 Uned 3" ar wefan Kahoot.

**Ymarfer**

**y tro cyntaf, yr ail dro...**

Ewch dros yr enghreifftiau yn y llyfr cwrs. Yna, datblygwch yr ymarfer sydd yn y llyfr yn ddril eto trwy ofyn i barau ffurfio atebion i'r cwestiynau/gosodiadau a'u hymarfer nes byddant yn gallu rhoi'r atebion yn slic heb eu gweld. Gwiriwch bod eu hatebion yn gywir wrth iddynt wneud hynny.

**po**

Trafodwch y defnydd o **po** mewn ymadroddion fel **gorau po fwyaf** a **gorau po gyntaf** (mae'n tarddu o **bo** – ffurf ar y ferf bod os bydd rhywun yn gofyn!). Yna, gofynnwch i barau ffurfio atebion i'r cwestiynau/gosodiadau trwy ddewis o blith yr ansoddeiriau a roddir ar frig yr ymarfer. Sicrhewch eu bod yn treiglo'r ansoddair ar ôl **po** ac ewch dros yr atebion gyda'r dosbarth. Mae modd datblygu'r ymarfer hwn yn ddril hefyd fel y gwnaed gyda'r cwestiynau uchod gyda **tro** a'r trefnolion.

# Cam 6 – Cymraeg ffurfiol

**Mae’r gwaith hwn ar gymalau yn astrus a bydd rhai dysgwyr yn digalonni. Ystyriwch yn ofalus a yw’n adran yr ydych am ei chyflwyno i’ch dosbarth chi. Os byddwch chi, pwysleisiwch ei fod yn waith anodd ac na fydd peidio â’i ddeall yn amharu ar eu gallu i siarad na deall y Gymraeg.**

Yn Uwch 2, cyflwynwyd cymalau’n defnyddio **a**, e.e. y rhaglen a welais i. Penderfynwyd peidio â gorgymhlethu’r sefyllfa ar y pryd trwy gyflwyno y hefyd, e.e. y rhaglen yr edrychais i arni. Felly, yn yr adran hon, cyflwynir cymalau’n defnyddio **y**.

Cyflwynir y rheolau ac yna ceir ymarfer uno brawddegau. Dyma’r atebion:

1. Dyma’r ysgol yr ysgrifennodd yr awdur amdani.
2. Weloch chi’r car y talais i £3,000 amdano?
3. Dyna’r bachgen y byddwn i’n hoffi ei longyfarch.
4. Glywaist ti’r gân y gwrandawais i arni ddoe?
5. Dyna’r dillad y talon nhw amdanynt/amdanyn nhw echdoe.
6. Wyt ti wedi gweld y llyfrau yr edrychon ni arnynt/arnyn nhw neithiwr?
7. Ydych chi wedi gweld y dyn y bydda i’n ei weld yfory?
8. Dyna’r ferch yr enillodd ei phartner y brif wobr.

Yn ogystal, ceir set o gardiau pelmanism (Atodiad 1) lle mae'n rhaid creu brawddegau cywir trwy ddewis y cymal cywir. Dyma'r atebion:

Dylet ti ddarllen y llyfr | a | brynais i yn y farchnad ddoe.
Dw i am weld y dramâu | y | darllenais i adolygiad amdanyn nhw yn y papur.
Dw i'n nabod yr athro | a | fydd yn gyfrifol am y dosbarth dros dro.
Dw i wedi cwrdd â'r bobl | y | mae eu mab wedi cael enwebiad Oscar.
Mae'r car ail-law | a | brynodd e mewn cyflwr da.
Mae'r toriadau | y | bydd e'n eu gwneud yn arwain at ddamwain.
Dyma'r cais | a | gafodd ei gymeradwyo gan y pwyllgor.
Dyma'r llyfr | y | bydd y wasg yn ei gyhoeddi.
Dw i eisiau gweld y llythyr | a | gywirodd y pennaeth.
Dw i ddim yn gallu cael hyd i'r ddeiseb | y | rhoddais i fy llofnod arni ddoe.

# Cam 7 - Cefndir – Cerddoriaeth Gyfoes Gymraeg

Rhan o'r rhaglen Sain yn 50 (*BBC Cymru*) yw fideo'r dasg hon. Fe'i darlledwyd yn 2019 i nodi hanner can mlwyddiant Recordiau Sain.

Mae'n bosib y bydd rhai o gyfranwyr yr eitem yn gyfarwydd i'r dysgwyr e.e. Caryl Parry Jones a Syr Bryn Terfel. Felly, mae digon o ddeunydd trafod yma a dylid caniatáu digon o amser ar gyfer y dasg.

Wrth wylio'r fideo am y tro cyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr roi cylch o gwmpas y geiriau a'r ymadroddion isod pan fyddant yn eu clywed:

**ffyddloniaid** **cymryd yr awenau** **crynhoi**
**gwaddol** **ymfalchïo**

Efallai na fyddant yn gwybod ystyr y geiriau i gyd, ond gofynnwch iddynt eu trafod gyda phartner neu mewn grwpiau i geisio dyfalu eu hystyr. Gellid treulio ychydig o amser yn trafod 'cymryd yr awenau'. A all y dysgwyr roi enghraifft o adeg y bu'n rhaid iddynt 'gymryd yr awenau'?

**2.** Ar ddechrau'r fideo, pam mae Stiwdio Sain yn agored i'r cyhoedd?
Mae Stiwdio Sain yn agored i'r cyhoedd oherwydd bod pen-blwydd Recordiau Sain yn hanner cant. Maen nhw eisiau rhoi cyfle i'r 'ffyddloniaid' weld yr archif yn y stiwdio.

**3.** Nodwch o leiaf ddau beth sydd yn yr archif.
Dylai'r dysgwyr nodi o leiaf ddau o'r pethau hyn: cerddoriaeth, lluniau, llythyron.

**4.** Mae Dyl Mei (y trydydd siaradwr) yn sôn am 'gynhyrchwyr preswyl.' Edrychwch ar y geiriau a'r ymadroddion Saesneg isod, sy'n gysylltiedig â'r gair preswyl. Beth ydyn nhw'n Gymraeg?

*residents* **preswylwyr** *to reside* **preswylio**
*resident artist* **artist preswyl** *residential centre* **canolfan breswyl**

**5.** Gwrandewch yn ofalus ar Hywel Gwynfryn (y pedwerydd siaradwr) yn siarad am y gân Yma o Hyd, a llenwch y bylchau.

Dyma'r atebion:

Mae'n gân anthemig on'd ydy. Mae'n gwneud i chi deimlo eich bod chi'n falch eich bod chi'n Gymro ac mae'n eich cyffwrdd chi... ac mae'n deud y cyfan. Mi ydan ni fel cenedl yma o hyd. Dim ond gobeithio y bydd Sain yn medru deud ymhen hanner can mlynedd arall, "Dan ni yma o hyd."

**6.** Mae rhai o'r cyfranwyr yn defnyddio ffurfiau llafar, anffurfiol o eiriau Cymraeg. Ysgrifennwch y geiriau sydd wedi'u tanlinellu mewn Cymraeg safonol.

"<u>Tmbo</u>, maen nhw 'di gorfod newid, maen nhw '<u>di</u> gorfod addasu."
<u>Ti'n gwybod/Rwyt ti'n gwybod</u> <u>wedi</u>
"<u>Snam dowt</u> am hynna." <u>Does dim / nid oes amheuaeth.</u>

"Mae'n siŵr bod gan bawb record Sain yn cuddio <u>rwla</u> yn eu cartrefi." <u>rhywle</u>

"Dw i'n meddwl bod Sain 'di sylweddoli bod gynnon ni <u>rwbath</u> fel Cymry..." <u>rhywbeth</u>

Ar ôl rhoi cyfle i'r dysgwyr geisio ateb y cwestiynau, trafodwch yr atebion a gofynnwch am enghreifftiau eraill o gywasgiadau neu eiriau anffurfiol a glywir yn aml, e.e. sdim, sneb, wsti ac ati.

**Siaradwch**

Gellid dilyn sawl trywydd ar ôl gwylio'r fideo hwn ac mae croeso i chi ganolbwyntio ar yr hyn sydd o ddiddordeb i'ch dosbarth, ond rhestrir rhai cwestiynau posib yn y llyfr.

**Fideo 2**

*Anorac* (2019) Ffilm gan Huw Stephens a Gruffydd Davies. Diolch i Boom Cymru am eu caniatâd caredig i ddefnyddio clipiau o'r ffilm. Mae goleuadau'n fflachio mewn rhai o'r clipiau.

**Clipiau Fideo *Anorac***

Mae pedwar clip fideo ar gael, ac mae croeso i chi ddewis y fideo a fyddai'n apelio fwyaf at eich dosbarth chi. Mae tasg y cwrslyfr yn agored, sef:
Gofynnwch i'r dysgwyr wneud nodiadau yn y blwch wrth iddynt wylio'r fideo. Yna, gofynnwch iddynt weithio gyda phartner i baratoi pum cwestiwn am y fideo i'w gofyn i aelodau eraill dosbarth.

Nid oes cwestiynau am un fideo yn benodol, felly os yw'r pwnc yn apelio at eich dosbarth, gallech wylio a thrafod y pedwar clip.

**Fideo 1**: Meic Stevens yn darllen o ail ran ei hunangofiant (*Y Crwydryn a Mi*), gyda golygfeydd o Solfach.
Cwestiynau trafod posib:

- Ydych chi wedi clywed am Meic Stevens?
- Mae Meic Stevens yn enwog am ei ymddygiad gwyllt, 'roc a rôl'. Allwch chi feddwl am unrhyw berfformwyr eraill (Cymraeg neu Saesneg) sy'n enwog

am ymddwyn yn wyllt?

- Pam rydyn ni'n hoffi perfformwyr sy'n ymddwyn yn wyllt?

Os oes gan y dosbarth ddiddordeb mawr yn Meic Stevens, gellid eu cyfeirio at ei hunangofiannau. Dyma'r linc i'r wybodaeth ar Gwales - http://www.gwales.com/bibliographic/?isbn=9781847717283&tsid=3.

**Fideo 2**: Maes B. Clip sy'n trafod gigs Maes B yn yr Eisteddfod Genedlaethol.
Cerddoriaeth Y Candelas sydd yn y cefndir, ac fe geir cyfweliad ag Osian Williams, canwr Y Candelas, ar ddiwedd y clip. Mae'r fideo yn dangos poblogrwydd y band ymysg pobl ifanc, ac fe allai hynny fod yn agoriad llygad i rai dysgwyr.
Cwestiynau trafod posib:

- Ydych chi wedi clywed am y Candelas?
- Beth yw eich barn chi am y gerddoriaeth yn y clip?
- Ydych chi wedi bod i ŵyl gerddoriaeth, fel Maes B?
- Mae Osian Williams yn gobeithio y gall y Candelas ysbrydoli pobl ifanc i ddechrau band. Pwy oedd yn eich ysbrydoli chi pan oeddech chi'n iau?

**Fideo 3:** Kizzy Crawford.
Sgwrs a chân gyda'r gantores o Ferthyr Tudful yw'r clip hwn. Cwestiynau trafod posib:

- Ydych chi wedi clywed am Kizzy Crawford?
- Beth yw eich barn chi am y gerddoriaeth yn y clip?
- Mae Kizzy Crawford yn dweud ei bod yn teimlo'n wahanol i bobl eraill wrth dyfu i fyny, ond bod y Gymraeg wedi'i helpu: "yr unig ffordd wnes i ffeindio i ffitio mewn oedd yr iaith Gymraeg." Ym mha ffordd mae'r Gymraeg wedi eich helpu chi?

**Fideo 4:** Mr Phormula (Ed Holden).
Bîtbocsiwr a rapiwr o Amlwch yw Mr Phormula.
Cwestiynau trafod posib:

- Ydych chi wedi clywed am Mr Phormula?
- Oeddech chi'n gwybod bod pobl yn rapio yn Gymraeg?
- Beth yw eich barn chi am y gerddoriaeth yn y fideo?
- Pan oedd Ed Holden yn ifanc, doedd ganddo ddim diddordeb yn y Gymraeg achos bod ei hoff berfformwyr i gyd yn perfformio yn Saesneg, ond ar ôl clywed cerddoriaeth Gymraeg ei ffrind coleg, Aron Elias, newidiodd ei feddwl. Erbyn hyn, mae'n perfformio yn Gymraeg ac yn annog pobl ifanc i ddefnyddio eu Cymraeg. Beth wnaeth eich denu chi at yr iaith Gymraeg? Beth wnaeth eich ysbrydoli i ddysgu Cymraeg?
- Mae Ed Holden yn edrych yn ôl ar ei ieuenctid ac yn dweud ei fod yn 'wirion'. Fyddech chi'n hoffi newid unrhyw beth wnaethoch chi pan oeddech chi'n

ifanc?

**Sut mae'r dosbarth yn gwrando ar gerddoriaeth?**

Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r grid trwy grwydro'r dosbarth a holi 4 aelod arall am eu harferion gwrando ar gerddoriaeth. Gellir nodi'r atebion gyda thiciau, neu ddefnyddio geiriau os oes angen ymhelaethu,e.e. Mae Ceri'n gwrano ar gerddoriaeth ar y radio yn y car, ond yn gwrando ar CDs gartref.

Gofynnwch am adroddiad yn ôl ar arferion gwrando pob aelod yn ei dro e.e. Pwy siaradodd â Jac? Sut mae Jac yn gwrando ar gerddoriaeth? Wrth iddynt adrodd yn ôl, gallwch roi'r tabl ar y bwrdd gwyn a chofnodi cyfrif o faint o aelodau'r dosbarth sy'n gwrando ym mhob un o'r ffyrdd a enwir. Gallai hyn arwain at ymarfer yn defnyddio ..ohonon ni e.e. Faint ohonon ni sy'n gwrando ar gerddoriaeth trwy ffrydio neu lawrlwytho?

| Enw | Ar y radio | Ffrydio / lawrlwytho | CD/Feinyl | Yn fyw | Ddim yn gwrando ar gerddoriaeth |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

**Siaradwch**

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach ar gyfer y gwaith llafar.

## Cam 8 – Atgyfnerthu Geirfa Uned 3

Yn Atodiad 2, ceir dau gerdyn ac arnynt bump o eiriau'r uned. Rhaid i'r parau ddiffinio'r geiriau hyn i'w gilydd.

**Uned 3, Atodiad 1**

| | | |
|---|---|---|
| Dylet ti ddarllen y llyfr | a | brynais i yn y farchnad ddoe |
| Dw i am weld y dramâu | y | darllenais i adolygiad amdanyn nhw yn y papur |
| Dw i'n nabod yr athro | a | fydd yn gyfrifol am y dosbarth dros dro |
| Dw i wedi cwrdd â'r bobl | y | mae eu mab wedi cael enwebiad Oscar |
| Mae'r car ail-law | a | brynodd e mewn cyflwr da |
| Mae'r toriadau | y | bydd e'n eu gwneud yn arwain at ddamwain |
| Dyma'r cais | a | gafodd ei gymeradwyo gan y pwyllgor |
| Dyma'r llyfr | y | bydd y wasg yn ei gyhoeddi |
| Dw i eisau gweld y llythyr | a | gywirodd y pennaeth |
| Dw i ddim yn gallu cael hyd i'r ddeiseb | y | rhoddais fy llofnod arni hi ddoe |

**Uned 3, Atodiad 2**

| |
|---|
| erwau<br>rheithgor<br>dadbacio<br>fforddiadwy<br>arddodiaid |
| llafariaid<br>nwyddau<br>gwawrio<br>cynaliadwy<br>cyllideb |

# Uned 4
# Cam 1 – Gwaith llafar – Siarad personol

Penblwyddi cofiadwy yw'r pwnc dan sylw ac yn benodol 'Disgrifiwch y pen-blwydd mwyaf cofiadwy a gawsoch chi erioed'. Ceir nifer o gamau i arwain at y drafodaeth hon.

Gwrando a Deall – Gethin Jones. Gall fod yn anodd meddwl am benblwyddi cofiadwy a phobl dan bwysau i feddwl am bethau 'mawr'. Felly, hyderir y bydd gwrando ar Gethin Jones yn adrodd anffawd ar ei ben-blwydd yn procio'r cof.

Cyfres o ddatganiadau i'w trafod mewn grwpiau bach.

Parau i drafod y parti pen-blwydd diwethaf y buont ynddo.

Parau newydd i drafod eu penblwyddi mwyaf cofiadwy, gan gyfeirio at bob un o'r sbardunau. Gellid newid y parau nifer o weithiau. Gwrandewch am rai atgofion difyr gan ofyn i'r unigolion hynny adrodd eu straeon gerbron y dosbarth.

# Cam 2 – Gwybodaeth o iaith – Llenwi bylchau

**Llenwi bylchau**

Gweler yr awgrymiadau ynglŷn â chyflwyno'r ymarferion llenwi bylchau yn y canllawiau cyffredinol ar ddechrau'r Canllawiau. Dylid egluro bod y brawddegau hyn i gyd wedi'u codi o gyn-bapurau arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch.

Dyma'r atebion:

1. ewch
2. gwlad
3. gymryd
4. ddigwyddiad/stori/hanes
5. ganrif
6. gladdu
7. prif
8. mai/taw
9. rhag
10. hunain
11. gilydd
12. iach
13. fwydo
14. ieithoedd
15. diolch
16. ddydd/Ŵyl

### Ymarfer – bod neu mai/taw

Ewch dros yr esboniad ynglŷn â'r defnydd o **bod** neu **mai/taw** trwy gyfeirio at y ddau gymal enghreifftiol a roddir yn y llyfr cwrs. Gall helpu os gwnewch chi dynnu sylw at y ffaith bod berf yn y cymal "dim ond un **oedd** gan y syrcas yn wreiddiol", ac felly bod modd i'r cymal sefyll yn frawddeg annibynnol fel y mae. Ar y llaw arall, does dim berf yn y cymal "un yn y syrcas yn wreiddiol", felly byddai rhaid ychwanegu berf cyn y gallai'r cymal sefyll yn annibynnol – "**Roedd** un yn y syrcas yn wreiddiol" fyddai'r frawddeg yn yr achos hwn. Bydd **bod** yn cymryd lle **roedd** (neu unrhyw ffurf arall ar y ferf bod) pan fydd brawddeg o'r fath yn troi'n gymal enwol.

Gofynnwch i barau fynd trwy'r ymarfer llenwi bylchau sy'n gofyn iddynt ddewis rhwng **bod** a **mai/taw** ar gyfer pob bwlch. Daw'r enghreifftiau i gyd o bapurau arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch. Nodwch fod angen penderfynu a ddylid treiglo ai peidio hefyd pan fydd **bod** yn mynd yn y bwlch. Wedi rhoi cyfle i'r parau fynd trwy'r ymarfer, ewch dros bob un, gan gynnal 'pleidlais' rhwng **bod** a **mai/taw**. Gellir gwneud hyn trwy ddosbarthu cardiau o ddau liw gwahanol a gofyn iddynt ddangos un lliw ar gyfer **bod** neu'r lliw arall ar gyfer **mai/taw**, neu hyd yn oed gynnal 'pleidlais gudd' trwy ofyn i bawb nodi eu dewis ar ddarn o bapur, plygu'r papur a'i osod mewn bocs neu fag. Gellid gosod pôl yn y dosbarth rhithiol. Os nad oes unfrydedd (neu os bydd pob pleidlais dros yr ateb anghywir!), trafodwch ac esboniwch yr ateb. Dyma'r atebion cywir:

i. Ond mae prifathro'r Berwyn yn mynnu <u>**bod**</u> yr ardal gyfan yn erbyn y cynllun.
ii. Rydym yn gwybod <u>**bod**</u> llawer o waith eto i'w wneud.
iii. Rhaid cofio <u>**bod**</u> newyddiadurwyr eraill yn cystadlu.
iv. Gan <u>**mai/taw**</u> yn Twickenham mae'r gêm.
v. Es i â'r ci am dro am <u>**fod**</u> ei gŵr yn sâl yn y gwely.
vi. Roedd yn gwybod <u>**mai/taw**</u> fo oedd biau'r unig ddyn eira yn y dref.
vii. Y peth rhyfedd yw <u>**mai/taw**</u>'r un bobl sy'n dod yn ôl flwyddyn ar ôl blwyddyn.
viii. Ond mae pobl yn synnu <u>**mai/taw**</u> Cymraes yw hi.
ix. Gan <u>**fod**</u> yr Americanwyr yn cadw draw.
x. Dw i'n siŵr <u>**mai/taw**</u> ti fydd yr olaf i orffen y ras.
xi. Bydd gwylwyr Uned 5 yn gwybod <u>**bod**</u> Gethin yn gallu gwneud unrhyw beth.
xii. Mae un o sêr enwocaf diwydiant ffilm Bollywood yn dweud <u>**mai/taw**</u> yng Nghymru mae paradwys ar y ddaear.

### ai > ei

Mae **ieithoedd** yn un o atebion yr ymarfer llenwi bylchau. Tynnwch sylw at y ffaith bod y ddeusain **ai** yn **iaith** wedi troi yn **ei** wrth ychwanegu sillaf. Gallwch gyfeirio at enghreifftiau eraill megis **ieithydd** a **dwyieithog**. Yna, gofynnwch i barau o ddysgwyr fynd ati i ffurfio cymaint o eiriau ag y gallant trwy ychwanegu sillaf(au) at **gwaith**, **taith** a **ffaith**. Er mwyn gwneud y dasg yn fwy hwyliog, gallwch roi terfyn amser (e.e. munud) a'i gwneud yn dasg gystadleuol – y pâr â'r nifer fwyaf o eiriau cywir o fewn yr amser fydd yn ennill. Dyma rai posibiliadau:

**gwaith** > gweithio, gweithiais, gweithiaist a.y.y.b., gweithred, gweithgar, gweithgor, gweithdy, gweithiwr, gweithwyr, gweithwraig, gweithle, gweithiau, gweithgaredd

**taith** > teithio, teithiau, teithiwr, teithwyr, teithwraig, teithiais, teithiaist a.y.y.b., teithiol

**ffaith** > ffeithiol, ffeithiau, effeithiol, effeithlon

Wedi gwneud yr ymarfer hwn, gellid hefyd gyfeirio at ddeuseiniaid eraill sy'n newid wrth ychwanegu sillaf:

**aw** > o, e.e. brawd > brodyr; cylchgrawn > cylchgronau; clawdd > cloddiau

**au** > eu, e.e. dechrau > dechreuais i; maddau > maddeuwch; mwynhau > mwynheuais

## Cam 3 – Gwrando a Deall – Profiad personol

Chwaraewch y darn ddwywaith er mwyn i'r dysgwyr ateb y cwestiynau.

**1.** Beth sy'n gallu achosi i acen Helen newid y dyddiau hyn?
<u>Cwrdd â rhywun o'r gogledd.</u>
**2.** Beth oedd cysylltiad cynta tad Helen â Sir Feirionnydd?
<u>Roedd e'n dod i'r ardal ar wyliau yn blentyn.</u>
**3.** Beth yw cysylltiad Helen â phentre Hermon erbyn hyn?
<u>Mae ei chefnder yn byw yng nghartref y teulu ac mae hi'n cael mynd yno ar wyliau.</u>
**4.** Sut roedd tad Helen yn mynd i'r gwaith, pan oedd y teulu'n byw yn yr ardal?
<u>Doedd ganddyn nhw ddim car, felly roedd yn cerdded i Bont-ddu i ddal y bws.</u>
**5.** Beth sy'n awgrymu bod mam Helen ddim yn awdur llwyddiannus?
<u>Chafodd dim o'i gwaith ei gyhoeddi.</u>

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach ar gyfer y gwaith llafar.
Rhannwch y dosbarth yn barau i ymarfer yr idiom **â'i bryd ar**.

## Cam 4 – Siarad – Pwnc llosg – Yr Iaith Gymraeg

'Mae creu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 yn darged realistig' yw'r pwnc ond ceir nifer o gamau cyn ei drafod.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i restru ffactorau o blaid ac yn erbyn twf y Gymraeg. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Rhannwch y dosbarth yn barau i ateb y cwestiynau ffeithiol. Dyma'r atebion:

i. Faint o bobl sy'n siarad Cymraeg yn ôl Cyfrifiad 2011?

a) Tua 400,000 b) tua 600,000 c) tua 800,000

562,000

ii. Ym mha dref mae'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg?

| a) Llanelli | b) Pwllheli | c) Y Barri | ch) Y Rhyl |
|---|---|---|---|
| 5,732 | 3,092 | 5,459 | 3,345 |

iii. Pwy gyfieithodd y Beibl i'r Gymraeg?

a) O.M. Edwards b) Saunders Lewis c) William Morgan

William Morgan yn 1588. Gellid oedi yma i drafod pwysigrwydd ac arwyddocâd y tri ohonynt yng nghyd-destun y Gymraeg.

iv. Gwir neu Gau:

Roedd canran y siaradwyr Cymraeg yn uwch yn 2011 na 2001. (Anghywir – 21% yn 2001 a 19% yn 2011)

Mae lefel sgiliau pobl ddwyieithog yr un fath yn y ddwy iaith.

(Anghywir - Mae sefyllfaoedd yn codi lle bo un iaith yn gryfach na'r llall, e.e. hwiangerddi, pynciau academaidd)

Mae bod yn ddwyieithog yn gallu helpu'ch sgiliau deallusol.

(Cywir - Mae amlieithrwydd yn debyg o hybu'r gallu i ddatrys problemau, creadigrwydd a hyblygrwydd meddwl.)

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y nod o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050.

# Cam 5 – Gwybodaeth o iaith

**Aralleirio**

Ymarfer aralleirio arall o un o gyn-bapurau'r arholiad Defnyddio'r Gymraeg – Uwch a geir yma.

Gofynnwch i barau fynd trwy'r brawddegau gan roi cynnig arnynt. Os bydd rhai o'r brawddegau'n achosi penbleth, cyfunwch barau i greu grwpiau o bedwar i gymharu atebion a thrafod ymhellach (neu gallwch newid partneriaid). Wedi i bawb gael cyfle i drafod y cyfan, ewch dros yr atebion a thrafod y pwyntiau ieithyddol sy'n codi. Dyma'r atebion disgwyliedig:

1. Mae'r cyfarfod ar ben.
2. Siân yw'r orau am goginio.
3. Dyna'r tro cynta i mi glywed y stori.
4. Paid â dweud wrth neb arall.
5. Roedd hi'n wên o glust i glust.
6. Roeddwn i ar goll.
7. Mae'r trefniadau'n draed moch.
8. Rwyt ti'n edrych mor ifanc ag erioed.

**Ymarfer - Y tro cynta**

Cyfeiriwch at y frawddeg enghreifftiol a roddir yn y llyfr cwrs – '1985 oedd y tro cynta i mi brynu car' ac ychwanegwch enghreifftiau pellach o'ch profiadau chi o blith y rhestr sydd yn y llyfr. Gofynnwch wedyn i barau drafod ym mha flwyddyn y gwnaethon nhw'r pethau sydd yn y rhestr ac ar ôl iddyn nhw drafod, dewch â'r dosbarth cyfan ynghyd ar gyfer sesiwn adrodd yn ôl yn y trydydd person – 'y tro cynta i X / iddi hi/iddo fe____'. Gellir troi hyn yn ymarfer llafar mwy estynedig trwy ofyn i bobl ymhelaethu.

**Mor ifanc ag erioed**

Cyfeiriwch at y gosodiad ac ymateb enghreifftiol a roddir yn y llyfr cwrs:

Dydyn nhw ddim yn edrych yn hen. Nac ydyn, maen nhw mor ifanc ag erioed.

Yna, datblygwch yr ymarfer sydd yn y llyfr yn ddril eto trwy ofyn i barau ffurfio atebion i'r gosodiadau a'u hymarfer nes byddant yn gallu rhoi'r atebion yn slic heb eu gweld. Gwiriwch fod eu hymatebion yn gywir wrth iddynt wneud hynny. Gellir cynnal dril dosbarth cyfan i orffen.

**Siaradwch – idiomau**

Esboniwch ddau ystyr i'r idiom **ar ben** ac yna cyflwynwch y cwestiynau 'Siaradwch' (gan egluro'r idiomau **yn wên o glust i glust** a **traed moch** hefyd os oes angen). Yna,

gosodwch y dysgwyr mewn grwpiau o dri a gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau. Ewch o gwmpas yn gwrando ac yn ymuno yn y sgwrsio yn ôl yr angen. Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofyn i rywun o bob grŵp rannu'r pethau mwyaf diddorol y buon nhw'n eu trafod.

## Cam 6 – Cymraeg ffurfiol - Yr Amser Gorffennol

Yn y cwrslyfr, ceir tabl sy'n cynnwys ffurfiau llafar a llenyddol y berfenwau Mynd, Cael a Bod.

Trafodwch y tabl gyda'r dysgwyr. Pa mor gyfarwydd ydynt â rhai o'r ffurfiau llenyddol? Esboniwch fod **gwneud** a **dod** yn dilyn yr un patrwm â **mynd**, a bod **cyfarfod** a **darganfod** yr un peth â **bod**.

Esboniwch hefyd fod y ffurfiau isod yn gyffredin mewn nofelau Cymraeg, ac y dylid eu dysgu:

| | |
|---|---|
| **Rhoddodd e/hi** | **Rhoes** |
| **Trodd/Troiodd e/hi** | **Troes** |

Ar ôl sicrhau fod pawb yn deall y ffurfiau, gofynnwch iddynt ailysgrifennu'r brawddegau isod mewn iaith lafar.

**Sut basech chi'n dweud y canlynol ar lafar?**

| | |
|---|---|
| Cefais eich llythyr. | Ces i / Mi ges i eich llythyr chi. |
| Pam aethost? | Pam est ti? |
| Gwnaethost yn dda. | Mi wnest ti / Gwnest ti'n dda. |
| A gefaist ddigon? | Gest ti ddigon? |
| Bu farw John yn sydyn. | Buodd  / Mi fuodd John farw'n sydyn. |
| Bûm yn ei thŷ neithiwr. | Bues i / Mi fues i yn ei thŷ hi neithiwr. |
| Rhoes y cyfan i mi. | Rhoddodd / Rhoiodd e / o / hi y cyfan i mi. |
| Cawsant amser da. | Cawson nhw / Mi gaethon nhw amser da. |
| Troes yn sydyn pan glywodd y sŵn | Trodd / Troiodd e / o / hi yn sydyn pan glywodd y sŵn. |
| Deuthum yn y car. | Des i / Mi ddes i / Mi ddois i yn y car. |

## Cam 7 – Cefndir - Trychineb Aber-fan

Ystyriwch senstitifrwydd y pwnc hwn o fewn eich dosbarth chi. Gellir hepgor yr adran os teimlwch y byddai'n peri tramgwydd.

**Fideo 1**: Atgofion o drychineb Aber-fan
Mae'r Athro E. Wyn James yn sôn am ei atgofion o ddiwrnod y drychineb a ddigwyddodd dros 50 mlynedd yn ôl.

1. Llenwch y bylchau canlynol wrth wrando:
    - '..ar y bore yna, <u>toc</u> wedi naw o'r gloch'
    - '..roedd yna <u>gais</u> i'r bechgyn yn y Pumed a'r Chweched Dosbarth...'
    - '...i fynd i'r ysgol i <u>gynorthwyo</u> ar frys...'

2. Sut mae'r rhifau canlynol yn cael eu dweud? At beth maen nhw'n cyfeirio?

| | | |
|---|---|---|
| 16: un ar bymtheg oed | - | oed y siaradwr yn 1966 |
| 3: tair milltir | - | y pellter rhwng yr ysgol uwchradd ac Aberfan |
| 50: hanner can mlynedd (a mwy) | - | yr amser sydd wedi mynd heibio ers i'r drychineb ddigwydd |

3. Meddyliwch am y gair 'diarwybod'. (di + ar + gwybod) yn y frawddeg '..dros amser wedyn, yn ddiarwybod, roedd y dŵr wedi bod yn cronni...' Allwch chi feddwl am chwe gair arall sy'n dechrau â 'di-. Nodwch nhw isod.

e.e. digywilydd, di-asgwrn-cefn, di-ben-draw, diraddio, digartref, di-dâl, di-waith, diweithdra, di-baid

Beth sydd weithiau yn digwydd gyda'r ail sillaf yn y geiriau hyn?

Ceir treiglad meddal

4. Mae'r ymadrodd 'bob hyn a hyn' yn y darn. Beth yw ystyr yr ymadrodd? Ydych chi'n gallu meddwl am ffordd arall o ddweud yr un peth?

    'O bryd i'w gilydd' 'nawr ac yn y man' 'weithiau' 'o dro i dro'

5. Mae Wyn James yn defnyddio'r ferf 'disgyn'? Meddyliwch am ddwy ferf allech chi eu defnyddio yn lle disgyn?

    cwympo, syrthio

6. I orffen yr adran hon, gofynnir am ddwy frawddeg yn defnyddio **llethol**.

**Gwylio a gwrando 2: Edrych yn ôl ar drychineb Aber-fan**

1. Beth oedd ymateb pobl i'r drychineb dros gyfnodau gwahanol?
- Doedd 'fawr ddim siarad am y drychineb' yn ystod y cyfnod yn dilyn hynny. Dwedir bod 'yr emosiynau, fel petai, wedi eu rhewi', ond adeg cofio 50 mlynedd roedd rhai yn fwy parod i siarad yn fwy agored.
- Y siaradwr yn dweud ei fod yn gallu ymateb yn fwy emosiynol, fel tad a thad-cu, wrth feddwl yn ôl am y digwyddiad.
- 'Mwy a mwy o ddicter'

2. Pam roedd pobl yn ddig?
- Y brifathrawes ac eraill wedi rhybuddio'r awdurdodau fod rhywbeth o'i le.
- Y teimlad bod cymuned lofaol yng Nghymoedd De Cymru yn cael ei thrin yn israddol: 'Pe bai'r ysgol yna wedi bod yn Harrow neu'n Eton fydden nhw ddim wedi codi rhywbeth fel 'na uwch eu pennau nhw'.
- Ar ôl hynny, y Llywodraeth yn cymryd arian o gronfa i gynorthwyo'r teuluoedd er mwyn symud y tipiau.

**Gwaith llafar** – Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach ar gyfer y gwaith llafar.

**Gwylio a gwrando 3 – Cerdd 'Aber-fan' gan T. Llew Jones**

1. Pam penderfynodd Wyn a Christine James gasglu a golygu cerddi am Aber-fan?
- Am fod y ddau yn dod o gymoedd diwydiannol y de
- Am eu bod yn dysgu modiwlau ar lenyddiaeth ardaloedd diwydiannol ym Mhrifysgolion Abertawe a Chaerdydd
- Am greu cofnod o ymateb cenedl dros amser i'r drychineb

2. Rydych wedi clywed yr ymadroddion 'dan yr wyneb' ac 'ar yr wyneb' yn y cyfweliadau hyn. Pa ymadroddion eraill allwch chi feddwl amdanyn nhw sy'n cynnwys y gair 'wyneb'?

e.e. wyneb-yn-wyneb     wyneb i waered     "mae ganddo wyneb"

3. Mae'r clip fideo yn cynnwys sawl berf amhersonol. Sut fyddech chi'n troi'r brawddegau canlynol i'r goddefol?

'Fe ddarlledwyd y gerdd wedyn ar raglen 'Heddiw' y nos Lun ganlynol.' > 'Cafodd y gerdd ei darlledu wedyn raglen 'Heddiw' y nos Lun ganlynol'.

'Dw i'n credu taw dyma un o'r cerddi gorau a luniwyd..' > 'Dw i'n credu taw dyma un o'r cerddi gorau gafodd ei llunio'

Ydych chi'n cofio'r terfyniadau i'w defnyddio gyda berfau amhersonol? Llenwch y bylchau yn y tabl isod.

| berfenw | gorffennol | amherffaith | presennol / dyfodol |
|---|---|---|---|
| | - wyd | - id | - ir |
| darlledu | darlledwyd | darlledid | darlledir |
| llunio | lluniwyd | llunnid | llunnir |
| cymryd | cymerwyd | cymerid | cymerir |
| hudo | hudwyd | hudid | hudir |

4. Athro a phrifathro oedd T. Llew Jones 'wrth ei alwedigaeth'. Pa ymadroddion eraill sy'n cynnwys y gair 'wrth'?
e.e. wrth ei fodd, wrth gefn, wrth wraidd, bod wrthi

5. Yn y fideos rydym yn clywed y berfau 'ymdawelu' ac 'ymuniaethu'. Allwch chi feddwl am ferfau eraill sy'n dechrau ag 'ym-'?
e.e. ymuno, ymatal, ymwneud, ymolchi, ymddeol, ymweld, ymddiheuro, ymfalchïo

6. Gair arall y gellid ei ddefnyddio yn lle 'segur' fyddai 'llonydd'. Meddyliwch am eiriau eraill yn lle'r geiriau canlynol:

| mantell | brith / braith | prudd |
|---|---|---|
| clogyn | amryliw | trist |

7. Tanlinellwch yr ansoddeiriau yn y gerdd. Oes un neu ddau yn sefyll allan?
Efallai y bydd rhai yn cyfeirio at yr ansoddair 'llawen' sy'n gwrthgyferbynnu ag ansoddeiriau eraill megis 'prudd' neu 'creulon'.

8. Rhowch ddau rheswm pam mae'n eironig mai/taw T. Llew Jones a luniodd un o'r cerddi mwyaf cofiadwy i drychineb Aber-fan?
Mae'n eironig oherwydd taw athro / prifathro oedd T. Llew Jones yn ôl ei alwedigaeth ac am ei fod yn cael ei gofio fel awdur llyfrau i blant a 'Brenin Llenyddiaeth Plant Cymru'.

**Siaradwch** – Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach ar gyfer y gwaith llafar.

# Cam 8 – Atgyfnerthu Geirfa Uned 4

Ceir cyfres o fylchau i barau eu llenwi yn y llyfr. Dyma'r atebion:

1. Mae **canran** uchel o'r dosbarth yn absennol heddiw.
2. Peidiwch â **chyffwrdd** â'r wal – mae'r paent yn wlyb.
3. Tref farchnad fawr yn Lloegr, yn agos at ffin Cymru, yw **Amwythig**.
4. Roedd tîm Llanaber **yn drech na** thîm Aberheli ddydd Sadwrn diwethaf. Enillon nhw o dri deg o bwyntiau.
5. Roedd yn rhaid cau'r busnes am nad oedd e'n **broffidiol**.
6. Ymddeolodd John Jones ar ôl **gyrfa** hir a llwyddiannus yn y gwasanaeth sifil.
7. Mae gweld cymaint o bobl ddigartref yn gwneud i rywun **ddigalonni**.
8. **Pensaer** enwog gynlluniodd yr adeilad newydd.
9. Maen nhw am i fi **gadw draw** o'r swyddfa nes bod fy annwyd wedi clirio.
10. Roedd cais y pennaeth yn gwbl **afresymol** felly es i at yr undeb.

# Uned 5 Uwch 3

## Cam 1 – Darllen a Siarad – Ffoaduriaid

Fel cam cyntaf, rhowch baragraff neu ddau o’r darn ar sgrin PowerPoint a’i dangos am ugain eiliad. Rhaid i’r parau wedyn ddweud un ffaith wrth ei gilydd maen nhw’n ei chofio. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Darllenwch y darn a rhannwch y dosbarth yn barau i grynhoi pump o’r prif bwyntiau yn yr erthygl. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl. Wedyn, gofynnwch y cwestiynau isod fesul un. Rhowch gyfle i bawb gasglu eu meddyliau, trafod gyda'u partneriaid ac yna un person i ddweud yr ateb o flaen y dosbarth.

1. Pam mae Aberystwyth yn ganolog i’r erthygl?
(Mae ffoaduriaid o Syria wedi bod yn cael eu cartrefu yno ers 2015 ac yn cael croeso cynnes.
2. Pam mae cartrefu ffoaduriaid yn dasg anodd i Aberaid?
(Nid oes hawl gan ffoaduriaid i fyw mewn tai cyngor na thai cymdeithasol. Mae’n rhaid dod o hyd i landlordiaid preifat dibynadwy sy’n fodlon derbyn lwfans lleol.)
3. Sut mae’r Groes Goch wedi helpu?
(Mae’r Groes Goch wedi helpu menywod o Syria i sefydlu cynllun o’r enw’r *Syrian Dinner Project*. Mae’r menywod yn cynnal gwleddoedd Syriaidd ac yn ennill arian, sgiliau a chymwysterau.)
4. Pam roedd yn bwysig bod Mohammed yn dysgu Cymraeg?
(Mae ei gydweithwyr yn siarad Cymraeg.)
5. Pam mae Siôn a gwirfoddolwyr eraill yn hapus i wirfoddoli?
(Mae cyfeillgarwch wedi datblygu rhyngddyn nhw â’r ffoaduriaid. Maen nhw’n teimlo eu bod nhw wedi ennill mwy nag y maen nhw wedi’i roi.)

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach ar gyfer y gwaith llafar.
Rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer y gweithgaredd cysylltu geiriau.
Ceir rhai syniadau isod:

| | |
|---|---|
| croeso | croesawu, croesawgar, croeso cynnes, diffyg croeso |
| cartref | tŷ teras, aelwyd, cynefin, brethyn cartref, oddi cartref, hiraeth |
| iechyd | salwch, anhwylus, nyrs, ysbyty, meddygfa, llawdriniaeth, awyr iach, iachus, byw ac iach, haint, heintus |

# Cam 2 – Gwybodaeth o iaith – dewis y ffurf gywir

**Dewis y ffurf gywir**

Ymarferion o gyn-bapurau'r arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch sydd yma. Mae gêm ryngweithiol ar gael ar wefan **Kahoot** ar gyfer yr ymarfer hwn eto – gweler y canllawiau cyffredinol. Mae'r ymarfer hwn ar gael trwy ddilyn y ddolen isod:

https://create.kahoot.it/share/uwch-3-uned-5-dewis-y-ffurf-gywir/c59daad5-01c7-4f5f-b603-1a5beb4960e6 neu trwy chwilio am "Uwch 3 Uned 5" ar wefan Kahoot.

Dyma'r atebion cywir rhag ofn nad oes modd defnyddio Kahoot:

| | |
|---|---|
| 1. a | 5. b |
| 2. b | 6. a |
| 3. b | 7. ch |
| 4. ch | 8. a |

**Ymarfer – geiriau tebyg**

Trafodwch y gwahaniaeth rhwng ystyr **safle** a **sefyllfa** wrth fynd dros yr atebion uchod. Wedyn cyflwynwch yr ymarfer sy'n cyflwyno parau o eiriau tebyg ac yn gofyn iddynt gael eu gosod mewn bylchau mewn brawddegau er mwyn dangos y gwahaniaeth rhwng eu hystyron. Rhowch bum munud i barau fynd trwy'r ymarfer ac ar ddiwedd y pum munud, newidiwch y partneriaid a gofyn i'r parau newydd gymharu atebion a thrafod unrhyw wahaniaethau barn. Wedi rhoi cyfle iddynt wneud hynny, ewch dros yr ymarfer gyda'r dosbarth cyfan gan drafod unrhyw anawsterau. Dyma'r atebion a diffiniadau allai fod o help:

i. **rheolaeth** – gweithred o reoli rhywbeth neu rywun (*control*)
**rheolaidd** – â phatrwm sefydlog – o ran amser fel arfer (*regular*)

Collodd e reolaeth ar y car.

Mae hi'n arddangos ei gwaith yn rheolaidd .

ii. **diwylliannol** – yn ymwneud â diwylliant (*cultural*)
**diwylliedig** – wedi dysgu am ddiwylliant (*cultured*)

Mae llawer o bethau i'w gwneud yn y ddinas – mae'n ddinas ddiwylliannol iawn.

Maen nhw'n bobl wybodus a diwylliedig.

iii. **chwythu** – achosi ffrwd o aer (e.e. o'r geg), symud (gan wynt) (*to blow*)
**chwysu** – cynhyrchu hylif drwy'r croen (*to sweat*)

Mae hi'n edrych yn welw iawn ac mae hi'n chwysu llawer hefyd.

"Rhaid i ti chwythu'r canhwyllau i gyd".

iv. **cau** – atal mynediad, stopio neu flocio agoriad (*to close*)
**cae** – tir wedi ei amgáu â chlawdd, wal neu ffens (*field*)
"Pryd mae'r llety'n cau dros y gaeaf?"
Cynhaliwyd y ffair haf ar gae'r ysgol.

(Gellid atgoffa'r dysgwyr mai bôn cau yw cae___)

v. **nodau** – seiniau cerddorol (*notes*).
**nodiadau** – sylwadau neu gofnodion ysgrifenedig cryno (*notes*)
**Nodyn** yw'r enw unigol yn y ddau achos.
Er bod y bachgen wedi cymryd llawer o nodiadau yn ystod y gwersi, methodd e'r arholiad.
"Gobeithio bydd y côr yn canu'r nodau cywir i gyd."

(Gellid tynnu sylw at eiriau eraill sydd yn newid ystyr gyda ffurfiau lluosog gwahanol, e.e. offeryn > offer/offerynnau; llwyth > llwythau/llwythi)

vi. **cylch** – enw - arwyneb crwn neu'r llinell o amgylch arwyneb o'r fath (*circle*)
**crwn** – ansoddair – ar ffurf cylch (*round*)
Mae plant bach yn dysgu'n ifanc iawn beth yw siapiau fel sgwâr, triongl a chylch.
Roedd y gwesteion yn eistedd o gwmpas byrddau crwn.

vii. **cartrefi** – enw – lluosog cartref (*homes*)
**cartrefu** – berf – rhoi cartref i rywbeth neu rywun (*to house*)
Mae cynghorau Cymru'n ceisio cartrefu pobl ond does dim digon o dai ar gael.
Mae gan y plant eu cartrefi eu hunain erbyn hyn.

viii. **seilio** – gosod ar sail neu sylfaen (*to base*)
**lleoli** – gosod mewn lle penodol, neu ddarganfod lle mae rhywbeth (*to locate*)
Mae'r ffilm wedi'i seilio ar stori wir.
Mae'r ffilm wedi'i lleoli yng nghefn gwlad Cymru.

ix. **golwg** – y gallu i weld, ymddangosiad rhywbeth neu rywun (*sight, state (visual)*)
**golygfa** – y darlun mae'r llygad yn ei weld (*view, scene*)
Mae'r olygfa o gopa'r mynydd yn anhygoel.
"Rhaid i mi gael sbectol achos dw i'n fyr fy ngolwg. "

x. **llym** – yn gosod a gorfodi rheolau cadarn (*strict*)

**llwm** – yn brin o angenrheidiau bywyd (pobl), heb lawer o goed neu dyfiant (tir) (*bleak*)
Roedd athrawon yn fwy llym yn y gorffennol ac roedd disgyblaeth yn well.
Mae'r teulu'n byw mewn amgylchiadau digon llwm.

xi. **diben** – pwrpas, rheswm dros wneud rhywbeth (*purpose*)
**dibyn** – ymyl clogwyn neu lethr serth (*precipice, brink*)
"Does dim diben i ni aros, ddôn nhw ddim nawr."
Yn ffodus iawn, arafodd y car a stopio ar ymyl y dibyn.

xii. **poblogaidd** – yn denu llawer neu'n hoff gan lawer (*popular*)
**poblogaeth** – yr holl bobl sy'n byw mewn gwlad neu ardal (*population*)
Mae gemau cyfrifiadurol yn boblogaidd iawn ymhlith pobl ifainc.
Mae poblogaeth y dref wedi cynyddu ers codi'r tai newydd.

**Fawr ddim, fawr neb**

Esboniwch sut mae'r idiom **fawr ddim** neu **fawr neb** yn cael ei defnyddio i olygu **dim llawer.** Wedyn esboniwch bod angen ffurfio atebion ar ffurf "Doedd fawr ddim i'w____" i'r bloc cyntaf o gwestiynau yn yr ymarfer, "Doedd fawr neb i'w_____" i'r ail floc a "Doedd fawr neb i _____ ag e/o" i'r trydydd bloc. Gofynnwch i barau fynd ati i greu'r atebion a datblygu'r ymarfer yn ddril trwy ailadrodd y cwestiynau a'r atebion nes byddant yn llifo'n slic. Wedi iddynt orffen, gallwch drafod y gwahaniaeth rhwng y ddau floc cyntaf a'r trydydd – h.y. mai dim ond gyda berfau sydd heb eu paru ag arddodiaid y defnyddir **i'w.**

# Cam 3 – Gwrando – Trafodaeth

Cau banciau yw'r pwnc dan sylw. Fel cam cyntaf, gofynnwch i barau nodi o leiaf chwe gair y bydden nhw'n disgwyl eu clywed mewn trafodaeth ar gau banciau.

Chwaraewch y darn ddwywaith er mwyn i'r dysgwyr ateb y cwestiynau ac ewch dros yr atebion:

| | |
|---|---|
| 1. c | 4. ch |
| 2. ch | 5. a |
| 3. a | 6. c |

Gellid chwarae'r darn unwaith eto i gadarnhau.
Rhannwch y dosbarth yn grwpiau ar gyfer y gwaith sgwrsio ac i feddwl am bum sefyllfa lle byddai'n briodol defnyddio'r idiom 'torchi llewys'.

## Cam 4 – Siarad personol – penaethiaid

Yn gyntaf, rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i feddwl am deitlau ar gyfer penaethiaid. Nodir prif weithredwr a golygydd. Rhai syniadau eraill – cyfarwyddwr/aig, prif hyfforddwr/aig, rheolwr/aig, rheolwr llinell, is-ganghellor, prif weinidog.

Gofynnwch i'r grwpiau drafod y nodweddion a restrir o ran beth sy'n bwysig a beth sy ddim yn bwysig o ran bod yn bennaeth da. Rhai syniadau ar gyfer pethau sydd ar goll – diolch i'r staff, ffurfio polisi o ran gwisg. Cynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

Rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am ansoddeiriau i ddisgrifio'r penaethiaid yn y lluniau.

Deialog. Ar ôl i'r dysgwyr gael cyfle i'w hymarfer, gellid rhannu'r dosbarth yn barau newydd i (i) newid chi i ti (mae'r ffurfiau mewn ffont tywyll yn y darn) a (ii) newid y fam i'r tad. Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau A/B er mwyn diffinio geiriau/ymadroddion sy'n codi yn y darn i'w gilydd. (Atodiad 1). Partner A – codiad cyflog, dirywio, lleddfu, cymeradwyo, argyfwng Partner B – amgylchiadau personol, cloff, annibynnol, afresymol, e-bost.

Rhannwch y dosbarth yn barau newydd i drafod y pwnc – Disgrifiwch rywun sy wedi bod yn bennaeth arnoch chi yn y gwaith - gan sicrhau eu bod yn cyfeirio at bob un o'r pwyntiau bwled. Gellid newid y parau nifer o weithiau a gofyn i ambell i berson adrodd yn ôl o flaen y dosbarth cyfan.

## Cam 5 – Gwybodaeth o iaith – llenwi bylchau

Gweler yr awgrymiadau ynglŷn â chyflwyno'r ymarferion llenwi bylchau yn y canllawiau cyffredinol ar ddechrau'r llyfryn hwn.

Dyma'r atebion:

| | | | |
|---|---|---|---|
| 1. | bol/bola | 11. | eu |
| 2. | nac | 12. | freichiau |
| 3. | bod | 13. | na |
| 4. | mewn | 14. | iddyn |
| 5. | Does | 15. | roedd |
| 6. | dalu | 16. | taswn |
| 7. | o'u | 17. | tro |
| 8. | heb | 18. | meddyliwch |
| 9. | i | 19. | mai/taw |
| 10. | ydy | 20. | fwy |

**Ymarfer – llond bol**

Wedi cwblhau'r ymarfer llenwi bylchau, tynnwch sylw at y bwlch cyntaf, sy'n seiliedig ar yr ymadrodd **llond bol/bola** ac esboniwch y gwahaniaeth rhwng yr enw **llond** (sef cynnwys rhywbeth – cymaint ag y gall ei ddal o'r cynnwys hwnnw) a'r ansoddair **llawn** (sy'n disgrifio rhywbeth sydd wedi ei lenwi i'r eithaf). Gallai'r gwrthgyferbyniad rhwng 'taflu llond potel o ddŵr dros rywun' a 'thaflu potel lawn at rywun' fod o help wrth esbonio. Tynnwch sylw hefyd at y ffaith bod llawn yn treiglo'n feddal ar ôl enwau benywaidd. Gofynnwch i barau o ddysgwyr fynd trwy'r ymarfer yn cyfieithu'r parau o ymadroddion llond/llawn a gofynnwch iddynt lunio brawddegau yn cynnwys 4 o'r ymadroddion. Wedi iddynt gael cyfle i gwblhau hyn, dewch â'r dosbarth ynghyd i fynd dros yr atebion a chlywed enghreifftiau o'r brawddegau a luniwyd. Dyma'r atebion cywir:

| | |
|---|---|
| llond bol(a) | bol(a) llawn |
| llond llaw | llaw lawn |
| llond ystafell | ystafell lawn |
| llond cwpwrdd | cwpwrdd llawn |
| llond llwy | llwy lawn |
| llond cwpan | cwpan llawn |
| llond ceg | ceg lawn |

**na**

Cyfeiriwch nesaf at yr ail flwch yn yr ymarfer llenwi bylchau – 'Dw i ddim yn dechnophôb **nac** yn ddeinosôr' ac esboniwch mai **na/nac** a ddefnyddir yn lle **neu** mewn brawddegau neu gwestiynau negyddol. Nodwch hefyd fod treiglad llaes yn dilyn **na**. Wedi esbonio a rhoi enghreifftiau, gofynnwch i barau fynd trwy'r ymarfer yn cyfieithu'r cwestiynau ac atebion. Gallwch ymdrin â'r rhain fesul un, gan ofyn i bob pâr roi eu hateb ar fwrdd gwyn bach neu ar ddarn o bapur a'i ddangos cyn i chi drafod unrhyw wahaniaethau a chywiro yn ôl yr angen. Dyma'r atebion disgwyliedig:

Dych chi/Wyt ti eisiau te neu goffi? Dach chi/Wyt ti isio te neu goffi? Dim diolch, dw i ddim yn yfed te na choffi.

Dych chi/Wyt ti'n gweithio ddydd Sadwrn neu ddydd Sul? Nac ydw, dw i ddim yn gweithio ddydd Sadwrn na dydd Sul yr wythnos yma.

Ydy'r cwmni'n broffidiol neu beidio? Nac ydy, dyw e/dydy o ddim yn addas nac yn broffidiol ar hyn o bryd.

Ydy'r dre wedi gwella neu/'ta wedi dirywio? Does dim/Does 'na ddim siopau na chyfleusterau ar ôl yma.

**Siaradwch – gwneud i chi...**

Cyfeiriwch at yr ymadrodd **gwneud i mi sgrechian** oedd yn yr ymarfer llenwi bylchau a thynnwch sylw at y gwahaniaeth rhwng yr idiom Gymraeg (sy'n cynnwys i) a'r idiom gyfatebol Saesneg (*make me scream*). Yna cyflwynwch y cwestiynau yn yr adran Siaradwch a gosodwch y dysgwyr mewn grwpiau o dri i drafod y cwestiynau. Ewch o gwmpas yn gwrando ac yn ymuno yn y sgwrsio yn ôl yr angen. Wedi iddynt gael

cyfle i drafod, dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd a gofyn i rywun o bob grŵp rannu'r pethau mwyaf diddorol y buon nhw'n eu trafod.

## Cam 6 – Cymraeg ffurfiol

Trafodir y defnydd o 'ni' ar ddechrau brawddeg negyddol yma. Manteisir ar y cyfle i dynnu sylw at y gwahaniaeth rhwng 'ni' a 'na' a gellid rhoi rhagor o enghreifftiau. Gofynnir i'r dysgwyr drosi o'r iaith ffurfiol i'r iaith lafar y tro hwn, gan mai adnabyddiaeth o'r ffurf sy'n bwysig. Fodd bynnag, mae'n werth tynnu sylw penodol at y frawddeg, 'Ni fwriadaf gwyno' gan y gallai fod yn ddefnyddiol mewn llythyr ffurfiol (neu o leiaf un frawddeg yn dechrau gyda 'ni').

## Cam 7 - Protest iaith

**Gwylio a gwrando 1 - Hanes Cymdeithas yr Iaith**

1. Rhowch y naw cerdyn sy'n cynnwys gwybodaeth o'r fideo (Atodiad 2) i bob pâr neu grŵp bach. Tair set o dri yw'r cardiau ac mae'n rhaid penderfynu sut i'w rhannu'n setiau trwy roi'r cardiau cywir gyda'i gilydd. Yna, rhaid ysgrifennu tair ffaith am Gymdeithas yr Iaith gan ddefnyddio'r cardiau. Os ydych chi'n dysgu dosbarth rhithiol, ebostiwch y cardiau ymlaen llaw. Gellid anfon y cardiau i gyd, neu un set yn unig gan sicrhau bod pobl â setiau gwahanol yn gweithio gyda'i gilydd.

<u>1. Ym mis Chwefror 1962, darlledwyd araith radio Saunders Lewis, Tynged yr Iaith.</u>
<u>2. Yn Ysgol Haf Plaid Cymru ym Mhontarddulais yn 1962, sefydlwyd Cymdeithas yr Iaith.</u>
<u>3. Ar Chwefror yr ail, 1963, cynhaliwyd protest gyntaf Cymdeithas yr Iaith, sef Protest Pont Trefechan.</u>

2. Gofynnwch i barau drafod y dyfyniadau o'r fideo a ddangosir yn y llyfr cwrs ac esbonio, yn eu geiriau eu hunain, sut roedd yr ymgyrchwyr iaith yn gweld sefyllfa Cymru a'r Gymraeg ddechrau'r 1980au. Dewch â'r dosbarth ynghyd i drafod yr atebion.

Gallai'r canlynol godi:
Roedd y Gymraeg yn dirywio, ac yn sicr o farw os nad oedd newid mawr.
Roedd y Gymraeg yn cael ei gweld fel iaith hen ffasiwn cyn ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith.
Roedd ymgyrchoedd Cymdeithas yr Iaith yn perthyn i wrthryfeloedd pobl ifanc y erbyn

yr awdurdodau mewn rhannau eraill o'r byd.

Cyfeiriwch at y gair **cyfundrefnau** gan dynnu sylw at y modd y mae wedi'i ffurfio o'r geiriau 'trefn' a 'cyfun'. Gofynnwch i barau feddwl am o leiaf dri gair arall sy'n cynnwys y naill neu'r llall o'r geiriau hyn. Gofynnwch i bob pâr ddweud eu cynigion a nodwch yr holl eiriau cywir a gynigir ar y bwrdd gwyn, gan drafod yr ystyron os oes angen.

**Enghreifftiau posib:**
trefnu, trefnus, trefniadau, trefnydd, trefnolion, ysgol gyfun, cyfuno, cyfuniad.
Gofynnwch i'r parau fynd ymlaen i drafod atebion cwestiynau 3-6 cyn i chi ddod â phawb ynghyd eto i drafod yr atebion.

3. Mae Gareth Miles yn trafod dulliau ymgyrchu Cymdeithas yr Iaith. Pa fath o ddulliau roedden nhw'n eu defnyddio?
Roedden nhw'n defnyddio dulliau di-drais.

4. Prynodd Ffred Ffransis hen gar am £5.00 a'i yswirio am £18.00. Pam? Yn erbyn beth roedd e'n protestio?
Roedd e'n protestio yn erbyn ffurflen treth car uniaith Saesneg.

5. Beth wnaeth aelodau Cymdeithas yr Iaith i arwyddion ffyrdd Saesneg?
Eu paentio nhw'n wyrdd i ddechrau, wedyn eu tynnu i lawr a'u dinistrio.

6. Yn ôl Gareth Miles, "Gallwch chi ddweud bod yr holl bethau rydym yn eu cymryd yn ganiataol heddiw yn **deillio** o'r cyfnod cyffrous hwnnw."
Enwch o leiaf ddau o'r pethau hynny.

**Atebion posib:**
- Cyfryngau torfol Cymraeg
- Arwyddion ffyrdd
- Dogfennau
- Statws i'r iaith
- Ysgolion Cymraeg

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y dyfyniad gan Hywel Griffiths:

"Mae'n hollol foesol i dorri cyfraith sydd mewn gwirionedd yn anfoesol."

Gellir dod â'r dosbarth ynghyd i drafod ymhellach wedyn.

## Gwylio a gwrando 2 - Tryweryn

Cyfeiriwch at y llun o furlun "Cofiwch Drywerym" sydd yn y llyfr cwrs a gofynnwch a ydy'r dysgwyr yn gwybod at beth mae'r slogan yn cyfeirio. Gallwch holi am leoliad y murlun hefyd (ger Llanrhystud yng Ngheredigion) ac efallai y bydd rhai wedi gweld fersiynau lleol o'r murlun neu sticeri ceir ac ati. Heb fynd i drafod manylion hanes boddi Cwm Tryweryn, ewch ymlaen i ddangos y fideo.

Wedi cael cyfle i wylio'r fideo, gofynnwch i barau drafod cwestiynau 1-4 a cheisio nodi cymaint ag y gallant. Newidiwch y parau a gofyn iddynt barhau i drafod a chyfnewid gwybodaeth yr oedden nhw wedi'i nodi wrth weithio gyda'r partner cyntaf.

Wedi iddynt gael cyfle i drafod, dangoswch y fideo eto cyn trafod yr atebion. Mae llawer o wybodaeth yn yr atebion a nodir isod i rai o'r cwestiynau, felly does dim disgwyl y byddant wedi nodi'r holl fanylion.

1. Pam roedd angen rhagor o ddŵr ar ddinas Lerpwl yn y 1950au?

<u>Yn y 1950au, roedd Corfforaeth Lerpwl yn dymchwel slymiau'r ddinas ac yn codi tai newydd, glân yn eu lle. Tai modern efo ystafelloedd ymolchi a pheiriannau golchi dillad. Roedd angen miloedd o alwyni o ddŵr ar gyfer y cartrefi newydd yma. Byddai'n rhaid adeiladu cronfa ddŵr yn rhywle.</u>

2. Pa fath o bentref oedd Capel Celyn? Nodwch o leiaf dri pheth oedd yn y pentref, ac unrhyw ffeithiau eraill amdano.

<u>Pentref bach yng Nghwm Tryweryn ger y Bala oedd Capel Celyn. Roedd yn gartref i 48 o bobl. Roedd capel, ysgol, swyddfa bost, deuddeg o ffermydd a thua 800 erw o dir amaethyddol yno.</u>

3. Sut gwnaeth y bobl isod ymateb i'r cynllun i foddi Cwm Tryweryn?

**Gwynfor Evans**

<u>Arweiniodd Gwynfor Evans grŵp o gynrychiolwyr o Dryweryn a aeth i gwrdd â Chorfforaeth Lerpwl. Rhoddodd anerchiad pwerus gerbron y Gorfforaeth, ond roedden nhw mor benderfynol ag erioed o fwrw ymlaen â'r cynllun.</u>

**David Pritchard a David Walters**

<u>Dau ddyn ifanc o Went oedd David Pritchard a David Walters. Ar Fedi'r 22ain 1962, difrodon nhw offer ar safle'r argae.</u>

**Emyr Llywelyn Jones, John Albert Jones ac Owain Williams**

<u>Ar 10 Chwefror 1963, aeth Emyr Llewelyn, Owain Williams a John Albert Jones i safle gwaith adeiladu'r gronfa ddŵr, a gosod ffrwydron yno. Gwnaethon nhw ddifrod difrifol i offer a chael dedfryd o garchar. Carcharwyd Emyr Llewelyn ac Owain Williams am flwyddyn, a chafodd John Albert Jones gyfnod prawf o dri mis.</u>

4. Roedd "gwrthwynebiad chwyrn" i'r cynllun am sawl rheswm. Nodwch dri ohonyn nhw.

1. Yr iaith Gymraeg: byddai'r cynllun yn chwalu cymuned uniaith Gymraeg, ar adeg pan oedd cymunedau fel hyn yn dechrau diflannu.

2. Adnoddau Cymru: roedd gwrthwynebiad i'r ffaith fod adnoddau gwerthfawr Cymru'n cael eu meddiannu gan ddinas yn Lloegr.

3. Dim llais: doedd dim un Aelod Seneddol o Gymru yn cefnogi'r cynllun, ond doedden nhw ddim yn gallu ei atal. Doedd gan Gymru ddim llais.

Gofynnwch i'r parau symud ymlaen i drafod gweddill y cwestiynau (sy'n ymarferion iaith mewn gwirionedd) cyn dod â phawb ynghyd eto i gymharu'r atebion. Rhoddir rhai atebion/awgrymiadau isod.

5. Gyda'ch partner, edrychwch ar y pedwar ymadrodd isod, a cheisiwch feddwl am o leiaf ddau air neu ymadrodd sy'n gysylltiedig â phob un. Mae enghreifftiau wedi'u rhoi i chi.

| mesur seneddol | tir amaethyddol | adnoddau gwerthfawr | gweithredu'n uniongyrchol |
|---|---|---|---|
| mesuriadau<br>mesuradwy<br>mesurydd<br>senedd<br>Aelod Seneddol | tirlun<br>tiroedd<br>tir glas<br>ar dir y byw<br>colli tir<br>dal dy dir<br>torri tir newydd<br>tirfeddiannwr<br>tiriogaeth<br>amaeth<br>amaethu<br>amaethwr<br>amaethyddol | gwerthu<br>adnodd<br>adnoddau naturiol<br>gwerthfawrogi<br>ar werth<br>gwerth chweil<br>gwerthusiad<br>gwerthuso | yn union<br>gweithred<br>gweithredu cadarnhaol<br>prif weithredwr<br>ar fy union<br>uniongred<br>unioni<br>unionsyth |

6. "Ond er mor bwerus oedd anerchiad Gwynfor Evans gerbron y Gorfforaeth, roedd Corfforaeth Lerpwl mor benderfynol ag erioed o fwrw ymlaen â'r cynllun"

Gyda'ch partner, edrychwch ar y dyfyniad uchod a meddyliwch am frawddeg yn cynnwys **ag erioed**, a brawddeg yn cynnwys **bwrw ymlaen**.

7. Mae'r cyflwynydd yn dweud, "I rai, roedd Argae Cwm Tryweryn yn symbol o'r byd newydd modern, a phentref Capel Celyn yn perthyn i'r oes **o'r blaen.**"

Ystyr ‘yr oes o’r blaen’ yw ‘y gorffennol’. Gyda’ch partner, allwch chi feddwl beth yw ystyr yr ymadroddion isod?

| | |
|---|---|
| Oes yr arth a’r blaidd | prehistoric |
| Oes y Cerrig | The Stone Age |
| Oes yr Iâ | The Ice Age |
| Oes silff | Shelf life |
| Ar ôl yr oes | Behind the times |
| O flaen yr oes | Ahead of the times |
| Yn oes oesoedd | For ever and ever |

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y cwestiynau yn yr adran Siaradwch. Efallai y bydd o gymorth i chi chwarae rhan olaf y fideo eto i'w hatgoffa cyn iddynt ddechrau trafod y digwyddiadau sy'n cael eu crybwyll (achub pentref Llangyndeyrn, sefydlu'r Swyddfa Gymreig, pleidlais "Ie" yn Refferendwm Datganoli 1997 ac ymddiheuriad swyddogol Cyngor Lerpwl yn 2005).

## Cam 8 – Atgyfnerthu Geirfa Uned 5

Yn Atodiad 3 ceir cyfres o gardiau sy’n cynnwys anagramau. Defnyddir yr un cod lliw â’r adran Geirfa. Os ydyn nhw’n rhy heriol, gellid caniatáu i’r dysgwyr edrych yn ôl ar y rhestr eirfa wrth edrych ar y cardiau y tro cyntaf, ac yna eu gwneud unwaith eto gyda phartner newydd ail dro.

## Uned 5, Atodiad 1

| |
|---|
| codiad cyflog<br>dirywio<br>lleddfu<br>cymeradwyo<br>argyfwng |
| amgylchiadau personol<br>cloff<br>annibynnol<br>afresymol<br>e-bost |

## Uned 5, Atodiad 2

| | | |
|---|---|---|
| Chwefror 1962 | Araith Tynged yr Iaith | Saunders Lewis |
| Ysgol Haf Plaid Cymru 1962 | Pontarddulais | Sefydlu Cymdeithas yr Iaith Gymraeg |
| Chwefror yr ail, 1963 | Pont Trefechan | Protest gyntaf Cymdeithas yr Iaith Gymraeg |

Uned 5, Atodiad 3

| | |
|---|---|
| e i g a e l th d w e g | gweledigaeth |
| f n g rh r a a | rhagfarn |
| y f g i s t r t s y | tystysgrif |
| i a ch b | baich |
| a a a t i g d d n | datganiad |
| ll s y y w e | ewyllys |
| t i h n a | haint |
| a dd l e n f y s y | sylfaenydd |
| n dd l u o a f a e | anfaddeuol |
| f a l y a o c f l | cyfalafol |
| i a r d f m y d th e | diymadferth |
| o p o d r l i | priodol |
| w l r a o y | arlwyo |

| | |
|---|---|
| r i i w d o y | dirywio |
| o o i r d g f | gorfodi |
| e r m t a u g t y r f | ymgartrefu |

# Uned 6 Uwch 3

## Cam 1 – Siaradwch – Pwnc llosg – Mae'n amhosib byw heb blastig

i) Rhannwch y dosbarth yn barau i restru'r cynhyrchion plastig sydd yn y gwahanol ystafelloedd yn eu tai.
ii) Newidiwch y parau i gymharu eu rhestri a thrafod pa mor hanfodol yw pob eitem.
iii) Ar gyfer yr holiadur, dylai pawb holi o leiaf pum person.
iv) Rhannwch y dosbarth yn grwpiau ar gyfer y ddau gam nesaf – ymateb i'r datganiadau a'r paragraff.
v) Rhannwch yn grwpiau newydd i drafod y pwnc ei hun, sef 'Mae'n amhosib byw heb blastig'.

## Cam 2 – Gwybodaeth o iaith – Aralleirio

Dyma'r atebion:

1. **Gorau po gynta** iddyn nhw adael.
2. **Rhaid i'r staff beidio** â gweithio'n hwyr.
3. Dw i **bron â gorffen.**
4. **Ar bwy mae'r bai** am hyn?
5. Pwy **sy'n gwybod?**
6. Penderfynodd Jasmin adael y cwmni er mwyn gweithio **ar ei liwt ei hun.**
7. **Rhowch alwad i fi** cyn amser cinio yfory.
8. Beth **sy ar y gweill gyda/gen ti ar y gweill** dros yr wythnosau nesa?

**i) Help llaw – yw/ydy/ydyn, mae/maen, sy**

Mae rhif 5 uchod yn gofyn i'r dysgwyr ddefnyddio'r patrwm 'Pwy sy'n...?' Manteisir ar y cyfle hwn i dynnu sylw at egluro'r defnydd gwahanol o yw/mae/sy mewn cwestiwn. Er mwyn ymarfer, ceir 15 cwestiwn yn Atodiad 1 a rhaid i'r dysgwyr lenwi'r blwch gyda cherdyn **yw**, **mae** neu **sy**. Dyma'r atebion:

| | | |
|---|---|---|
| Pryd | ____________'r plant yn codi? | mae |
| Beth | ____________'n eich poeni chi? | sy |
| Beth | ____________'r peth yna yn y gornel? | yw/ydy |

| | |
|---|---|
| Pa un ______________yn yr ysbyty? | sy |
| Ble ______________'r trên yn mynd? | mae |
| Beth ______________'r gair yma'n ei feddwl? | mae |
| Pwy ______________hi'n feddwl ydy hi? | mae |
| Pwy ______________'r garedicaf ohonyn nhw i gyd? | yw/ydy |
| Pa un ______________'r pennaeth? | yw/ydy |
| Pwy ______________'n feddyg? | sy |
| Sut ______________gwneud hyn? | mae |
| Pa un ______________'n ffres? | sy |
| Pa un ______________'r un newydd? | yw/ydy |
| Faint ______________hi? | yw/ydy |
| Faint ______________'n gwybod yr ateb? | sy |

**ii) Ymarfer** – Adolygu'r gwahaniaeth rhwng **Rhaid i mi beidio a Does dim rhaid i mi**

Rhowch ychydig o enghreifftiau i ddangos y gwahaniaeth cyn rhannu'r dosbarth yn barau i wneud y gwaith cyfieithu:

**1.** I don't have to smoke. – Does dim rhaid i mi smocio/ysmygu.
I mustn't smoke. – Rhaid i mi beidio â smocio/ag ysmygu.
**2.** You don't have to be unreasonable. – Does dim rhaid i ti/chi fod yn afresymol.
You mustn't be unreasonable. – Rhaid i ti/chi beidio â bod yn afresymol.
**3.** It doesn't have to be a burden. – Does dim rhaid iddo fe fod yn fwrn/faich.
It mustn't become a burden. – Rhaid iddo fe beidio â mynd yn fwrn/faich.

Newidiwch y parau ar gyfer yr ail ymarfer, sef cwblhau'r brawddegau.

**iii) Bron â**

Gellid cynnal dril bach i ymarfer defnyddio **bron â** cyn rhannu'r dosbarth yn barau i aralleirio'r brawddegau. Dyma atebion posib:

| | |
|---|---|
| **1.** Dw i eisiau bwyd yn ofnadwy. | Dw i bron â llwgu. |
| **2.** Bydda i yna mewn pum munud. | Dw i bron â bod yna. |
| **3.** Roedd rhywbeth yn sownd yn fy ngwddw. | Ro'n i bron â thagu. |
| **4.** Daeth y car coch yn agos at fwrw fy nghar i. | Roedd y car coch bron â bwrw fy nghar i./Ro' i bron â chael damwain. |

**iv) Siaradwch – ar y gweill**

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i drafod y cwestiynau sy'n ymarfer **ar y gweill**.

## Cam 3 – Gwrando – Profiadau personol

Yma, mae Hedd Ladd-Lewis yn siarad am ei blentyndod yn Affrica, ar raglen BBC Radio Cymru *Beti a'i Phobl*. Mae'n bosib bydd y darn yn heriol oherwydd tafodiaith Hedd (Sir Benfro). O'r herwydd, chwaraewch y darn am y tro cyntaf gan ofyn i'r dysgwyr godi llaw wrth glywed y geiriau tafodieithol:

| | |
|---|---|
| marcet | marchnad |
| wên | ro'n |
| rhocyn | bachgen/hogyn |
| wêdd | roedd |

Dyma'r atebion:

**1**. Pam buodd Hedd yn treulio amser efo merch leol tra buodd o'n byw ym Mombasa, Cenia? **Roedd ei fam yn sâl iawn (malaria)**.

**2.** Pam mae Hedd yn cofio ei amser yn Zambia yn well na'i amser yng Nghenia? **Roedd e'n hŷn – cafodd ei addysg gynradd yna**.

**3.** Beth oedd wedi digwydd yng Nghenia ychydig amser cyn i Hedd a'i deulu gyrraedd yno? **Enillodd ei hannibyniaeth (o'r Ymderodraeth Brydeinig)**

**4.** Beth oedd gwaith tad Hedd yng Nghenia? **Hyfforddi'r bobl leol i fod yn gyfrifwyr**

**5.** Beth yw'r gwahaniaeth rhwng Hedd a'i chwaer, o safbwynt y ffordd maen nhw'n siarad â'u tad? **Mae Hedd yn siarad Cymraeg a Saesneg â'i dad, ond dim ond Cymraeg mae ei chwaer yn ei siarad â fe/fo**.

**Siaradwch – milltir sgwâr**

Mae Hedd yn defnyddio'r ymadrodd 'milltir sgwâr'. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i drafod y cwestiynau.

## Cam 4 – Darllenwch a Siaradwch

Testun yr erthygl y tro hwn yw gwrando ar farn pobl ifainc. Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Dilynwch y tasgau sydd yn y llyfr:

i) Crynhoi'r pum prif bwynt. Ar ôl cael sesiwn adrodd yn ôl, gofynnwch y cwestiynau a ofynnwyd yn yr arholiad:

1. Pam roedd rhaid i Cris a'i ffrindiau fynd i weld y Pennaeth pan oedden nhw yn yr Ysgol Gynradd? **Ro'n nhw wedi trefnu deiseb yn gwrthwynebu'r penderfyniad i wahardd brechdanau amser cinio a gorfodi'r plant i fwyta cinio ysgol**.

2. Sut mae Cris yn gobeithio bod agwedd ysgolion wedi newid? **Mae plant yn cael eu dysgu i feddwl yn annibynnol**.

3. Pwy ydy Harper Nielsen a beth wnaeth hi? **Merch ysgol naw oed yn Awstralia a wrthododd sefyll i'r anthem genedlaethol (achos y cyfeiriad at Awstralia wen/ achos ei bod yn diystyru'r Awstraliaid brodorol)**.

4. Beth oedd barn gwleidyddion Awstralia? **Condemnion nhw hi am fod â 'diffyg parch' a dwedodd un ei bob hi'n *spoilt brat***.

5. Beth ydy'r cysylltiad rhwng profiad Harper Nielsen, a phrofiad Cris yn Llanelli? **Dylai fod hawl gan blant i leisio eu barn a herio'r drefn**.

Hyderir y bydd y rhan fwyaf o'r pwyntiau sy'n atebion i'r cwestiynau wedi codi wrth i grwpiau grynhoi'r pum prif bwynt. Gofynnwch y cwestiynau fesul un, gan adael saib i bawb feddwl am yr atebion, cyn gofyn i un person ateb.

ii) Ceir nifer o ymadroddion cyfoethog yn y darn. Dyma'r atebion i'r cyfieithiadau:

| | |
|---|---|
| *to point a finger* | pwyntio bys |
| *a detrimental effect* | effaith andwyol |
| *to knock the stuffing from* | bwrw'r rhuddin o |
| *to take comfort from* | dwyn cysur o |
| *long since disappeared* | wedi hen ddiflannu |
| *to voice an opinion* | lleisio barn |

Rhannwch y dosbarth yn barau i lunio brawddeg yn defnyddio un o'r ymadroddion. Yna, er mwyn atgyfnerthu, ysgrifennwch y brawddegau y mae'r ymadroddion uchod ynddynt ar y bwrdd gwyn (neu ar sleid) ond mewn trefn wahanol. Gadewch fwlch ar gyfer yr ymadroddion a gofynnwch i barau gwblhau'r brawddegau.

Dw i wedi cwestiynu'n aml faint o blant dros y blynyddoedd, y mae'r system addysg wedi ______________________________ ohonynt.

Dw i wedi ________________, fodd bynnag, o'r gred fod y gyfundrefn addysg wedi newid ers hynny, a bod plant heddiw'n cael eu hannog i feddwl yn annibynnol – bod yr hen gred mai pethau i'w gweld, yn hytrach na'u clywed, yw plant ______________________.

Dw i wedi pyslo'n reit aml a gafodd y stŵr a gawson ni'r diwrnod hwnnw ______________________ ar ein parodrwydd i gwestiynu'r drefn.

Mae ei safiad hi yn anferthol bwysicach na safiad y criw bach drwg ohonom a'n deiseb dros yr hawl i frechdan yn Llanelli ddegawdau yn ôl, ond roedd ganddyn nhw – ac mae ganddi hi – hawl i ______________________.

Dywedwyd wrthon ni ein bod yn 'rhy fawr i'n sgidiau', ac fe ________________________ yn benodol ataf i am fod yn arbennig o ddrwg, am mai fi oedd 'arweinydd' y drwgweithredwyr.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau ar gyfer y gwaith llafar.

## Cam 5 - Gwybodaeth o iaith – Dewis y ffurf gywir.

Dyma'r atebion:

**1.** Roedd dau _______________ yn aros eu tro wrth y cownter yn y siop.

**a. berson**
b. bobl
c. bersonau
ch. unigolion

**2.** Gan fod y cyngerdd yn agosáu, byddai'n talu _______________ i chi ymarfer a dysgu'r darnau ar y cof.

**a. ffordd**
b. arian
c. rhaid
ch. llawer

**3.** _______________ wythnos neu ddwy, bydd pawb yn gwybod y canlyniad.

**a. Ymhen**
b. O flaen
c. Gerbron
ch. Am

**4.** Mae'r cwmni ar fin mynd i'r wal; do'n i ddim yn gwybod bod pethau _______________ â hyn.

a. gwell
b. cymaint
**c. cynddrwg**
ch. cystal

**5.** Aeth y parti ymlaen tan oriau _______________ y bore.

a. mawr

b. gwawr

**c. mân**

ch. olaf

**6.** Os nad ydych chi'n llwyddo'r tro cyntaf, mae'n bwysig dal _______________.

a. arni

b. amdani

c. â hi

**ch. ati**

**7.** Mae'r ffordd y mae pobl ddigartref yn cael eu trin yn codi _______________ arna i.

a. syched

**b. cywilydd**

c. chwant bwyd

ch. hiraeth

**8.** Doeddwn i ddim yn gwybod mai athrawes _______________ Gwen.

**a. yw**

b. mae

c. sy

ch. i'w

**Ymarfer**

Ceir ymarfer cyfieithu i ymarfer rhai o'r ymadroddion yn yr ymarfer. Dyma atebion posib:

**1.** *Within twenty four hours, two people will create a new world record.*
**O fewn pedair awr ar hugain, bydd dau berson yn creu record byd newydd.**

**2.** *I kept at it until the early hours*. **Daliais i ati tan yr oriau mân.**

**3.** *"I didn't realise that your behaviour was so bad. You are shaming me."* **"Do'n i ddim yn sylweddoli bod dy/eich ymddygiad cynddrwg. Rwyt ti/Dych chi/Dach chi'n codi cywilydd arna i."**

**Talu**

Cyfleoliadau posib: talu pwyth (yn ôl), talu'n ddrud, talu ar ei ganfed, talu trwy dy drwyn, talu bil/anfoneb.

Geiriau posib sy'n perthyn i'r gair talu: tâl, di-dâl, taliad, taleb, taladwy, blaen-dâl, iawndal.

## Cam 6 - Cymraeg ffurfiol – yr amherffaith

Mae ffurfiau cryno'r amherffaith yn gyffredin iawn mewn llenyddiaeth ac felly mae'n bwysig bod y dysgwyr yn dod yn gyfarwydd â nhw.

Dyma'r atebion i'r ddau ymarfer:

1. Cerddwn i'r ysgol. > Ro'n i'n (arfer) cerdded i'r ysgol.
2. Cerddai'r glowyr bum milltir i'r gwaith. > Roedd y glowyr yn (arfer) cerdded pum milltir i'r gwaith.
3. Canem gyda Chôr Aberwylan. > Ro'n ni/Roedden ni'n (arfer) canu gyda Chôr Aberwylan.
4. Pan oeddwn i yn yr ysgol, eisteddwn yn y sedd flaen. > Pan o'n/oeddwn i yn yr ysgol, ro'n/roeddwn i'n (arfer) eistedd yn y rhes flaen.
5. Rhedet bob nos. > Ro't/Roeddet ti'n (arfer) rhedeg bob nos.
6. Clywn y gog yn canu bob mis Ebrill a mis Mai. > Ro'n/Roeddwn i'n clywed y gog yn canu bob mis Ebrill a mis Mai.
7. Gwrandawai pawb ar y ddadl yn y Siambr. > Roedd pawb yn gwrando ar y ddadl yn y Siambr.
8. Cyrhaeddai'n gynnar bob bore.> Roedd hi'n (arfer) cyrraedd yn gynnar bob bore.

A minnau'n fachgen, awn am dro gydag Wncwl Huw yn aml iawn. Crwydrem ar hyd Afon Taf neu ar hyd y llyn neu i fyny drwy'r coed. Rhedai fy ewythr yn wyllt ger glan yr afon, cwympai ar ei hyd weithiau i chwarae saethu, safai ar un droed ar garreg lithrig yng nghanol yr afon a dringai goeden er mwyn hongian o un o'r canghennau. Ambell brynhawn Sadwrn, âi â mi cyn belled â Phontypridd. Gwyddwn fod fy mam yn hapus iawn bod fy ewythr yn gofalu amdanaf i fel hyn!

## Cam 7 - Cefndir:

**Gwylio a gwrando –** William Morgan a Chyfieithu'r Beibl

Yn yr adran hon, ceir tri fideo byr yn cyflwyno hanes cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg ac effaith y cyfieithiad hwnnw ar y Gymraeg a llenyddiaeth Gymraeg. Mae'n bosib y byddai'n ormod i chi wylio'r tri fideo mewn un wers, felly dylech wneud y gwaith mewn modd sy'n briodol i'ch dosbarth chi. Ceir adran 'Siaradwch' ar gyfer pob fideo, ond syniadau'n unig yw'r rhain ac mae croeso i chi drafod unrhyw fater arall sy'n codi wrth wylio'r fideos.

**Fideo 1: Mae Beibl William Morgan a gyhoeddwyd yn 1588 yn garreg filltir bwysig yn hanes y Gymraeg ond pwy oedd William Morgan?**

**Ar ôl gwylio'r fideo, atebwch y cwestiynau isod.**

1. Esboniwch sut cafodd William Morgan ei addysg.
Cafodd William Morgan ei fagu yn Nhŷ Mawr Wybrnant, a oedd yn rhan o Ystâd Gwydir ac felly'n eiddo i'r Teulu Wynn. Oherwydd ei fod e'n fachgen galluog, cafodd ei addysgu ym Mhlas Gwydir gyda thiwtor meibion y plas, ac wedi hynny – efallai trwy gysylltiadau'r Teulu Wynn â Choleg Sant Ioan yng Nghaergrawnt – aeth i astudio ym Mhrifysgol Caergrawnt.

2. Gofynnir i barau ysgrifennu brawddeg sy'n cynnwys **yn berchen**.
Brawddeg enghreifftiol: Dw i'n rhentu fy nghartref felly dw i ddim yn berchen arno fe.

Ystyr **yn eiddo i** yw *property of*. Beth yw'r ymadroddion isod yn Gymraeg? Mae pob un yn gysylltiedig â'r gair **eiddo**.

| | |
|---|---|
| *Yours truly* | Yr eiddoch yn gywir |
| *envious* | eiddigeddus |
| *lost property* | eiddo coll |

3. Mae Dr Eryn White yn dweud bod y Teulu Wynn yn "... deulu mawr ... un o deuluoedd mwyaf Cymru ar y pryd."
Beth ydych chi'n meddwl yw ystyr **mawr** a **mwyaf** yn y frawddeg yma? Allwch chi feddwl am eiriau eraill yn Gymraeg sy'n cyfleu'r un ystyr? Nodwch nhw yn y blwch isod.

Geiriau posib: pwysig, pwerus, grymus, galluog, nerthol, dylanwadol, arwyddocaol.

**Siaradwch: Rhannwch y dobarth yn grwpiau bach.**

**Fideo 2: Digwyddiadau pwysig cyn cyfieithu'r Beibl**

Mae'r fideo hwn yn sôn am ddyn pwysig yn hanes llenyddiaeth Gymraeg, sef William Salesbury.

1. Pam roedd William Salesbury yn ysgrifennu 'Deo' yn lle 'Duw' yn ei gyfieithiad o'r Testament Newydd?

Roedd William Salesbury yn awyddus i ddangos y cysylltiad rhwng y Gymraeg a'r

Lladin er mwyn codi statws y Gymraeg, ac felly'n ysgrifennu fersiwn Ladin y gair yn lle'r fersiwn Gymraeg.

2. Pam roedd Elisabeth y Cyntaf yn awyddus i gael cyfieithiad Cymraeg o'r Beibl?
Roedd hi eisiau sicrhau bod y Cymry'n Brotestaniaid da, ac felly'n ffyddlon iddi hi.

3. Wrth drafod cyfieithiad William Salesbury o'r Testament Newydd, mae Dr Eryn White yn dweud, "Mae rhywun yn gallu gweld yn syth pam fod angen treigladau yn y Gymraeg." e.e. Mae rhywun yn gallu gweld yn syth pam fod angen gwisgo esgidiau addas ar y llwybr yma. Ar ôl i barau greu o leiaf un frawddeg yr un, dylent ddewis un ohonyt, ei dysgu a chodi ar eu traed i gyfnewid y brawddegau.

**Siaradwch – Treiglo**
Rhannwch yn grwpiau ar gyfer y gwaith llafar.

**Fideo 3**

**Effaith a dylanwad y Beibl**

1. Beth oedd yn arbennig am Feibl William Morgan, yn ôl Dr Eryn White?
Dangosodd Beibl William Morgan fod y Gymraeg yn gallu bod yn iaith lenyddol wych. Roedd safon uchel y cyfieithiad yn fodel ac yn ganllaw i bobl i'w helpu i ysgrifennu'n Gymraeg. Yn ôl Dr Eryn White, mae'n 'anodd curo'r farddoniaeth' ym Meibl William Morgan.

2. Beth ddigwyddodd yn 1630 i helpu pobl i ddarllen y Beibl yn eu cartrefi?
Cyhoeddwyd y 'Beibl Bach' yn 1630. Roedden nhw'n ddigon bach i bobl eu cadw yn eu cartrefi, ac o hynny ymlaen roedd pobl yn gallu darllen y Beibl ar eu pen eu hunain.

3. Mae Dr Eryn White yn dweud mai 'cychwyn y broses' o achub yr iaith Gymraeg oedd cyfieithiad William Morgan o'r Beibl. Mae **cychwyn** yn cael ei ddefnyddio'n fwy aml yn y gogledd na'r de i olygu **dechrau,** ond defnyddir rhai ymadroddion sy'n cynnwys **cychwyn** yn y de a'r gogledd. Beth yw ystyr:

| | |
|---|---|
| **man cychwyn** | ***starting place*** |
| **o'r cychwyn cyntaf** | ***from the very beginning*** |

**Siaradwch**
Rhannwch y dosbarth yn grwpiau.

**Darllen - Y Beibl ac Addysg**

Dyma'r atebion.

1. Beth oedd oed Griffith Jones pan benderfynodd ddechrau'r ysgolion?

**48**

2. Pam roedd ysgolion Griffith Jones yn cael eu galw yn ysgolion 'cylchynol'?

**Am eu bod yn symud o amgylch o un cylch (ardal) i'r llall ar draws y wlad**.

3. Mae'r darn yn sôn am faint o lyfrau a gafodd eu cyhoeddi rhwng 1700 ac 1799.

i. Beth ydyn ni'n galw'r ganrif honno?

ii. Beth am y ganrif sy'n dilyn?

iii. Ym mha ganrif gafodd y Beibl ei gyfieithu?

**i. Y ddeunawfed ganrif**

**ii. Y bedwaredd ganrif ar bymtheg**

**iii. Yr unfed ganrif ar bymtheg**

4. Sut basech chi'n cyfieithu **y werin** i'r Saesneg?

**Anodd ei gyfieithu! Bydd y gair Saesneg 'folk' yn cael ei gynnig (efallai bydd rhai yn gyfarwydd â'r term 'Canu Gwerin' sy'n cael ei gyfieithu i 'Folk Singing'). Wrth gyfeirio at bobl gyffredin yn y gorffennol, byddwn yn meddwl am bobl oedd â statws cymdeithasol is heb fanteision addysg a chyfoeth. Gair anodd ei ddiffinio wrth drafod Cymru heddiw ond bydd yn aml yn cael ei ddefnyddio fel gwrthwyneb i'r 'crachach'!**

5. Sawl gwaith rydych chi'n darllen y gair 'cylch' (wedi ei dreiglo neu yn rhan o air arall)? Beth yw'r ystyr bob tro?

**o amgylch** **o gylch i gylch (o ardal i ardal)** **cylchynol**

**Gwylio a gwrando 2: Mari Jones a Thomas Charles**

Gofynnir i'r dysgwyr ysgrifennu cwestiynau i'w gofyn i aelodau'r dosbarth am y ddau berson sy'n cael eu trafod yn y fideo. Byddai disgwyl i'r cwestiynau roi atebion fel y rhai isod.

| Mari Jones | Thomas Charles |
|---|---|
| **- Ganwyd hi yn 1784<br>- Merch i wehyddion (Jacob a Mary Jones)<br>- Magwyd hi mewn bwthyn o'r enw Tyn-y-ddol ym mhentref Llanfihan-gel-y-Pennant<br>- Bywyd tlawd ac anodd (bu farw ei thad pan oedd hi'n 4 oed).<br>- Wedi cynilo i brynu Beibl ei hun am flynyddoedd (o 9 oed i 15 oed).<br>- Cerddodd 28 milltir o'i chartref i'r Bala i brynu Beibl (taith a gafodd ddylanwad byd-eang).<br>- Cafodd 5 o blant ond bu farw 4 ohonynt.** | **- Gweinidog yn ardal y Bala.<br>- Enw ei wraig oedd Sally.<br>- Rhoddodd 3 Beibl i Mari.<br>- Cyflwynodd y syniad o ddarparu beiblau fforddiadwy i bobl dlawd.<br>- Roedd yn rhan allweddol o sefydlu Cymdeithas y Beibl er mwyn cyfieithu a chynhyrchu beiblau i'w dosbarthu ar draws y byd.<br>-Sefydlodd ysgolion ac ysgolion Sul fu'n ddylanwadol iawn wrth ddysgu pobl i ddarllen ac ysgrifennu.** |

3. Rydych wedi clywed yr ymadrodd **gwneud siwrne o'r fath**. Cyfieithwch y canlynol: gan ddefnyddio 'math'. (Cofiwch dreiglo os oes angen).

| **Saesneg** | **Cymraeg** |
|---|---|
| *the first of its kind* | **Y cyntaf o'i fath** |
| *the kind of person who would lie* | **Y math o berson a fyddai'n dweud celwydd** |
| *I did nothing of the kind!* | **Wnes i ddim byd o'r fath!** |
| *There are several kinds of them* | **Mae sawl math ohonynt** |

Rydym yn defnyddio 'y math' i gyfieithu *the kind of* neu *the sort of*. Defnyddiwn 'y fath' i gyfieithu *of the kind* neu *such a*.

4. Beth yw arwyddocâd y llefydd hyn yn yr hanes?

| | |
|---|---|
| Y Bala | **Dyma lle'r oedd Thomas Charles yn byw. Daeth Mari yma i brynu Beibl ganddo.** |
| *Llanfihangel-y-Pennant* | **Y pentref lle ganwyd a lle magwyd Mari Jones.** |
| *Gwlad yr Haf* | **(Somerset yn Saesneg). Bu Thomas Charles yn gurad yno cyn symud i'r Bala.** |

| | |
|---|---|
| *Llundain* | **Lleoliad y cyfarfodydd lle y cynigiodd Thomas Charles y syniad o feiblau fforddiadwy a lle sefydlwyd Cymdeithas y Beibl** |
| *America* | **Yno yr ymfudodd yr unig blentyn i Mari Jones a oroesodd** |
| *Caergrawnt* | **Mae un o'r beiblau a roddwyd i Mari Jones gan Thomas Charles ym Mhrifysgol Caergrawnt** |
| *Aberystwyth* | **Mae un arall o'r beiblau a roddwyd i Mari Jones yn y Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth** |

5. Mae Nerys yn defnyddio'r gair **goroesi** ddwywaith. Am bwy / beth mae hi'n siarad?
Dau o'r tri Beibl a roddwyd i Mari Jones
Un o blant Mari Jones yn unig a oroesodd

**Dylanwad y Beibl ar y Gymraeg:**

Mae rhai dywediadau cyfarwydd o'r Beibl sy'n gyffredin yn y Saesneg a'r Gymraeg. Allwch chi gyfieithu'r rhain i'r Saesneg?

| Cymraeg | Saesneg |
|---|---|
| mynd o nerth i nerth | ***to go from strength to strength*** |
| llafur cariad | ***labour of love*** |
| llygad barcud | ***hawk-eyed*** |
| cig a gwaed | ***flesh and blood*** |
| halen y ddaear | ***salt of the earth*** |
| llygad am lygad | ***eye for an eye*** |
| Pa fodd y cwympodd y cedyrn? | ***how the mighty have fallen*** |
| y dall yn arwain y dall | ***the blind leading the blind*** |

## Cam 8 – Atgyfnerthu Geirfa Uned 6

Ceir gêm Kahoot i ymarfer Geirfa Uned 6: https://create.kahoot.it/share/uwch-3-geirfa-uned-6/80028493-0037-42c5-a847-ba14cb7883ac.

## Uned 6, Atodiad 1

| |
|---|
| Pryd ____________'r plant yn codi? |
| Beth _____________'n eich poeni chi? |
| Beth _____________'r peth yna yn y gornel? |
| Pa un ____________ yn yr ysbyty? |
| Ble ______________'r trên yn mynd? |
| Beth ______________'r gair yma'n ei feddwl? |
| Pwy ________________ hi'n feddwl ydy hi? |
| Pwy _________________'r garedicaf ohonyn nhw i gyd? |
| Pa un _________________'r pennaeth? |
| Pwy __________________'n feddyg? |
| Sut ___________________ gwneud hyn? |
| Pa un ________________'n ffres? |
| Pa un _________________'r un newydd? |
| Faint _________________ hi? |
| Faint ____________'n gwybod yr ateb? |

| | |
|---|---|
| mae | mae |
| mae | mae |
| mae | yw/ydy |
| yw/ydy | yw/ydy |
| yw/ydy | yw/ydy |
| sy | sy |
| sy | sy |
| sy | |

# Uned 7 Uwch 3

## Cam 1 – Siaradwch – Siarad Personol – Disgrifiwch y person mwyaf enwog rydych chi wedi cwrdd ag ef/â hi erioed

i) Rhannwch y dosbarth yn grwpiau, a gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau isod, sydd yn eu llyfrau cwrs:

- Beth sy'n gwneud rhywun yn enwog?
- Beth yw'r gwahaniaeth rhwng **enwog** ac **adnabyddus**?

  enwog = *famous, celebrated, noted* adnabyddus = *renowned, well known*
- Nodwch yn y blwch gategorïau gwahanol o bobl enwog, e.e. actorion

Enghreifftiau posib: actorion, gwleidyddion, cantorion, cerddorion, cyflwynwyr teledu, darlledwyr, newyddiadurwyr, arlunwyr, athletwyr, chwaraewyr pêl-droed/rygbi...

- Ym mha swyddi fasech chi'n debygol o gwrdd â phobl enwog?
- Beth dych chi'n ei feddwl o 'oes y selebs'?

ii) Rhannwch y dosbarth yn barau. Dangoswch luniau o dri o bobl enwog (yn y newyddion ar y pryd) i'r dosbarth, a gofynnwch i'r parau gyfnewid cymaint â phosib o wybodaeth amdano/amdani.

iii) Dosbarthwch gardiau'r enwogion i'r dosbarth (Atodiad 1). Os bydd mwy nag wyth yn y dosbarth, rhannwch y dosbarth yn ddau grŵp. Ceir saith o ffeithiau am bobl enwog. Rhaid iddynt roi'r cliwiau mewn brawddegau, un ar y tro, gan adael i bartner/y bobl eraill yn y grŵp gynnig enw ar ôl pob ffaith. Er mwyn ymarfer, dylid parhau i nodi'r holl gliwiau os bydd rhywun yn dyfalu cyn y cliw olaf.

iv) I gloi'r adran hon, holwch y dosbarth am enwau pobl enwog maen nhw wedi cwrdd â nhw. Gofynnwch iddynt sicrhau eu bod yn dweud rhywbeth am bob un o'r pwyntiau bwled:

- pam mae'r person yma'n enwog;
- pryd a ble y cwrddon nhw;
- beth oedd eu hargraff o'r person enwog;
- sut roedd y person yn wahanol neu'n debyg i'r person cyhoeddus;
- tasen nhw'n cwrdd â'r person yma eto, beth fasen nhw'n ei ddweud wrtho/wrthi.

## Cam 2 - Gwybodaeth o iaith – Llenwi'r bylchau

Dyma'r atebion:

Un o'r llefydd / lleoedd (lle) mwyaf diddorol yn y byd yw Uluru yng nghanolbarth Awstralia, ac mae'n lle y dylai pawb ymweld â fe rywbryd. Y maes awyr agosaf (agos) i'r mynydd ei hun yw'r un yn Alice Springs, ac mae'n dref sy'n dibynnu ar dwristiaid, oherwydd does dim byd arall i ddenu pobl yno. Mewn gwirionedd, mae'r twristiaid sy'n dod i Alice Springs yn mynd drwy'r dref ar y ffordd i weld Ayers Rock, neu Uluru yn iaith y brodorion. Fel arfer, maen nhw'n treulio diwrnod neu ddau yn Uluru mewn pabell cyn mynd adre.

Mae'r daith yn werth ei gwneud, wir i chi. Anghofiwch (anghofio) am bopeth rydych chi wedi'i ddarllen neu'i weld o'r blaen. Dydy gweld lluniau na gwylio ffilmiau ddim yn debyg i'r profiad o weld Uluru am y tro cyntaf, ac ni all yr un adolygiad gwyliau ail-greu'r argraff honno. Ychydig o flynyddoedd (blwyddyn) yn ôl, agorwyd (agor) man gwylio newydd gan lywodraeth yr ardal. Mae'n bosib i dwristiaid weld y graig o bersbectif gwahanol i'r un a welir ar gardiau post. Dwedodd rhywun wrthon ni am fynd i'r man gwylio hwn wrth i'r haul godi, felly dyna wnaethon (gwneud) ni. Roedd y lliwiau'n newid yn raddol, o borffor, i oren nes iddyn nhw droi'n goch. Doedd neb o'n grŵp ni'n siarad, a doedd dim sŵn i'w glywed, heblaw am glicio'r camerâu. Dw i'n meddwl bod pawb wedi cael profiad ysbrydol neu arallfydol o leiaf, fel tasen ni wedi mynd yn ôl i oes arall. Os cewch (cael) chi gyfle i fynd i Uluru, rhaid i chi fynd, ond peidiwch â mynd heb ddillad cynnes ... mae hi'n gallu bod yn oer ofnadwy yno yn oriau mân y bore!

**i) Ymarfer – Arddodiaid**

Esboniwch nad yw hi'n bosib gorffen brawddeg ag arddodiad heb ei redeg yn y Gymraeg. Edrychwch ar y frawddeg o'r darn:

Mae'n lle y dylai pawb ymweld **â fe/ ag o?**

Gorffennwch y brawddegau isod:

Dyma'r atebion (ond gellid esbonio nad oes rhaid dweud y fe/fo, a'i bod yn well hepgor y rhagenwau mewn cyd-destunau ffurfiol):

Mae'n lle y dylai pawb ddarllen amdano fe / fo.
Mae'n lle y dylai pawb chwilio amdano fe / fo.
Mae'n berson y dylai pawb ymddiried ynddo fe / fo.
Mae'n berson y dylai pawb wrando arno fe / fo.
Mae'n berson y dylai pawb ddiolch iddo fe / fo.
Mae'n berson y gall pawb ddibynnu arno fe / fo.
Mae'n berson y gall pawb siarad amdano fe / fo.

**i) Mewn/Yn**

Cyfieithwch yr isod gan ddefnyddio **mewn** neu **yn**:
Dyma'r atebion:

| | | |
|---|---|---|
| *in truth* | mewn gwirionedd | (o'r darn Llenwi bylchau) |
| *in the language of the natives* | yn iaith y brodorion | |
| *in love* | mewn cariad | |
| *in the early hours of the morning* | yn oriau mân y bore | |
| *to live in hope* | byw mewn gobaith | |
| *in some pamphlets* | mewn rhai pamffledi | |
| *basically* | yn syml, yn y bôn, yn fras | |
| *in the life of a famous person* | ym mywyd person enwog | |
| *in novels* | mewn nofelau | |
| *in Manon Steffan Ros' novels* | yn nofelau Manon Steffan Ros | |

Mae rhai rheolau y gellir eu tanlinellu yma:

- Defnyddir **mewn** gydag enwau haniaethol (mewn gwirionedd, mewn cariad, mewn gobaith)
- Defnyddio **mewn** o flaen **rhai** am fod **rhai** yn amhendant

**ii) Siaradwch**

Er mwyn ymarfer yr ymadrodd 'yn werth ei/eu...', gofynnwch i'r dosbarth drafod y canlynol mewn parau neu mewn grwpiau:

• Soniwch am daith sy'n werth ei gwneud.
• Soniwch am lyfr sy'n werth ei ddarllen.
• Soniwch am ffilm sy'n werth ei gweld.
• Soniwch am eitemau i'r tŷ sy'n werth eu prynu.

## Cam 3 - Gwrando – Trafodaeth

Yma, mae nifer o bobl yn siarad am y pwnc 'Deiet y Blaned' a bwyta'n iach. Daw'r darn o raglen BBC Radio Cymru, O'r Bae.

Cyflwynydd: Vaughan Roderick
Siaradwr 1: Elin Llŷr
Siaradwr 2: Ann Beynon
Siaradwr 3: Alun Hughes

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwrando.

**1.** Yn ôl Elin Llŷr, bydd rhaid i ffermwyr y dyfodol...
**a.** gynhyrchu dim ond bwyd organig.
**b.** addasu eu ffordd o fyw.
**c.** marchnata eu bwyd yn well.
**ch. cynhyrchu cig o ansawdd gwell.**

**2.** Ein problem fwya yn y wlad yma, yn ôl Ann Beynon, ydy...
**a.** ein bod ni'n dilyn America.
**b. faint mae pobl yn ei fwyta.**
**c.** sut mae pobl yn coginio bwyd.
**ch.** ein bod ni'n bwyta pethau fel pasta ac uwd.

**3.** Newidiodd Alun ei ffordd o fyw oherwydd...
**a. salwch.**
**b.** ei fod e'n bwyta llai o gig.
**c.** gordewdra.
**ch.** ei fod e'n rhoi 'sbeis' ar ei fwyd.

**4.** Yn ôl Alun ac Ann, mae tuedd gan Americanwyr...
**a.** i wneud llai o ymarfer corff.
**b.** i fwyta llawer o salads.
**c.** i fwyta bwyd 'cyflym'.
**ch. i fwyta gormod o fwyd.**

**5**. Mae Elin yn poeni am y deiet newydd oherwydd ei bod hi...
**a. eisiau bwyta mwy o wyau nag maen nhw'n ei awgrymu.**
**b.** yn meddwl bod wyau'n ofnadwy.
**c.** ddim eisiau newid ei ffordd o fyw.
**ch.** ddim yn cytuno â'r awgrymiadau sy ynddo.

**6.** Yn ôl Vaughan Roderick, y broblem yn yr ysgolion ydy eu bod nhw...
**a.** ddim yn dysgu plant i goginio'n iach.
**b. ddim yn rhoi bwyd iach i'r plant.**
**c.** ddim yn 'prosesu' bwyd.
**ch.** ddim yn dysgu plant i fwyta'n gymedrol.

**Ymadroddion**

Tynnwch sylw'r dysgwyr at yr ymadroddion defnyddiol isod a ddefnyddiwyd gan y siaradwyr. Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r bylchau ag un ohonynt bob tro:

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| gan gynnwys | o ran | ar werth | dod i arfer | rhywbeth o'i le |
| dw i'n amau | pob dim | araf bach | am wn i | yn hytrach na |

Dyma'r atebion:

1. Mae cynnydd yn nifer y cyffuriau anghyfreithlon sydd **ar werth** ar ein strydoedd.
2. Dydy e ddim wedi gwella'n llwyr, ond mae'n dod yn **araf bach**.
3. **Dw i'n amau** a fydd y staff yn ymdopi â'r system newydd.
4. Yn y de mae'n gyffredin defnyddio 'gyda fi' **yn hytrach na** 'gen i'.
5. Mae'r cwmni'n cynnig cymorth i fusnesau, **gan gynnwys** rhannu gwybodaeth a gwasanaeth cynghori.
6. Dw i wedi **dod i arfer** â thagfeydd bob bore ers symud i'r ddinas.
7. Rydyn ni mor lwcus bod y plant yn fodlon bwyta **pob dim**.
8. **Am wn i** , y peth mwyaf tebygol yw y bydd y staff yn mynd ar streic.
9. Roeddwn i'n gwybod bod **rhywbeth o'i le** pan oedden nhw deirawr yn hwyr.
10. **O ran** gwella trafnidiaeth gyhoeddus, mae angen trydaneiddio'r rheilffordd.

## Siaradwch – Gormod o ddim nid yw'n dda

Esboniwch yr ymadrodd uchod, a ddefnyddir gan Vaughan Roderick yn y darn hwn wrth drafod bwyd. Ond mae e hefyd wedi ei ddefnyddio wrth drafod llyfrau ar *Cymru Fyw:*

"Gormod o ddim nid yw'n dda," medden nhw, ond ydy hynny'n wir am lyfrau? Nid oes modd cael gormodedd yn y maes hwnnw, yn fy marn i. Mae fy mhartner yn gweld pethau'n wahanol. Dros y Sul felly, roedd hi'n bryd am y 'sort out' blynyddol. Tair tomen, felly: cadw, llofft ac Oxfam.

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach i drafod y cwestiynau a holwch ar y diwedd am y cyd-destunau lle basai rhywun yn defnyddio'r ymadrodd 'Gormod o ddim nid yw'n dda'.

- Ydych chi'n meddwl ei bod hi'n bosib cael gormod o lyfrau?
- Pa mor aml rydych chi'n cael clirio yn y tŷ?
- Ydych chi'n gallu meddwl am gyd-destunau lle basech chi'n defnyddio'r ymadrodd 'Gormod o ddim nid yw'n dda'?

## Cam 4 - Siarad – Pwnc llosg – Does dim angen siopau ar y stryd fawr erbyn hyn

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y canlynol mewn parau:

- Disgrifiwch eich patrwm siopa yn ystod yr wythnos diwetha.
- Disgrifiwch eich patrwm siopa yn ystod y mis diwetha.
- Gofynnwch i'r dysgwyr symud o gwmpas y dosbarth i ofyn y cwestiynau canlynol i'w gilydd:

Ble/Sut dych/dach chi'n gwneud y canlynol?

| **Enw** | **bancio** | **cyfarfod pobl yn yr ardal** | **cael presgripsiwn** |
|---|---|---|---|
| | | | |

- Beth sy yn eich stryd fawr agosa?
- Beth oedd yn arfer bod yn eich stryd fawr agosa, ond sy wedi diflannu erbyn hyn?
- Beth hoffech chi ei weld yn eich stryd fawr agosa?
- Ydy Covid-19 wedi newid arferion siopa?

I gloi, gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn grwpiau i drafod y datganiad: 'Does dim angen siopa ar y stryd fawr erbyn hyn'.

## Cam 5 - Gwybodaeth o iaith – Aralleirio

Gofynnwch i'r dysgwyr ailysgrifennu'r brawddegau isod gan ddefnyddio'r sbardun mewn prif lythrennau. Dylai'r frawddeg newydd fod mor agos â phosibl i'r frawddeg wreiddiol o ran ystyr. Mae'n bosibl y bydd angen treiglo'r gair sbardun yn yr ateb.

Dyma'r atebion:

**1.** 'Roedd yr ymarfer yn dda neithiwr,' meddai'r arweinydd.
**DWEDODD**
<u>Dwedodd yr arweinydd bod</u> yr ymarfer yn dda neithiwr.

**2.** Alla i ddim fforddio prynu'r llyfr arall.
**DRUD**
Mae'r llyfr arall <u>yn rhy ddrud (i fi/i mi).</u>

**3.** Doeddwn i ddim yn hoffi bod yn destun sbort.
**CHWERTHIN**
Doeddwn i ddim yn hoffi pobl yn chwerthin am fy mhen.

**4.** Ti sy ar fai.
**AR**
Arnat ti mae'r bai.

**5.** Mae John yn chwarae'n well nag unrhyw un arall yn y tîm ar hyn o bryd.
**GORAU**
John yw'r (chwaraewr) gorau yn y tîm ar hyn o bryd.

**6.** Ar ôl llawer o ymarfer, roedd Alys wedi dechrau teimlo'n fwy hyderus wrth yrru ei char newydd.
**MAGU**
Ar ôl llawer o ymarfer, roedd Alys wedi dechrau magu hyder wrth yrru ei char newydd.

**7.** Mae hi'n mwynhau'n fawr iawn yn y brifysgol.
**BODD**
Mae hi wrth ei bodd yn y brifysgol.

**8.** Doeddwn i ddim wedi clywed y stori o'r blaen.
**CYNTAF**
Dyna'r tro cyntaf i mi glywed y stori.

## Ymarfer

**Chwerthin am ben** – Rhowch gynnig ar y dril hwn fel dril dosbarth cyfan. Sicrhewch fod pawb yn deall beth yw'r frawddeg darged. Gellid drilio fel corws i ddechrau, ac yna drilio unigolion. Os oes angen rhagor o ymarfer, rhannwch y dosbarth yn barau i ddrilio ei gilydd.

| | |
|---|---|
| Mae pawb yn chwerthin am fy mhen i. | Does neb yn chwerthin am dy ben di. |
| Mae pawb yn chwerthin am ben Siôn. | Does neb yn chwerthin am ei ben e. |
| Mae pawb yn chwerthin am ben Siân. | Does neb yn chwerthin am ei phen hi. |
| Mae pawb yn chwerthin am ben y plant. | Does neb yn chwerthin am eu pennau nhw / am ben y plant. |

| | |
|---|---|
| Mae pawb yn chwerthin am ein pennau ni. | Does neb yn chwerthin am ein pennau ni / am eich pennau chi. |
| Mae pawb yn chwerthin am dy ben di. | Does neb yn chwerthin am fy mhen i. |

**Dyna'r tro cyntaf i mi/fi... –** Ewch drwy'r un camau â'r dril uchod. Mae'r dril cyntaf yn gofyn am ddisodli'r person a'r ail ddril yn gofyn am ddisodli'r ferf.

| | |
|---|---|
| Fuest ti yn Ffrainc o'r blaen? | Naddo, dyna'r tro cyntaf i fi fod yno. |
| Fuodd e yn Sbaen o'r blaen? | Naddo, dyna'r tro cyntaf iddo fe/fo fod yno. |
| Fuodd hi yn Yr Eidal o'r blaen? | Naddo, dyna'r tro cyntaf iddi hi fod yno. |
| Fuon nhw yn Awstria o'r blaen? | Naddo, dyna'r tro cyntaf iddyn nhw fod yno. |
| Fuoch chi yn Sweden o'r blaen? | Naddo, dyna'r tro cyntaf i ni fod yno. |
| Fuest ti yn Iwerddon o'r blaen? | Naddo, dyna'r tro cyntaf i fi/mi fod yno. |
| Fuoch chi'n sgio cyn hyn? | Naddo, dyna'r tro cyntaf i ni sgio erioed. |
| Fuoch chi'n nofio cyn hyn? | Naddo, dyna'r tro cyntaf i mi nofio erioed. |
| Fuoch chi'n sglefrio cyn hyn? | Naddo, dyna'r tro cyntaf i mi sglefrio erioed. |
| Fuoch chi'n dysgu iaith cyn hyn? | Naddo, dyna'r tro cyntaf i mi ddysgu iaith erioed. |
| Fuoch chi'n pobi cyn hyn? | Naddo, dyna'r tro cyntaf i mi bobi erioed. |

**Siaradwch – magu hyder**

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod p'un ai a oes angen iddyn nhw fagu hyder yn un neu fwy o'r isod. Trafodwch sut gallent wneud hynny.

siarad Cymraeg     siarad cyhoeddus     defnyddio cyfrifiadur

## Cam 6 - Cymraeg ffurfiol – trydydd person presennol

Nod yr adran hon yw cyflwyno ffurfiau cryno ffurfiol ar gyfer y trydydd person presennol, sy'n codi'n aml mewn llenyddiaeth ac ar lafar. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl beth yw'r berfau isod. Dyma'r atebion:

| | |
|---|---|
| Pwy a ŵyr? | gŵyr – gwybod |
| Gwyn y gwêl y frân ei chyw. | gwêl – gweld |
| Saif y castell ar y bryn. | saif – sefyll |
| Amser a ddengys. | dengys – dangos |
| Gall pawb ymuno â ni. | gall – gallu |
| Â'r Prif Weinidog ar daith o gwmpas y wlad. | â – mynd |
| Daw cyfle arall eto. | daw – dod |
| Dywed pedwar o bump o oedolion eu bod yn iach. | dywed - dweud |

## Cam 7 - Cefndir: Mudiadau Cymraeg

**Cyflwyno Merched y Wawr**

**i)** Y tebygrwydd yw y bydd pawb yn gwybod rhywbeth am Ferched y Wawr. Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i gyfnewid gwybodaeth a nodwch y ffeithiau ar y bwrdd gwyn.

**ii)** Yna, darllenwch y cyflwyniad i Ferched y Wawr, gan esbonio unrhyw eirfa anghyfarwydd. Gellid gofyn i'r dysgwyr ddarllen brawddeg neu ddwy ar goedd, neu ddarllen y darn mewn grwpiau neu barau.

**iii) Gwylio a gwrando**

Fideo o'r flwyddyn 2018 yw'r testun, sy'n sôn am arddangosfa Llyfrau Lloffion Merched y Wawr yn y Llyfrgell Genedlaethol, a dathliadau 200fed rhifyn Y Wawr. Ceir trawsgrifiad o'r fideo ar ddiwedd y canllawiau (Atodiad 3).
Mae un o'r siaradwyr yn cyfeirio at wefan Casgliad y Werin. Ar ôl cwblhau tasg y fideo, gallech edrych ar y wefan hon yn y dosbarth, neu annog eich dysgwyr i wneud hynny gartref. Ceir arni filoedd o luniau a fideos, gan gynnwys Llyfrau Lloffion Merched y Wawr: www.casgliadywerin.cymru. Gellid gofyn i'r dysgwyr bori yn y casgliad fel gwaith cartref a dewis un llun i sôn amdano yn y dosbarth.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwylio a gwrando.
Wrth wylio'r fideo am y tro cyntaf, gofynnwch i'r dysgwyr gylchu'r geiriau a nodwyd yn y cwrslyfrau.

Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y gosodiadau isod gyda'u partner, a dewis yr atebion cywir. Dyma'r atebion:

1. Roedd pedwar deg o ganghennau wedi cystadlu yng nghystadleuaeth y Llyfr Lloffion.

**Gwir** Gau

2. Dwy fenyw oedd yn beirniadu'r gystadleuaeth.

Gwir **Gau** - Siân Lewis a dwy arall fu'n beirniadu'r gystadleuaeth

3. Cangen Bryncroes a enillodd y gystadleuaeth.

**Gwir** Gau

4. Mae'n rhaid i chi fod yn aelod o Merched y Wawr i ddarllen Y Wawr.

Gwir **Gau** - "mae rhywbeth i bawb ynddo fo", yn ôl Meryl Davies.

Gofynnwch i'r dysgwyr gysylltu'r enwau â'r disgrifiadau a'r dyfyniadau cywir. Dyma'r atebion:

**Mari Grug – Cyflwynydd *Heno***
"Ie, croeso'n ôl i chi i Westy'r Conrah, lle mae 'na griw o Ferched y Wawr wrthi'n dathlu heddi'..."
**Sandra Morris Jones – Llywydd Cenedlaethol Merched y Wawr**
"Ac mae'n werth ei ddarllen, os ca' i ddweud, fel pob un o'r ddau gant rhifyn..."
**Siân Lewis – Cyn-olygydd *Y Wawr***
"Wel o'dd e'n dipyn o fraint ac yn fraw a dweud y gwir achos o'dd cymaint o amrywiaeth..."
**Helgard Krause – Prif Weithredwr Cyngor Llyfrau Cymru**
"O, yn hollbwysig yn y cyfnod yma nawr lle mae lot o bobl yn troi at y we a'r cyfryngau digidol..."
**Meryl Davies – Is-olygydd cynorthwyol *Y Wawr***
"...mi gawson ni'r syniad o gael cystadleuaeth llyfr lloffion sydd rŵan yn crynhoi holl ddathliadau'r canghennau i gyd dros y flwyddyn."
**Catrin Stevens – Golygydd rhifyn y dathlu**
"Mae hwn yn ein tynnu ni at ein gilydd fel mudiad..."

Tynnwch sylw'r dysgwyr at ymadrodd a ddefnyddir gan Mari Grug yn y fideo, sef "go arbennig". Esboniwch ein bod yn defnyddio go i olygu i raddau, eithaf neu gweddol (fel *quite* neu *rather* yn Saesneg), neu iawn (*very*), fel yn yr achos yma. Gofynnwch iddynt feddwl am enghreifftiau eraill o ansoddeiriau Cymraeg sy'n cael eu defnyddio gyda **go**, a'u nodi yn y blwch. Dyma rai enghreifftiau: go lew, go dda, go iawn, go brin, go ddifrifol. Gellid trafod pryd y byddai pobl yn defnyddio'r ymadroddion hynny.

I gloi'r gwaith ar y fideo, trafodwch y pynciau a nodir yn y cwrslyfr (gweler isod), neu unrhyw beth arall a fydd wedi codi'n naturiol wrth wylio'r fideo.

- Ydych chi'n cadw llyfr lloffion, neu oeddech chi'n cadw llyfr lloffion pan oeddech chi'n iau? Siaradwch amdano.
- Fyddwch chi'n argraffu ffotograffau a'u rhoi nhw mewn albwm?
- Ydych chi'n aelod o glwb cymdeithasol fel Merched y Wawr?
- Pa glybiau yr hoffech chi eu cael yn eich ardal chi?

iv) Gellid gwahodd aelod o gangen leol/Swyddog Datblygu Merched y Wawr i'r dosbarth i hysbysebu canghennau lleol.

**Cyflwyno Mudiad Meithrin**

i) Cyn dechrau ar y gwaith, trafodwch y logo Mudiad Meithrin sydd yn y cwrslyfr. Ydyn nhw'n gyfarwydd â'r logo? Ydyn nhw'n gwybod unrhyw beth am Mudiad Meithrin? Rhannwch nhw'n grwpiau i drafod a chynhaliwch sesiwn adrodd yn ôl.

ii) Mae 12 cerdyn gwybodaeth am Mudiad Meithrin yn Atodiad 2. Gan ddibynnu ar faint eich dosbarth, rhowch gerdyn neu ddau i bob aelod o'r dosbarth. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr godi ar eu traed i gasglu gwybodaeth oddi wrth ei gilydd er mwyn ateb y cwestiynau yn eu llyfrau cwrs. Dylai'r dysgwyr wneud ymgais i aralleirio'r wybodaeth ar y cardiau yn hytrach na darllen.

Os ydych yn dysgu dosbarth rhithiol, anfonwch atebion 1-6 at hanner y dosbarth ymlaen llaw, ac atebion 7-12 at yr hanner arall. Byddwch chi wedyn yn gallu creu parau i'r dosbarth gyfnewid atebion.

Dyma'r atebion:

1. Beth oedd enw gwreiddiol Mudiad Meithrin?
**Enw gwreiddiol Mudiad Meithrin oedd Mudiad Ysgolion Meithrin.**
2. Pryd newidiwyd enw'r Mudiad, a pham?
**Newidiwyd yr enw yn 2011 pan oedd y Mudiad yn dathlu ei ben-blwydd yn 40, oherwydd bod y Mudiad yn darparu llawer mwy nag ysgolion meithrin erbyn hynny, ac yn cael ei ystyried yn 'arbenigwr blynyddoedd cynnar'.**
3. Pryd sefydlwyd y Mudiad?
**Sefydlwyd y Mudiad Ysgolion Meithrin yn 1971 er mwyn darparu ysgolion meithrin Cymraeg led-led Cymru.**
4. Roedd dosbarthiadau meithrin gwirfoddol yn cael eu cynnal cyn sefydlu'r Mudiad. Ble cafodd y dosbarthiadau cyntaf eu cynnal yn 1943?
**Cynhaliwyd y dosbarthiadau meithrin Cymraeg cyntaf yng Nghaerdydd a Chaerfyrddin.**
5. Erbyn 1981, sut roedd darpariaeth addysg feithrin Gymraeg wedi datblygu?

**Roedd 350 o gylchoedd meithrin a 40 o gylchoedd Ti a Fi yn bodoli ym mhob cwr o Gymru.**

6. Yn ôl ystadegau Cyfrifiad 1981, pa effaith a gafodd Mudiad Meithrin ar nifer y siaradwyr Cymraeg 3-4 oed?

**Yng Nghyfrifiad 1981, nodwyd bod nifer y siaradwyr Cymraeg 3-4 oed wedi cynyddu o 11.3% i 13.3%.**

7. Beth oedd nifer y siaradwyr Cymraeg 3-4 oed yng Nghyfrifiad 2011?

**Ym mhob cyfrifiad ar ôl 1981, cafwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3-4 oed. 23.3 oedd y ganran erbyn 2011.**

8. Tua faint o staff cyflogedig sydd gan y Mudiad?

**Erbyn heddiw, mae tua 200 o staff cyflogedig gan y Mudiad.**

9. Tua faint o staff sy'n gweithio yng Nghylchoedd Meithrin y Mudiad?

**Mae tua 1,500 o bobl yn gweithio yng nghylchoedd meithrin Mudiad Meithrin.**

10. Ble mae Canolfannau Integredig Mudiad Meithrin?

**Mae Canolfannau Integredig Mudiad Meithrin yn Aberystwyth a Llangefni.**

11. Beth sydd yn y Canolfannau Integredig?

**Yn y Canolfannau Integredig, mae swyddfeydd Mudiad Meithrin, meithrinfeydd dydd, cylchoedd meithrin a gwasanaeth a chefnogaeth ychwanegol i rieni.**

12. Pwy sy'n cynrychioli Mudiad Meithrin ers 2009, a phwy oedd yn cynrychioli'r Mudiad cyn hynny?

**Yn y dyddiau cynnar, cartwnau o fachgen a merch - Mabon a Mabli - oedd yn cynrychioli'r Mudiad. Ers 2009, mae Dewin a Doti wedi cymryd eu lle, ac yn boblogaidd iawn gyda phlant bach.**

iii) **Gwrando a deall: Rhaglen Al Hughes, 29 Mawrth 2019.**

Eitem fer o raglen Aled Hughes yw'r darn gwrando. Mae'n ddarn gwahanol i'r arfer oherwydd ei fod yn cynnwys cyfraniadau gan blant ifanc, yn siarad am Dewin a Doti. Bydd y darn yn heriol i'r dysgwyr, ond pwysleisiwch nad oes disgwyl iddynt ddeall pob gair. Nid oes cwestiynau manwl i'w hateb – dim ond casglu gwybodaeth fras. Ceir trawsgrifiad o'r clip radio yn Atodiad 4.

i) Gofynnwch i'r dysgwyr wneud nodiadau wrth wrando ar y darn.

ii) Rhannwch y dysgwyr yn barau neu grwpiau i drafod yr wybodaeth a gasglwyd ganddynt.

iii) I gloi, trafodwch y pynciau a nodir yn y llyfr cwrs ac unrhyw beth arall a fydd wedi codi'n naturiol wrth wrando ar yr eitem.

- Fuoch chi mewn ysgol feithrin neu gylch meithrin cyn dechrau'r ysgol? Ydych chi'n cofio unrhyw beth am y dyddiau hynny?
- Pa mor bwysig yw addysg feithrin yn eich barn chi? Neu ydy hi'n well i blant bach dreulio amser gyda'u teuluoedd?
- Ydych chi'n credu dylai plant bach fod yn dysgu trwy chwarae neu'n dysgu mewn ffordd fwy traddodiadol?
- Tasai gennych chi arian i'w wario ar hybu'r Gymraeg, fyddech chi'n ei wario ar addysg feithrin Gymraeg, neu ar Gymraeg i Oedolion? Esboniwch eich rhesymau.

## Cam 8 – Atgyfnerthu Geirfa Uned 7

Ceir set o gardiau pelmanism yn Atodiad 5. Dylid rhoi'r cardiau i gyd ben i waered yn eu colofnau – gair + diffiniad. Rhaid i'r parau droi dau gerdyn ar hap y tro cyntaf, ac yna ceisio cofio lle mae'r diffiniadau cywir. Os bydd dysgwr yn creu pâr cywir, mae'n cael cadw'r cardiau. Pan fydd y geiriau i gyd wedi'u paru, dylid edrych ar y diffiniadau a chofio beth yw'r geiriau. Os byddwch chi'n dysgu dosbarth rhithiol, gellid dangos y diffiniadau mewn sleid PowerPoint, gan roi digon o gyfle i bawb feddwl am bob ateb, cyn mynd dros yr arebion.

# Uned 7 - Atodiad 1

| | |
|---|---|
| geni – 8 Ionawr 1935 | geni – 1545 |
| marw – 16 Awst 1977 | marw – 10 Medi 1604 |
| dechrau gyrfa – 1954 | enw'r tŷ – Tŷ Mawr y Wybrnant |
| dod o – Memphis | prifysgol – Coleg Sant Ioan, Caergrawnt |
| record gynta – 'Heartbreak Hotel' | swydd – Esgob Llanelwy 1601-1604 |
| enw gwraig – Priscilla | cyhoeddi ei waith mawr – 1588 |
| llysenw – Brenin Roc a Rôl | cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg |
| **Elvis Presley** | **Yr Esgob William Morgan** |

| | |
|---|---|
| geni – 15 Tachwedd 1897 | geni – 26 Gorffennaf 1969 |
| marw – 6 Gorffennaf 1960 | man geni – Caerdydd |
| man geni – Tredegar | aelod o Orsedd y Beirdd |
| gwaith cynnar – pwll glo | aelod o Dŷ'r Arglwyddi |
| enw gwraig – Jennie Lee | capten tîm Cymru yng ngemau'r Gymanwlad |
| aelod o'r Blaid Lafur | 11 medal Olympaidd |
| sefydlu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol | athletwraig cadair olwyn |
| **Aneurin Bevan** | **Tanni Grey-Thompson** |

| | |
|---|---|
| geni – 9 Hydref 1940 | geni – 15 Hydref 1893 |
| marw – 8 Rhagfyr 1980 | marw – 1 Medi 1985 |
| grŵp cynta – The Quarrymen | gwaith – darlithydd prifysgol |
| chwarae'r gitâr a'r piano | dramodydd |
| cân enwocaf – 'Imagine' | dwy ddrama enwog – 'Siwan', 'Blodeuwedd' |
| enw gwraig – Yoko Ono | 1962 – darlith Tynged yr Iaith |
| aelod o'r Beatles | llosgi'r Ysgol Fomio gyda DJ Williams a Lewis Valentine |
| **John Lennon** | **Saunders Lewis** |

| | |
|---|---|
| geni – 17 Ionawr 1863 | geni – 11 Ebrill 1969 |
| marw – 26 Mehefin 1945 | man geni – Caerdydd |
| enwau gwragedd – Margaret a Frances | siarad Cymraeg, Saesneg, Sbaeneg, Ffrangeg |
| gwaith – cyfreithiwr a gwleidydd | chwarae'r gitâr |
| byw – Llanystumdwy, Gwynedd | cantores |
| aelod o'r Blaid Ryddfrydol | cyflwyno rhaglenni radio |
| Prif Weinidog Prydain yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf | canu gyda Catatonia |
| **Lloyd George** | **Cerys Matthews** |

# Uned 7 - Atodiad 2
# Cardiau gwybodaeth Mudiad Meithrin

| | |
|---|---|
| Enw gwreiddiol Mudiad Meithrin oedd Mudiad Ysgolion Meithrin. | Sefydlwyd y Mudiad Ysgolion Meithrin yn 1971 er mwyn darparu ysgolion meithrin Cymraeg led-led Cymru. |
| Roedd ysgolion meithrin Cymraeg yn cael eu cynnal yn wirfoddol cyn sefydlu'r Mudiad. Yn 1943, cynhaliwyd y dosbarthiadau meithrin Cymraeg cyntaf yng Nghaerdydd a Chaerfyrddin. | Erbyn 1981, roedd 350 o gylchoedd meithrin a 40 o gylchoedd Ti a Fi yn bodoli ym mhob cwr o Gymru. |
| Yng Nghyfrifiad 1981, nodwyd bod nifer y siaradwyr Cymraeg 3-4 oed wedi cynyddu o 11.3% i 13.3%. | Ym mhob cyfrifiad ar ôl 1981, cafwyd cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg 3-4 oed. 23.3 oedd y ganran erbyn 2011. |
| Erbyn heddiw, mae tua 200 o staff cyflogedig gan y Mudiad. | Mae tua 1,500 o bobl yn gweithio yng nghylchoedd meithrin Mudiad Meithrin. |
| Pan oedd y Mudiad yn dathlu ei ben-blwydd yn 40 yn 2011, penderfynwyd newid yr enw i Mudiad Meithrin oherwydd bod y Mudiad yn darparu llawer mwy nag ysgolion meithrin erbyn hynny, ac yn cael ei ystyried yn 'arbenigwr blynyddoedd cynnar'. | Mae dwy Ganolfan Integredig gan y Mudiad; un yn Aberystwyth a'r llall yn Llangefni, Ynys Môn. |
| Yn y Canolfannau Integredig, mae swyddfeydd Mudiad Meithrin, meithrinfeydd dydd, cylchoedd meithrin a gwasanaeth a chefnogaeth ychwanegol i rieni. | Yn y dyddiau cynnar, cartwnau o fachgen a merch - Mabon a Mabli - oedd yn cynrychioli'r Mudiad. Ers 2009, mae Dewin a Doti wedi cymryd eu lle, ac yn boblogaidd iawn gyda phlant bach. |

# Uned 7 - Atodiad 3
# Trawsgrifiad Gwylio a gwrando

**Mari Grug:** Ie, croeso'n ôl i chi i westy'r Conrah, lle mae 'na griw o Ferched y Wawr wrthi'n dathlu heddi': dathlu rhifyn dau gant o gylchgrawn Y Wawr. Ond cyn i ni gael yr hanes yn llawn, yn gynharach heddi' bues i i'r Llyfrgell Genedlaethol i weld arddangosfa go arbennig.

**Meryl Davies:** O'n i'n Llywydd Pwyllgor y Dathlu dros flwyddyn y dathlu yn gwneud trefniadau'r dathlu. Ac wedyn mi gaethon ni'r syniad o gael cystadleuaeth llyfr lloffion sydd rŵan yn crynhoi holl ddathliadau'r canghennau i gyd dros y flwyddyn.

**Siân Lewis:** Roedd pedwar deg o ganghennau wedi cystadlu... gwaith amrywiol iawn... gwaith llawn dychymyg a llawn bwrlwm a ges i'r fraint o feirniadu'r gystadleuaeth, gyda dwy arall, cofiwch. Ac mae'r llyfrau lloffion i gyd yn yr arddangosfa yn y Llyfrgell, i'w gweld gan bawb.

**MD:** Dan ni wedi cael cydweithio hapus iawn efo'r Llyfrgell Genedlaethol cyn y dathlu ac yn sicr dros flwyddyn y dathlu. Maen nhw wedi rhoi holl ddigwyddiadau'r dathlu, yr holl atgofion a gasglwyd gan bawb at Gasgliad y Werin a hefyd y llyfrau lloffion rŵan yn fyw ar Gasgliad y Werin a dan ni'n ddiolchgar iawn iddyn nhw am y cydweithio dan ni wedi'i gael.

**SL:** Dw i'n siŵr [y bydd] y canghennau sydd wedi cystadlu yn trysori eu llyfrau lloffion am flynyddoedd i ddod. Byddan nhw'n edrych yn ôl ar eu llyfr lloffion ac yn cofio'r holl hwyl gawson nhw ym mlwyddyn y dathlu.

**MG:** Ac wrth gwrs, mae cylchgrawn Y Wawr yn rhan bwysig o'r dathlu.

**MD:** O yndi tad, ac yn ychwanegol at y dathlu cyffredinol, mae'r Wawr yn 200fed rhifyn a dan ni'n dathlu hynny heddiw ac mae hwnnw yma hefyd yn y casgliad ar gael i bawb... ar gael i'r rhai sydd ddim yn aelodau hefyd – maen nhw ar werth yn eich siopau chi. Felly prynwch o os nad dach chi'n aelod o Ferched y Wawr, ar bob cyfri, prynwch o. Mae rhywbeth i bawb ynddo fo.

**MG:** Ie, mae'r arddangosfa 'mlaen yn y Llyfrgell Genedlaethol tan yr wythfed o Fai. Ond Y Wawr sy'n cael ein sylw ni nesaf ac yma'n gwmni i fi nawr mae'r Llywydd Cenedlaethol, Sandra Morris Jones a dw i'n siŵr ei fod e'n destun balchder i chi bod rhifyn 200 bellach ar gael.

**Sandra Morris Jones:** Wel yn sicr! Ac mae'n werth ei ddarllen os ca' i ddweud, fel pob un o'r ddau gant rhifyn ... ond mae heddi'n gyfle jyst i gwrdd â'n gilydd a diolch i rai sydd o'r dechre tan heddi' yn gweithio mor galed i'w roi at ei gilydd – gwirfoddolwyr oll.

**MG:** Grêt, wel joiwch y dathlu, Sandra, ac yn gwmni fan hyn nawr 'te mae 'na ddwy sydd wedi bod yn siarad yn yr achlysur, Helgard Krause, Prif Weithredwr Cyngor Llyfrau Cymru ... Pa mor bwysig yw cyfraniad cylchgrawn Y Wawr i lenyddiaeth Cymru?

**Helgard Krause:** O, yn hollbwysig. Yn y cyfnod nawr ble mae lot o bobl yn troi at y we a'r cyfryngau digidol... i gael rhywbeth ar bapur,[mae] cylchgrawn dach chi'n gallu darllen yn hollbwysig i roi y cynnwys... amrywiaeth i ferched... i ddysgwyr... mae sawl

bobl [sic] yn mwynhau darllen cylchgronau. Dyna un o'r rhesymau pam mae'r Cyngor Llyfrau yn cefnogi cylchgronau fel Y Wawr ac mae'n hollbwysig eu bod nhw'n bodoli.

**MG:** A dw i'n sicr bod Merched y Wawr yn falch iawn o'r gefnogaeth honno. Ce'wch i joio nawr 'te Helgard, neis cael gair, a Catrin Stevens, y'ch chi wedi bod yn gweithio'n ddyfal iawn gyda cylchgrawn Y Wawr. Chi yw golygydd rhifyn y dathlu ac o'dd hynny'n dipyn o fraint dw i'n siŵr.

**Catrin Stevens:** Yn fraint fawr ac yn bleser a dweud y gwir. Dw i mor falch bod gyda ni gyfranwyr o ledled Cymru ... pawb yn fodlon anfon eu herthyglau i mewn, mewn pryd, a lluniau bendigedig, a dyna sy'n bwysig... mae hwn yn tynnu ni at ein gilydd fel mudiad... pawb yn gweithio 'da'i gilydd i sicrhau bod y cylchgrawn yn fywiog, yn lliwgar ac yn ddeniadol.

**MG:** Ymlaen felly â'r ddau gan rhifyn nesa', gobeithio... wel llongyfarchiadau ar eich holl waith caled. A Sandra! Beth sy' nesa' nawr i Ferched y Wawr, a'r cylchgrawn wrth gwrs?

**SMJ:** Wel yn gyntaf, rhifyn i ti ei ddarllen!

**MG:** Diolch o galon.

**SMJ:** A jyst edrych ymlaen at ddau gant a mwy o rifynnau yn y dyfodol.

**MG:** Wel diolch o galon am eich cwmni heddi', a joiwch y dathlu. 'Nôl atat ti, Angharad.

# Uned 7 - Atodiad 4
# Trawsgrifiad Gwrando a deall

**Aled Hughes:** Os oes ganddoch chi blant bach neu os ydych chi'n nain a taid neu'n fam-gu neu dad-cu i blant bach, mi fyddwch chi'n gwybod pwy ydy Dewin a Doti. Os nad ydych chi'n gwybod pwy ydy Dewin a Doti, mi fyddwch chi ar ôl clywed rhai o blant Cymru yn disgrifio Dewin a Doti i ni i gyd.

Mae Dewin hefo ci bach o'r enw Doti. Mae Doti hefo clogyn ac mae o'n biws.

Dewin a Doti yw cymeriadau'r cylch meithrin. Doti ydy ci Dewin a Dewin sy'n gofalu amdano... Doti.

Dewin a'r ci Doti ... yn gwisgo het piws.

Dewin yn neud magic.

Maen nhw'n neud syrcas ac mae o'n tynnu bwni allan o het.

Mae'n neud tric efo fi... mae'n neud tric efo fi hefyd ac mae o'n funny... yndi, mae o'n funny hefyd.

Fi'n hoffi Dewin a Doti. Ci bach Dewin a Doti... wff wff!

Mae Dewin a Doti yn ffrindiau i bawb yn y cylch meithrin a pawb yn y byd.

Mae'n mynd i beintio bob dim yn biws ac mae'n mynd i neud fama'n dywyll a mae o'n mynd i neud disgo i ni a mae'n mynd i neud teisen i ni a mae o'n mynd i roi miwsig on i ni ddawnsio a mae o'n mynd i fyta teisen i gyd.

Dw i'n hoffi Dewin a Doti.

# Uned 7 - Atodiad 5

| | |
|---|---|
| tomenni | Roedd llawer ohonyn nhw yn ne-ddwyrain Cymru pan oedd y diwydiant glo yn ei anterth. |
| cydymdeimlo | Dweud wrth rywun ei bod yn ddrwg gennych chi glywed am ei newyddion drwg. |
| cynrychioli | Mynd i rywle, e.e. cyfarfod ar ran rhywun arall. |
| graeanu | Mae'r cynghorau sir yn gwneud hyn mewn tywydd rhewllyd. |
| pregethu | Mae'r ficer yn gwneud hyn o'r pulpud bob dydd Sul. |
| canolbarth | Dyw Machynlleth ddim yn y de nac yn y gogledd. Mae yn yr ardal yma. |
| gwariant | Y swm sy'n mynd allan o'ch banc bob mis. |
| amrwd | cig heb ei goginio. |
| brodorion | Y bobl wreiddiol mewn ardal. |
| ymgynghoriad | Gofyn i'r cyhoedd roi eu barn ar bolisi newydd. |

# Uned 8

## Cam 1 – Darllen a siarad – Ffasiwn

i) Gwnewch storom eirfa ar thema Ffasiwn, er mwyn adolygu geirfa a chyflwyno geirfa newydd. Bydd hyn yn gymorth i'r dysgwyr wrth drafod y pwnc maes o law.

ii) Darllenwch yr erthygl mewn modd sy'n addas ac yn fuddiol i'ch dosbarth chi. Ceir awgrymiadau yn y canllawiau cyffredinol.

iii) Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i drafod beth yw pum prif bwynt yr erthygl yn eu barn nhw.

iv) Yna, gofynnwch y pum cwestiwn isod. Gadewch saib ar ôl gofyn pob cwestiwn i bawb gael casglu meddyliau, ond dylid gofyn i un person am yr ateb. Dyma'r atebion:

1. Pam roedd Gwrthryfel Difodiant yn protestio yn ystod Wythnos Ffasiwn Llundain?
Roedden nhw eisiau tynnu sylw at effaith niweidiol cynhyrchu dillad ar yr amgylchedd. Hefyd, roedden nhw'n beirniadu'r diwydiant ffasiwn am greu system sy'n annog pobl i brynu gormod o ddillad.

1. Pam mae dillad 'ffasiwn cyflym' yn wael i'r amgylchedd?
Mae'r dillad yn cael eu gwneud yn gyflym, felly 'dyn nhw ddim yn para'n hir. Yn aml, bydd pobl yn eu taflu i'r bin sbwriel. Hefyd, maen nhw'n cynnwys deunyddiau a llifynnau artiffisial, sy'n llygru'r amgylchedd.

3. Beth sy wedi newid yn dilyn trychineb Bangladesh?
Ers trychineb Rana Plaza, Bangladesh, mae llawer o bobl wedi dechrau meddwl am wneuthuriad eu dillad: ble cawson nhw eu gwneud, a phwy wnaeth nhw.

4. Sut mae arferion siopa yn dechrau newid?
Mae gwefannau fel Ebay a Depop yn boblogaidd dros ben, lle gall pobl brynu dillad ail-law a gwerthu eu dillad eu hunain. Mae rhai yn rhagweld y bydd y dull hwn o siopa yn disodli 'ffasiwn cyflym' cyn hir.

5. Beth yw cyngor Helen Humphreys?
Cyngor Helen Humphreys yw siopa'n ofalus. Os nad oes gennych lawer o arian i'w wario ar ddillad, dylech chi chwilio ar Ebay am ddillad sydd wedi'u gwneud mewn ffordd gynaliadwy. Mae hi hefyd yn cynghori pobl i siopa mewn siopau elusen.

Rhannwch y dosbarth yn barau neu'n grwpiau i drafod y cwestiynau sydd yn y llyfrau cwrs.

Tynnwch sylw at yr ymadrodd amser a ddengys a welir yn y darn – "Amser a ddengys, ond efallai fod oes ffasiwn cyflym yn dirwyn i ben".

Gofynnwch iddynt weithio mewn parau i feddwl am dri pheth arall sydd o bosib yn dod i ben a'u rhoi mewn brawddegau. Er enghraifft:

Amser a ddengys, ond efallai fod oes papurau newydd yn dirwyn i ben.

Amser a ddengys, ond efallai fod oes ceir diesel yn dirwyn i ben.

Yna, gofynnwch i bawb gofio un o'r brawddegau. Rhaid iddynt wedyn godi ar eu traed, a dweud y frawddeg wrth ei gilydd.

## Cam 2 - Gwybodaeth o iaith

Gofynnwch i'r dysgwyr ddewis y gair cywir i lenwi'r bwlch, er mwyn creu brawddeg ystyrlon. Dyma'r atebion cywir.

1. Ar ôl prynu tŷ newydd, roedden nhw mewn tipyn o ddyled.
2. Aethon ni i weld fy mam-gu yr wythnos diwethaf.
3. Wnewch chi dalu'r bil cyn gynted â phosibl, os gwelwch chi'n dda?
4. Caewyd y pwll glo olaf yn y cwm yn yr wythdegau gan y Bwrdd Glo.
5. Roedd y gwcw'n aderyn cyffredin ledled Cymru, ar un adeg.
6. Wnaeth e ddim llawer o baratoi at yr arholiad, felly roedd e'n poeni amdano.
7. Aethon nhw i weld y ffilm gyda'n gilydd.
8. Y dyddiau hyn, mae plant yn treulio gormod o amser yn chwarae gemau cyfrifiadurol.

**Ymarfer - Ansoddeiriau**

Cyflwynwch yr ymadrodd cyn gynted â phosib, ac esboniwch bod modd defnyddio **cyn** yn lle **mor** o flaen rhai ansoddeiriau. Gofynnwch i'r dysgwyr ailysgrifennu'r isod gan ddefnyddio **mor**. Dyma'r atebion:

| | |
|---|---|
| cyn lleied | mor fach |
| cyn hired | mor hir |
| cyn belled | mor bell |
| cyn rhated | mor rhad |

| | |
|---|---|
| cyn ddruted | mor ddrud |
| cyn drymed | mor drwm |
| cyn hyned | mor hen |
| cynddrwg | mor ddrwg |

Gellid wedyn brofi'r fersiynau'n dechrau â 'cyn' trwy alw'r fersiwn sy'n dechrau â 'mor'.

Yna, gofynnwch iddynt wneud yr ymarferion isod ar lafar gyda phartner, cyn ysgrifennu'r atebion.

| | |
|---|---|
| Erbyn pryd dych chi eisiau gwybod? | Cyn gynted â phosib. |
| Erbyn pryd dach chi isio gwybod? | Cyn gynted â phosib. |
| Pa mor bell dych chi eisiau/dach chi isio mynd? | Cyn belled â phosib. |
| Dych chi eisiau/Dach chi isio cael eira trwm? | Cyn drymed â phosib. |
| Dych/Dach chi'n hoffi coffi cryf? | Cyn gryfed â phosib. |
| Dych/Dach chi'n hoffi siopau rhad? | Cyn rhated â phosib. |

(Gellid atgoffa'r dysgwyr nad yw 'll' a 'rh' yn treiglo ar ôl 'cyn'.)

Ymarfer - gilydd.

Rhannwch y dosbarth yn barau i gyfieithu'r brawddegau.
Dyma atebion posib:

1. We are facing the problems of the debt together.
Rydyn / Dan ni / 'Dyn ni'n wynebu problemau'r ddyled gyda'n gilydd.
2. They saw each other in a concert last week.
Gwelon nhw ei gilydd mewn cyngerdd yr wythnos diwethaf.
3. You must speak to each other as soon as possible.
Rhaid i chi siarad â'ch gilydd cyn gynted â phosib.
4. They used to travel to work together.
Roedden nhw'n arfer teithio i'r gwaith gyda'i gilydd.
5. It is common for couples to meet one another in social events.
Mae'n beth cyffredin i gyplau gwrdd â'i gilydd mewn digwyddiadau cymdeithasol.
7. We always worry about one another.
Rydyn / Dan ni / 'Dyn ni bob amser / wastad yn poeni am ein gilydd.

Siarad

Er mwyn cadarnhau'r gwahaniaeth rhwng 'treulio' a 'gwario', gofynnwch i'ch dosbarth weithio mewn parau neu grwpiau i ateb y cwestiynau isod ac ymhelaethu arnynt.

Sut byddwch chi'n treulio eich nos Sadwrn fel arfer? Beth wnaethoch chi nos Sadwrn diwetha?

Faint fyddwch chi'n ei wario ar eich ffôn symudol bob mis? Ar beth dych/dach chi'n gwario fwya – bwyd neu ddillad.

## Cam 3 – Gwrando – Gwybodaeth ffeithiol

Yma, mae Maredudd ap Huw o'r Llyfrgell Genedlaethol yn siarad am gadw dyddiaduron. Daw'r darn o raglen BBC Radio Cymru, Al Hughes. Gofynnwch i'r dysgwyr ateb y cwestiynau ar sail yr wybodaeth yn y darn. Dyma'r atebion:

1. Pam doedd neb wedi darllen dyddiaduron Samuel Pepys am amser hir?

<u>Roedd ei ddyddiaduron wedi cael eu hysgrifennu mewn cod. Cymerodd hi o leiaf ddwy ganrif i rywun ddatrys y cod.</u>

2. Beth oedd yn gyffredin rhwng dyddiaduron y gwleidyddion Alan Clark a Tony Benn?

<u>Aethon nhw ati i gyhoeddi eu dyddiaduron yn ystod eu bywydau.</u>

3. Pam roedd y 'dosbarth breintiedig' (pobl gyfoethog) yn ysgrifennu mewn ffordd arbennig, erbyn diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

<u>Roedd llawer o weision a morynion yn gallu darllen erbyn hynny, a doedden nhw ddim eisiau iddyn nhw wybod eu cyfrinachau.</u>

4. Pam nad oes llawer o ddyddiaduron Francis Kilvert ar ôl?

<u>Dinistriodd ei wraig lawer o'r cyfrolau ar ôl ei farwolaeth oherwydd eu bod nhw'n sôn amdani hi, a'i pherthynas â'i gŵr. Dinistriodd nith Kilvert rai ohonynt hefyd oherwydd ei fod yn ei chrybwyll hi. Roedd ganddo ddiddordeb arbennig yn ei nith, a merched ifanc yn gyffredinol.</u>

Clywir Maredudd ap Huw yn dweud **deubeth**, sef dau beth. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau i feddwl am eiriau eraill sy'n dechrau gyda **deu-**

Atebion posib: deuddydd, deuben/deupen ('cadw deuben/deupen llinyn ynghyd'), deuol (rhif deuol, ffordd ddeuol), deuair, deuawd, deuparth (deuparth gwaith ei ddechrau), deulawr (tŷ deulawr), deublyg. I gloi'r gweithgaredd, trafodwch y cwestiynau a geir yn y llyfr cwrs mewn grwpiau, neu gyda'r dosbarth cyfan.

## Cam 4 - Slarad Personol - Gwyliau cofiadwy

Siarad Personol – Disgrifiwch y gwyliau mwyaf cofiadwy gawsoch chi yn ystod eich plentyndod.

i) Rhowch ddarn bach o bapur i bawb, a gofynnwch iddynt ysgrifennu’r gair cyntaf sy’n dod i’w meddwl wrth gofio gwyliau arbennig a gawsant yn ystod eu plentyndod. Yna, ailddosbarthwch y papurau a gofynnwch i bawb godi ar eu traed. Rhaid iddynt grwydro o gwmpas yr ystafell a sgwrsio gyda phawb am y gair sydd ar eu papur.

ii) Rhannwch y dosbarth yn dair ardal, sy’n cynrychioli’r canlynol: 1) Gwyliau yng Nghymru 2) Gwyliau ym Mhrydain 3) Gwyliau Dramor. Rhaid i’r dysgwyr benderfynu p’un sydd orau ganddynt, a mynd i sefyll yn yr ardal honno. Yna, gofynnwch i’r tri grŵp esbonio’u rhesymau dros ddewis gwyliau yn y lle hwnnw. Yn yr un modd, gallech ddynodi tair ardal ar gyfer 1)pabell 2)carafán 3)gwesty, neu 1) teithio mewn car 2) teithio mewn awyren 3) teithio mewn llong / trên. Mewn dosbarth rhithiol, gellid creu pôl yn hytrach na rhannu'r ystafelloedd yn ardaloedd gwahanol.

iii) Gofynnwch i’r dysgwyr drafod gwyliau cofiadwy mewn grwpiau, gan gofio sôn am:

- batrwm eu gwyliau pan oedden nhw’n blant;
- y rheswm dros fynd i un lle arbennig;
- un digwyddiad arbennig o’r gwyliau hynny;
- manteision ac anfanteision mynd i’r lle hwnnw;
- sut y basen nhw neu eu teuluoedd yn ymateb i wyliau tebyg erbyn hyn.

iv) I gloi, gofynnwch i barau feddwl sut orau i ddisgrifio'r gwyliau sy'n cael eu cyfleu yn y lluniau, e.e. gwersylla, gwyliau dramor yn ymweld â llefydd hanesyddol, gwyliau ar draeth, gwyliau antur.

## Cam 5 - Gwybodaeth o Iaith - Llenwi bylchau

Gofynnwch i’r dysgwyr weithio mewn parau i lenwi’r bylchau yn y ddeialog isod. Ceir syniadau yn y Canllawiau Cyffredinol. Dyma’r atebion:

A: Dw i’n edrych ymlaen <u>at</u> ein gwyliau ni ym Mhatagonia.

B: A finnau, ond mae llawer o waith <u>i’w</u> wneud cyn dechrau. Rhaid i ni argraffu’r tocynnau awyren, ac edrych dros ein <u>hyswiriant</u>. Does gen i ddim syniad <u>pa</u> fath o ddillad fydd eu hangen. Am faint o <u>oriau</u> byddwn ni yn yr awyren tybed?

A: Tua deuddeg. Mae angen ebostio Pedro a Mari ar yr ochr draw i ddweud

|  |  |
|---|---|
|  | wrthyn nhw am faint o'r gloch byddwn ni'n glanio. |
| B: | Oes. O... wyt ti wedi prynu tabledi salwch car i'r plant? |
| A: | Nac ydw. Anghofiais i, rhwng un peth a'r llall . Wnei di fynd i'r dre i'w cael nhw cyn i'r siopau gau? |
| B: | Gwnaf . (√) |
| A: | Tra byddi di yn y dre, dos / cer i brynu swper o'r siop sglodion. Bydd hynny'n haws na choginio. |
| B: | Iawn. Fasai'n well gen ti sglodion na bwyd Indiaidd? Basai'r plant wrth eu bodd yn cael cyrri. |
| A: | Does dim gwahaniaeth gen i. |
| B: | Bwyd Indiaidd amdani! |
| A: | Gwych. Bydd rhaid i ni adael mewn da bryd bore yfory, beth bynnag wnawn ni. Mae meysydd awyr yn gallu bod yn llefydd / lleoedd prysur iawn. Wyt ti'n cofio pan aethon ni i Sbaen dair blynedd yn ôl? |
| B: | Ydw. Pryd cyrhaeddon ni'r maes awyr yn y diwedd? Hanner awr cyn amser hedfan neu rywbeth? |
| A: | Dau ddeg pum munud a bod yn fanwl gywir. Cael a chael oedd hi! |
| B: | Profiad ofnadwy... |
| A: | Dw i'n mynd i wneud yn siŵr bod y ddau gloc larwm yn gweithio, cyn mynd i gysgu heno! |

Gellir gofyn i barau ddarllen y ddeialog, gan gymryd tro i wneud y ddwy ran.

**i) Ymarfer - i'w**

Tynnwch sylw at y frawddeg **Mae llawer o waith i'w wneud cyn dechrau.** Gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r bylchau yn y brawddegau isod, gan gofio defnyddio **i'w**. Dyma'r atebion.

1. Mae ychydig o fara ar ôl i'w fwyta.
2. Mae llawer o lyfrau ar ôl i'w darllen .
3. Mae nifer o achosion ar ôl i'w datrys .
4. Mae dillad brwnt / budr ar ôl i'w golchi .
5. Mae bwcedi ar ôl i'w llenwi gyda dŵr glaw.
6. Mae cadair ar ôl i'w thrwsio yn y gweithdy.
7. Mae canghennau ar ôl ar y llawr i'w clirio / codi / tacluso ar ôl y storm.
8. Mae un drws ar ôl i'w osod a bydd y tŷ yn barod.

**ii) Ymarfer - Mewn da bryd**

Esboniwch ein bod ni'n aml yn gweld y gair **pryd** mewn ymadroddion sy'n cyfeirio at amser. Gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am rai eraill.

Enghreifftiau posib: ar hyn o bryd, pryd bynnag, o bryd i'w gilydd, ar brydiau, ar y pryd, bryd hynny

**Help llaw – Amdani!**

Trafodwch yr ymadrodd 'amdani!' Ni ddylid darllen yr adran Help llaw sydd yn y llyfr cwrs air-am-air, ond gallech gyfeirio ato a gofyn i'r dysgwyr gynnig eu henghreifftiau eu hunain.

Trafodwch yr ymadrodd 'amdani!' Ni ddylid darllen yr adran Help llaw sydd yn y llyfr cwrs

**iv) Siaradwch – cael a chael**

I gloi'r adran hon, gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am y sefyllfaoedd isod. Cyn gofyn iddynt rannu stori 'cael a chael' gyda phartner neu weddill y dosbarth, efallai y gallech chi roi enghraifft bersonol iddynt.

| | |
|---|---|
| cyrraedd maes awyr | pasio arholiad |
| ar y maes chwarae | gorffen darn o waith |

## Cam 6 - Cymraeg Ffurfiol – y person cyntaf yn yr amser presennol

Fel arfer yn yr adrannau hyn, dysgir bod dealltwriaeth o'r ffurfiau'n bwysig yma. Fodd bynnag, oherwydd bod gofyn i ddysgwyr ddefnyddio'r cywair ffurfiol wrth ysgrifennu llythyr yn arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch, gofynnir i'r dysgwyr drosi ffurfiau llafar person cyntaf presennol y berfau yn rhai ffurfiol.

## Cam 7 – Cefndir - Y Wladfa

**Cefndir y Wladfa**

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Ceir setiau o gardiau arbennig: chwe cherdyn sy'n cynnwys gwybodaeth am y Wladfa (Atodiad 1), a chwe llun o ddigwyddiadau allweddol yn hanes y Wladfa (Atodiad 2). Gofynnwch i'r grwpiau baru'r lluniau gyda'r wybodaeth gywir – mae'r lluniau yn y drefn gywir yn Atodiad 2 isod. Rhowch ddigon o amser iddynt drafod y lluniau a'r ffeithiau. Yna, gofynnwch iddynt ysgrifennu crynodeb o'r cardiau – y pwyntiau pwysicaf yn unig – yn y chwe blwch dynodedig yn eu llyfrau cwrs.

Os ydych chi'n dysgu dosbarth rhithiol,gellid anfon y cardiau i gyd at y dysgwyr ymlaen llaw. Neu, gellid anfon un paragraff a phob llun at bob unigolyn.

**Gwylio a gwrando** – Ceir tri darn gwylio. Mae trawsysgrif o bob un yn Atodiad 2.

**1 – Gŵyl y Glaniad**

Fideo o ddathliad Gŵyl y Glaniad 2019 yn Llanbedr Pont Steffan yw'r fideo. Mae'r siaradwyr yn cynnwys pobl o Batagonia a Chymraes sydd â chysylltiad â Phatagonia.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwylio a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ateb y cwestiynau yn eu llyfrau cwrs. Dyma'r atebion:

1. Gwrandewch yn ofalus ar Sandra De Pol. Beth yw arwyddocâd y rhifau hyn?

28 - **Glaniodd y Cymry ym Mhatagonia ar yr 28ain o Orffennaf.**

1865 – **Dyna'r flwyddyn y glanion nhw.**

2. Beth yw cysylltiad Nest Jenkins â'r Wladfa?

**Mae hi wedi ennill Ysgoloriaeth Santander, sy'n golygu y bydd yn treulio mis ym Mhatagonia, yn helpu gyda gweithgareddau Cymraeg.**

3. Mae Eseia yn sôn am rai o'r digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn y Wladfa i ddathlu Gŵyl y Glaniad. Nodwch ddau ohonyn nhw yn y blwch isod.

**1) Te parti mawr. Mae pobl y Wladfa'n agor y capeli ac yn gweini te yno. 2) Seremonïau, sy'n cael eu cynnal gan y Llywodraeth ac yn cynnwys canu anthem Yr Ariannin ac anthem Cymru.**

I gloi'r gweithgaredd, trafodwch y cwestiwn a nodir yn y cwrslyfr ynghyd ag unrhyw fater arall sy'n codi wrth wylio'r fideo.

**Gwylio a gwrando 2 – Elvira Moseley o Batagonia**

Yn y fideo hwn, clywn Elvira Moseley yn esbonio sut y daeth hi i fyw i Gymru o Batagonia.

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwylio a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ateb y cwestiynau yn eu cwrslyfrau. Dyma'r atebion:

1. Beth mae hi'n ei ddweud yn lle 'Cymru'?

**Yr Hen Wlad.**

2.Pryd daeth Elvira i Gymru?

**Daeth Elvira i Gymru yn 1966.**

3. Beth oedd yn bwysig am y flwyddyn 1965?

**Roedd pobl yn dathlu canmlwyddiant Y Wladfa.**

4. Pwy oedd yn gallu cael grant i astudio yng Ngholeg Harlech?

**Pobl ifanc o Batagonia oedd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl.**

5. Am faint o amser roedd Elvira i fod i aros yng Nghymru?
**Roedd hi i fod i aros am flwyddyn.**

I gloi'r gweithgaredd, trafodwch y cwestiynau a nodir yn y cwrslyfr ynghyd ag unrhyw fater arall sy'n codi wrth wylio'r fideo.

**Gwylio a gwrando 3 – Ann-Marie a Fabio Lewis**

Fideo o ŵr a gwraig - Ann-Marie a Fabio Lewis – yw'r fideo olaf. Treulion nhw flwyddyn ym Mhatagonia gyda'u plant, yn gweithio fel Swyddogion Datblygu'r Gymraeg. Mae Fabio yn dod o Ddolavon ym Mhatagonia yn wreiddiol.

Defnyddiwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwylio a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ateb y cwestiynau yn eu cwrslyfrau. Dyma'r atebion:

1. Pam roedd 2015 yn flwyddyn bwysig i'r Wladfa yn ôl Fabio?
   **Roedd y gymdeithas Gymraeg yn dathlu can mlwyddiant a hanner Y Wladfa.**
2. Pa fath o addysg a gafodd y plant ym Mhatagonia?
   **Cawson nhw addysg ddwyieithog.**
3. Nodwch y ddau beth sy'n wahanol yn yr Ariannin, yn ôl Ann-Marie:
   **Y diwylliant a'r tywydd.**
4. Yn ôl Ann-Marie, roedd Ifan yn siarad Sbaeneg "o fewn dim". Gyda'ch partner, lluniwch frawddeg yn cynnwys **o fewn dim.**

Efallai y bydd angen i chi roi brawddeg enghreifftiol, e.e. Roeddwn i'n teimlo'n nerfus cyn dechrau gwersi Cymraeg, ond o fewn dim, ro'n i'n teimlo'n gwbl gartrefol oherwydd bod y dysgwyr eraill mor gyfeillgar.

I gloi'r adran hon, trafodwch y cwestiynau a nodir yn y llyfr cwrs ynghyd ag unrhyw fater arall sy'n codi wrth wylio'r fideo.

## Cam 8 – Atgyfnerthu Geirfa Uned 8

Yn Atodiad 3, ceir dau gerdyn ac arnynt bump o eiriau'r uned. Rhaid i'r parau ddiffinio'r geiriau hyn i'w gilydd.

**Uned 8, Atodiad 1 - Cardiau gwybodaeth am Y Wladfa. Dileu Mae angen pob cerdyn o fewn ei flwch ei hun.**

Uned 8, Atodiad 1 - Cardiau gwybodaeth am Y Wladfa.

1. Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sefydlodd ymfudwyr o Gymru lawer o gymunedau Cymreig yn Unol Daleithiau America. Ond, ymhen amser, dechreuodd y Gymraeg golli tir yn y cymunedau hynny, ac roedd hyn yn destun pryder i weinidog o'r Bala o'r enw Michael D Jones. Roedd e'n credu y dylai ymfudwyr o Gymru symud i rywle pell gyda'i gilydd, lle na fydden nhw'n cael eu hamgylchynu gan yr iaith Saesneg ac yn colli eu Cymraeg. Breuddwyd Michael D Jones oedd creu Cymru newydd ym mhen draw'r byd, lle byddai'r Gymraeg yn iaith swyddogol, a phawb yn rhydd i addoli trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ei farn e, roedd Patagonia yn lleoliad perffaith ar gyfer y Gymru newydd hon.

Dechreuodd Michael D Jones ysgrifennu llythyrau i bapurau newydd Cymraeg i annog pobl i ymfudo i Batagonia. Cynhaliodd gyfarfodydd cyhoeddus a ffurfiwyd cymdeithasau ledled Cymru i hyrwyddo'r Wladfa newydd. Roedd Edwin Cynrig Roberts a Lewis Jones hefyd yn rhan allweddol o'r trefniadau.

2. Ar yr 28ain o Fai 1865, gadawodd Y Mimosa ddociau Lerpwl. Roedd 160 o bobl ar ei bwrdd, yn awyddus i ddechrau bywyd newydd ym Mhatagonia. Roedd hi'n fordaith hir, a'r amodau ar y llong yn ofnadwy. Bu farw pump o blant a bu llawer o bobl yn sâl iawn.

Glaniodd y llong ym Mhorth Madryn ar yr 28ain o Orffennaf. Roedd hi'n ganol gaeaf a chafodd y Cymry siom o weld tir llwm y Paith wrth gerdded 37 milltir i gyrraedd eu tiroedd yn Nyffryn Camwy, sef pentref y Gaiman heddiw. Roedd trefnwyr yr ymfudo wedi addo tiroedd gwyrdd ffrwythlon iddyn nhw.

3. Roedd blynyddoedd cyntaf y Wladfa yn galed iawn. Glowyr o gymoedd de Cymru oedd llawer o'r ymfudwyr cynnar, ac ychydig o ffermwyr a oedd yn eu plith. Methodd y cynaeafau cyntaf ac roedd bwyd yn brin. Symudodd rhai gwladfawyr i Ganada ac Awstralia oherwydd eu siom. Ond, diolch i Rachel ac Aaron Jenkins o Aberpennar, cafwyd cynhaeaf llwyddiannus yn 1868 ar ôl iddyn nhw greu cyfres o gamlesi i ddyfrhau'r tir – system sy'n dal i gael ei defnyddio heddiw.




4. Er gwaethaf caledi'r blynyddoedd cyntaf a llifogydd difrifol ar fwy nag un achlysur, roedd poblogaeth Dyffryn Camwy yn tyfu, a'r Wladfa'n ffynnu diolch i lwyddiant y cnydau gwenith a mentrau fel Cwmni Masnachol Camwy. Adeiladwyd llawer o gapeli trwy'r Dyffryn ac roedd plant y Wladfa yn derbyn eu haddysg i gyd trwy gyfrwng y Gymraeg – hyd yn oed Mathemateg! Ni ddigwyddodd hynny am flynyddoedd maith yng Nghymru. Roedd y Wladfa ar flaen y gad mewn ffordd arall hefyd; roedd pawb dros ddeunaw oed – dynion a menywod - yn cael pleidleisio yn etholiadau Cyngor y Wladfa. Ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, y Wladfa oedd un o'r lleoedd mwyaf democrataidd yn y byd.


5. Rhwng 1883 ac 1909, oherwydd prinder tir ffermio yn Nyffryn Camwy, dechreuodd Cymry chwilio am diroedd yn yr Andes. Yn 1885, aeth criw o ddynion o'r enw'r Rifleros ar daith ar gefn ceffylau o Ddyfryn Camwy i'r Andes i hawlio tiroedd newydd. Dyma pryd y cyrhaeddwyd Cwm Hyfryd, a gafodd ei enw oherwydd ei fod mor wyrdd a ffrwythlon o'i gymharu â thir llwm y paith. Sefydlwyd Trevelin a dinas Esquel yn yr ardal hon.

6. Rhwng 1886 ac 1911, ymfudodd tua 1,000 o Gymry i'r Wladfa, ond daeth yr ymfudo i ben wedi hynny oherwydd y ddau Ryfel Byd. Erbyn canol yr ugeinfed ganrif, roedd nifer y siaradwyr Cymraeg wedi gostwng a Llywodraeth yr Ariannin yn rhoi pwysau ar bawb i siarad Sbaeneg a chael addysg Sbaeneg. Roedd rhai pobl yn ofni siarad Cymraeg yn gyhoeddus ac roedd hi'n iaith gyfrinachol i lawer.

Ar ôl dathliadau canmlwyddiant y Wladfa yn 1965, daeth tro ar fyd wrth i'r cyswllt rhwng Cymru a'r Wladfa gryfhau. Dechreuodd athrawon fynd i'r Wladfa i ddysgu Cymraeg yn wirfoddol, ac yn 1997, sefydlwyd cynllun gan y Cyngor Prydeinig a'r Swyddfa Gymreig i anfon athrawon Cymraeg i'r Wladfa bob blwyddyn. Erbyn hyn, Llywodraeth Cymru a'r Cyngor Prydeinig sy'n cynnal y cynllun, ac mae ysgolion dwyieithog wedi'u sefydlu yn Nyffryn Camwy a'r Andes. Nid dim ond disgynyddion y Cymry sy'n dysgu Cymraeg ac yn anfon eu plant i ysgolion dwyieithog; mae pobl o bob tras a chefndir yn falch o draddodiadau Cymreig y Wladfa ac yn mwynhau cymryd rhan mewn gweithgareddau fel Eisteddfod y Wladfa.

## Atodiad 2

**Uned 8, Atodiad 3**

**Trawsgrifiad Gwylio a gwrando 1: Gŵyl y Glaniad**

**Nest Jenkins**: Helo, enw fi yw Nest Jenkins. Fi'n byw yn Nhregaron mewn pentre bach o'r enw Lledrod ond fi'n gyffrous iawn eleni, achos bydda i'n dychwelyd i Batagonia. Dw i wedi bod unwaith o'r blaen gyda Taith yr Urdd, ond fi nawr yn mynd am fis i'r Gaiman gyda Ysgoloriaeth Prifysgol Caerdydd a Santander ym mis Awst. Bydda i'n dysgu yn Ysgol y Gaiman a hefyd yn helpu gyda dosbarthiadau Cymraeg i Oedolion, ac yn fwy na dim, ceisio hybu'r iaith yma. Fi wir yn gyffrous i fod yn rhan o'r gymuned am fis cyfan a wir cael blas o'r ardal leol 'na.

Wel fi'n gyffrous iawn heddi' achos ni'n dathlu Gŵyl y Glaniad. Ym 1865 fe wnaeth y Mimosa lanio ym Mhorth Madryn felly heddi' ni'n nodi hynny. Mae Cymdeithas Cymru-Ariannin wedi trefnu cinio ac fe fydda i'n rhoi adloniant. Bydda i'n chwarae'r delyn... ambell i alaw Gymraeg, a hefyd fydda i'n llefaru darn... cwpwl o ddarnau am Gymru ac am Batagonia.

Ydy wir, mae Gŵyl y Glaniad yn rhywbeth pwysig i ni ei nodi. Ym Mhatagonia maen nhw'n trefnu amryw o weithgareddau i nodi'r achlysur, cyngherddau, te prynhawn, *asados* ac yn y blaen, felly hefyd yng Nghymru. Mae'n hyfryd ein bod ni'n dathlu bod pawb sydd â chysylltiad â Phatagonia yn dod at ei gilydd ac yn dathlu'r achlysur.

**Sandra De Pol**: Wel 'dyn ni'n lwcus iawn heddiw, 'dyn ni'n gweld llawer o ffrindiau mewn un digwyddiad. Gŵyl y Glaniad 'dyn ni'n dathlu heddi', sef pryd y glaniodd y Mimosa, y cwch yma, ym Mhorth Madryn yn ne yr Ariannin. Felly bob blwyddyn 'dyn ni'n dathlu ar y Sadwrn olaf ym mis Gorffennaf. 'Dyn ni'n dathlu'r digwyddiad hanesyddol yna rhwng yr Ariannin a Chymru.

**Eseia**: Maen nhw'n dathlu Gŵyl y Glaniad mewn sawl man ym Mhatagonia: yn yr Andes, yn Esquel a Trevelin ac yn y dyffryn yn Trelew, Gaiman, Dolaovon a wedyn yn Porth Madryn hefyd. Maen nhw'n arfer cynnal parti te mawr a fel arfer maen nhw'n agor y capeli, hen gapeli, a gweini te yno efo llawer o gacennau... pethau melys fel arfer. Mae pobl... Lladinaidd yn licio pethau melys yn ofnadwy felly mae dylanwad mawr o'r Lladinwyr ym Mhatagonia ac yn yr ochr Gymraeg hefyd... Ac mae'r Llywodraeth yn gyfrifol am y seremonïau yma... yn ddiddorol iawn, mae rhan o Lywodraeth yr Ariannin... Llywodraeth y Wladfa, sydd yn cynnal y seremonïau yma. Ac yn ddiddorol iawn, maen nhw'n canu anthem genedlaethol yr Ariannin ac ar y diwedd, anthem Cymru. Mae'n ddigwyddiad pwysig iawn i Batagonia achos bod ni'n cofio rhan o'n hanes ni o dde'r Ariannin, De America.

**Trawsgrifiad Gwylio a gwrando 2: Elvira Moseley**

Des i i Gymru, neu, wel, i'r Hen Wlad, yn mil naw cant chwe deg chwech. Mil naw chwe pump oedd canmlwyddiant y Wladfa... ac roedd llawer iawn o bobol o Goleg Harlech yno, yr awdurdoda' a'r hyn a'r llall... a dyma rhywun yn deud, mae 'na grant i rai ifanc sydd yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl, a fedran nhw ddod i ddysgu am flwyddyn yn y Coleg. Ond, mae'n rhaid iddyn nhw dalu'u ffordd 'u hunain draw o'r Wladfa i'r Hen Wlad. A felly 'nes i. Felly ges i lythyr i ddweud bo' fi 'di cael fy nerbyn yno a felly dw i 'di dod yma, o'r Wladfa. Wrth gwrs, blwyddyn o'n i i fod yma ond mae hanner cant wedi mynd a dw i'n dal i fod yma!

**Trawsgrifiad Gwylio a gwrando 3: Ann-Marie a Fabio Lewis**

Fabio: Aethon ni allan i Batagonia yn nwy fil a phymtheg... o'n ni wedi ymgeisio i fod yn Swyddogion Datblygu'r Iaith gyda'r prosiect yna... ac fe fuon ni'n llwyddiannus felly ma's â ni fel teulu o bedwar... treulion ni flwyddyn brysur iawn achos roedd y Gymdeithas Gymraeg yno yn dathlu cant a hanner o flynydde ers i'r Cymry lanio ... mwynhau, llawer o waith a phrofiad bythgofiadwy i'n plant a ni hefyd.

Ann-Marie: Do, oedd e'n hyfryd achos mae lot o deulu wrth gwrs gyda Fabio yn yr Ariannin ac mae Nain yn byw yno a cefndryd ac roedd e'n neis iddyn nhw hefyd i gael treulio'r flwyddyn yn dysgu Sbaeneg... er... o'n nhw'n mynd i ysgol ddwyieithog – Ysgol Gymraeg y Gaiman ac yn mynd i Ysgol yr Hendre ac yn cael eu haddysg nhw yn ddwyieithog. Pan aethon ni draw, doedd dim lot o Sbaeneg o gwbl... geirie gyda'r ddau ohonyn nhw... wrth gwrs bryd hynny roedd Ifan bron yn saith a Miriam yn dair a hanner, felly'n itha ifanc... jyst codi pac a mynd, ac o fewn dim o'dd Ifan o fewn ryw bedwar mis yn deall Sbaeneg, o fewn chwe mis yn rhugl. Wrth gwrs, roedd e'n cael ei addysg fwy neu lai yn Sbaeneg ac roedd e hefyd yn cymdeithasu'n Sbaeneg gyda'r teulu a felly roedd e'n brofiad, yn sicr, yn brofiad iddyn nhw... a cael y profiad hefyd o brofi diwylliant gwahanol; byw a bod tu allan... yw tywydd wrth gwrs yn wahanol... mae modd cynllunio ymlaen... a jyst mwynhau a bod yn blant... felly o'dd e'n braf iawn.

**Uned 8, Atodiad 4**

| |
|---|
| cwcw<br>gwas<br>dyfeisio<br>anghyfforddus<br>bwa a saeth |
| gorymdaith<br>offeiriad<br>marchogaeth<br>diarffordd<br>yr wyddor |

# Uned 9 Uwch 3

## Cam 1 – Siaradwch – Pwnc llosg – Mae'n dda bod cymaint o bobl ifainc yn cael cyfle i fynd i'r brifysgol


Dilynwch y camau isod:

i) Paratoi o ran geirfa berthnasol. Gofynnwch i barau feddwl pa eiriau sy'n cael eu disgrifio:

| | |
|---|---|
| Mae pobl fel arfer yn mynd yma am dair blynedd ar ôl gwneud arholiadau Safon Uwch ('lefel A'). | **prifysgol** |
| Mae pobl fel arfer yn mynd yma i wneud lefel A neu gwrs fel gofal plant, peirianneg neu i ddysgu crefft. | **coleg addysg bellach** |
| Swydd gyda hyfforddiant. | **prentisiaeth** |
| Person sy'n dysgu myfyrwyr mewn prifysgol. | **darlithydd** |
| Mae llawer iawn o fyfyrwyr angen un o'r rhain i allu talu eu ffioedd a'u costau byw. | **benthyciad** |
| Mae myfyrwyr yn aml yn byw yn un o'r rhain. | **neuadd breswyl** |
| Cwrs i'ch helpu chi i weithio mewn maes fel gofal iechyd neu adeiladu. | **cwrs galwedigaethol** |
| Mae myfyrwyr yn derbyn un mewn seremoni ar ddiwedd eu cwrs. | **gradd** |

ii) Gofynnwch i'r parau edrych ar y map a dyfalu pa brifysgolion sy yn y llefydd gwahanol. Dyma'r atebion:

## Prifysgolion Cymru




Os bydd y dysgwyr yn cael y dasg hon yn anodd heb unrhyw arweiniad, gellid rhoi enwau'r prifysgolion ar y bwrdd gwyn. Fe'u rhestrir i gyd isod (cam iii).

iii) Y cam nesaf yw dyfalu pa ffaith sy'n berthnasol i bob prifysgol. Dyma'r atebion:

| | |
|---|---|
| Mae'r Brifysgol yma'n cael ei hadnabod fel y Coleg ger y Lli. | **Aberystwyth** |
| Mae gan y Brifysgol hon gampws yn Dubai. | **De Cymru** |
| Hon yw'r Brifysgol leia yng Nghymru. | **Glyndwr** |
| Mae gan y Brifysgol theatr o'r enw Taliesin. | **Abertawe** |
| Dechreuodd y Brifysgol hon fel Ysgol Gelf. | **Prifysgol Fetropolitan Caerdydd** |
| Mae'r Brifysgol yma'n cael ei hadnabod fel y Coleg ar y Bryn. | **Bangor** |
| Siarter Frenhinol y Brifysgol hon yw'r hynaf yng Nghymru. | **Y Drindod Dewi Sant** |
| "Gwirionedd, Undod a Chytgord" yw arwyddair y Brifysgol hon. | **Caerdydd** |

iv) Rhannwch y dosbarth yn grwpiau ar gyfer y cam nesaf – cwblhau'r tabl am fanteision ac anfanteision mynd i'r brifysgol.

v) Rhannwch yn grwpiau newydd i drafod y pwnc ei hun, sef 'Mae'n dda bod cymaint o bobl ifainc yn cael cyfle i fynd i'r brifysgol'.

## Cam 2 - Gwybodaeth o iaith – Aralleirio

Dyma'r atebion:

1. Roedd Marged a finnau**'n deall ein gilydd**.
2. Dwyt ti **ddim i fod i wisgo esgidiau** wrth fynd i mewn i'r deml.
3. Ar bobl Trewylan **mae'r gwaith ffordd yn effeithio yn bennaf.**
4. **Daeth y noson i ben** gyda'r gynulleidfa'n canu'r anthem genedlaethol.
5. Nid dyma'r car cyflymaf na'r mwyaf moethus, ond **mae'n gwneud y tro i mi.**
6. **Paid â throi dy gefn arna i** pan dw i'n siarad â ti.
7. Mae losin **o bob lliw a llun** ar gael yn siop Morus.
8. Gallwch chi **fod wedi mynd ar y trên i Lundain.**

**i) Ymarfer – Adolygu amser gorffennol yr amodol**
Cynhaliwch ymarfer llafar i ymarfer y patrymau, e.e. gofyn i bobl beth ddylen nhw ei wneud yfory a beth ddylen fod wedi'i wneud ddoe. Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am ymatebion i'r cwestiynau. Dylid gwneud hyn fel ymarfer llafar gydag ymatebion chwim i gloi'r adran hon.
**ii) Siaradwch – i fod i**
Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i drafod y cwestiynau sy'n ymarfer **i fod i**.

## Cam 3 - Gwrando – Profiadau personol

Yma, mae'r meddyg Gwen Jones-Edwards yn siarad am ei chefndir a'i haddysg yng Nghaerdydd ar raglen Radio Cymru *Beti a'i Phobl*. Chwaraewch y darn ddwywaith.

Dyma'r atebion:

1. Beth roedd rhaid i Gwen ei wneud i gyrraedd Ysgol Howells? **Pasio arholiad**
2. Pam roedd Gwen yn teimlo allan o le yn Ysgol Howells? **Am ei bod hi'n siarad Cymraeg, e.e. doedd hi ddim yn gwybod geiriau gweddi'r Arglwydd yn Saesneg.**
3. Beth wnaeth Gwen oherwydd ei bod hi'n teimlo allan o le? **Mynd i Ysgol Rhydfelen ar gyfer y chweched dosbarth**

4. Sut dechreuodd Gwen ar y llwybr i fynd i'r maes meddygol? **Trwy ddatblygu diddordeb mewn pynciau gwyddonol. Dyna'r pynciau ddewisodd hi ar gyfer lefel O a lefel A.**

5. Pam na chafodd Gwen fynd i goleg o'i dewis hi? **Roedd ei theulu hi'n teimlo bod Caeredin braidd yn bell.**

Defnyddiwch y dril sy yn y llyfr i ymarfer **braidd**.

## Cam 4 – Siarad – Darllenwch a Siarad

Testun yr erthygl y tro hwn yw'r hyn sy'n ein tynnu at ardaloedd, 'Tynfa'. Mae'n addasiad o'r ysgrif buddugol yn Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy, 2019. Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer darnau darllen. Dilynwch y tasgau sydd yn y llyfr:

i) Crynhoi'r pum prif bwynt. Ar ôl cael sesiwn adrodd yn ôl, gofynnwch y cwestiynau isod:

Sut mae'r awdur yn disgrifio Caerdydd ar ddiwrnod gêm? **Mae'n fwrlwm – gyda phobl yn llenwi'r tafarnau a'r stadiwm. Mae pobl yn canu yn y tafarnau ac yn dathlu Cymreictod.**

Beth yw canlyniad llawer o bobl yn byw yn agos at ei gilydd? **Mae mwy o gyfleusterau, cyfleoedd, buddsoddiad, adloniant, amrywiaeth a safon.**

Ym mha ffordd mae'n gallu bod yn dda i bobl fynd adre i'r wlad? **Mae'n gallu bod yn llesol ac yn gyfle i gael egni yn ôl – i'r corff ac i'r meddwl.**

Beth sy'n rhyfedd am deimlo'n hiraethus pan fydd rhywun bron â chyrraedd adre? **Achos eich bod chi bron gartref ac felly ddim angen teimlo'n hiraethus.**

Pa gwestiwn sy'n poeni'r awdur ar ddiwedd y darn? **Pa mor hir yw hi cyn bod pobl yn penderfynu dychwelyd adref?**

Hyderir y bydd y rhan fwyaf o'r pwyntiau sy'n atebion i'r cwestiynau wedi codi wrth i grwpiau grynhoi'r pum prif bwynt. Gofynnwch y cwestiynau fesul un, gan adael saib i bawb feddwl am yr atebion, cyn gofyn i un person ateb.

ii) Grwpiau i feddwl am deitl newydd i'r darn.

iii) Rhannwch y dosbarth yn grwpiau ar gyfer y gwaith siarad.

iv) Rhaid i bawb greu brawddeg bersonol yn defnyddio "…. yn fy ngalw i'n ôl". Dylai pawb godi a chrwydro gan rannu eu brawddegau, ond gan ymestyn y sgwrs hefyd.

v) Ceir nifer o ymadroddion cyfoethog yn y darn. Dyma'r atebion i'r cyfieithiadau:

| | |
|---|---|
| *the lights of the capital city* | goleuadau'r brifddinas |
| *to taste the atmosphere* | blasu'r awyrgylch |
| *the greenery of the fields* | gwyrddni'r caeau |
| *familiar views* | golygfeydd cyfarwydd |
| *bright lights* | goleuadau llachar |

## Cam 5 - Gwybodaeth o iaith

Rhannwch y dosbarth yn barau ar gyfer y gwaith yma. Dyma'r atebion:

**1.** Dw i'n hoff iawn o gael wy ______________ ffrio i frecwast.
a. wedi'u
b. wedi'w
**c. wedi'i**
ch. wedi'th

**2.** Eisteddwch yn yr hen gadair ______________ wrth y tân.
a. braich
b. breichiau
c. fraich
ch. **freichiau**

**3.** ______________ y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
a. Croesawyd
b. Croesodd
**c. Croesawodd**
ch. Diolchodd

**4.** ______________ i yn Sbaen ar fy ngwyliau y llynedd.
a. Es
b. Gwnes
c. Roeddwn
**ch. Bues**

5. Mae traddodiad y Plygain yn fyw ac yn ______________ mewn rhannau o Gymru.
**a. iach**
b. fywiog
c. wir

ch. brysur

Roedd yr hyfforddwr yn hyderus _______________ byddai ei dîm yn ennill y gêm.
a. bod
**b. y**
c. a
ch. mai

Peidiwch â gadael i'r sŵn eich atal chi _______________ gwneud eich gwaith.
a.o
b. wrth
c. oddi wrth
**ch. rhag**

Bryn Meirion yw'r un a _______________ orau yn y gystadleuaeth.
**a.ganodd**
b. chanodd
c. nghanodd
ch. canodd

**Ymarfer – wedi'i, wedi'u**

**Deialog** - Ceir deialog syml yn y llyfr cwrs i gyflwyno'r ffurfiau hyn. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i ddarllen y ddeialog, gan gymryd tro i wneud y ddwy ran. Sicrhewch eu bod yn dewis y fersiwn (de/gogledd) gywir.

Pan fyddant wedi cael digon o gyfle i ymarfer y ddeialog, trafodwch yr ymadroddion sydd wedi'u hamlygu yn y ddeialog (**wedi'i fwyta, wedi'i ffrio** ac ati). Ydyn nhw'n deall yr ymadroddion hyn? Sut bydden nhw'n eu hesbonio, yn Gymraeg?

Esboniwch bwysigrwydd cenedl enwau wrth ddefnyddio **wedi'i**, a'r rheolau treiglo. Wedyn, ewch ymlaen i drafod **wedi'u**, a'r 'h' y mae'n rhaid ei hychwanegu o flaen llafariaid.

Pan fyddwch yn teimlo eu bod yn deall y gwaith, gofynnwch iddynt weithio mewn parau / grwpiau i drafod y tri llun yn y llyfr cwrs (siwmper wedi'i gwau, papur wedi'i ailgylchu, pys wedi'u rhewi).

**Gwrando - Bwletin newyddion wedi'i/wedi'u**

Ceir darn gwrando byr i ymarfer defnyddio ymadroddion **wedi'i/wedi'u.**

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr lenwi'r bylchau â'r geiriau cywir, fel a ganlyn:

Agorwyd canolfan newydd heddiw yng Ngwynedd gan y Gweinidog Amaeth. Bydd Canolfan Tir Glas yn gwerthu cynnyrch lleol, gan cynnwys cig o fferm y ganolfan, a chrefftau **wedi'u gwneud** â llaw. Bydd holl nwyddau'r siop **wedi'u cynhyrchu** yng Nghymru.

Mae archfarchnad Waterby's yn rhybuddio pobl i beidio â bwyta salad gwyrdd **wedi'i olchi'n barod** a gafodd ei werthu yn ei siopau ddoe. Cafodd y cynnyrch ei dynnu oddi ar silffoedd Waterby's ac mae swyddogion safonau bwyd yn ymchwilio i'r mater.

I gloi, mae niferoedd y barcud coch yng Nghymru wedi cynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda mwy o barau nag erioed yng Nghanolbarth Cymru. Mae'r barcud coch yn rhywogaeth **wedi'i gwarchod** ac mae swyddogion bywyd gwyllt arbennig yn cadw golwg ar nythod y barcud.

## Cam 6 - Cymraeg ffurfiol - Rhagenwau

Dechreuwch yr adran hon trwy gyfeirio at y llinell 'Gwlad! Gwlad! Pleidiol wyf i'm gwlad.' Gofynnwch i bobl a ydyn nhw'n gwybod beth yw ystyr 'i'm'. Bydd cyflwyno'r adran hon yn gyfle i adolygu pob un o'r rhagenwau yn dilyn **i**, **o**, **a**, **gyda**, nid y rhai ffurfiol yn unig. Rhannwch y dosbarth yn barau i wneud yr ymarfer cyfieithu:

| | |
|---|---|
| 1. *Your house and your garden.* | **Dy dŷ a'th ardd.** |
| 2. *He came to my house.* | **Daeth e i'm tŷ.** |
| 3. *He is printing from my computer.* | **Mae e/o'n argraffu o'm cyfrifiadur.** |
| 4. *They are on their way to your office.* | **Maen nhw ar eu ffordd i'th swyddfa.** |
| 5. *There will be changes as a result of your report.* | **Bydd newidiadau o ganlyniad i'th adroddiad.** |
| 6. *Thank you for your support and your help.* | **Diolch am dy gefnogaeth a'th gymorth.** |

# Cam 7 - Cefndir:

**Cyflwyniad i'r Hen Ogledd a'r Hengerdd**
**Gwylio a gwrando 1: Yr Hen Ogledd** (0.00 – 3.55)

**1.** Nodwch o leiaf bedair ffaith am yr Hen Ogledd.

**Atebion posib:**
**- Roedd hen fath o Gymraeg (Brythoneg) yn cael ei siarad yma ganrifoedd yn ôl**
**- De'r Alban a gogledd orllewin Lloegr heddiw**
**- Sawl enw lle yn swnio'n debyg i enwau yng Nghymru**
**- 'Cumbria' yn air sy'n cyfateb i 'Cymru'**

**2.** Tynnir sylw at dreiglad adferfol: **'G**anrifoedd yn ôl, roedd yna iaith arall i'w chlywed fan yma...**g**anrifoedd yn ôl, hen, hen fath o Gymraeg oedd iaith de'r Alban a gogledd Lloegr...roedd hynny **g**anrifoedd yn ôl wrth gwrs'. Gellir cael ymarfer llafar yn gofyn cwestiwn megis, 'Beth wnewch chi ddydd Sadwrn?' Dyma'r atebion i'r cwestiynau yn y llyfr:

Gwelais i Dafydd yn y llyfrgell **<u>d</u>ri mis** yn ôl. (3 mis)
Byddwn ni'n mynd ar ein gwyliau **<u>b</u>ythefnos** i fory. (2 wythnos)
Rwyt ti wedi colli'r wers **<u>b</u>edair gwaith** yn olynol! (4 gwaith)

Gofynnwch i'r dosbarth sefyll ar eu traed er mwyn cyfnewid brawddegau sy'n dechrau â'r geiriau, 'Ganrifoedd yn ôl...' neu 'Flynyddoedd yn ôl...'

**3. Nesaf**, rhaid i barau gysylltu'r geiriau â'r diffiniadau cywir.

| **Gair** | **Diffiniad** |
|---|---|
| teyrnasu | **Rheoli a bod ag awdurdod (dros wlad fel arfer)** |
| tyrru | **Llawer o bobl yn dod i un lle** |
| ymylu (ar) | **Bod neu ddod yn agos (at)** |
| Brythoneg | **Mamiaith yr ieithoedd Celtaidd** |
| caer | **Tref neu ddinas mae'n anodd ymosod arni / Castell** |
| llwyth | **Grŵp o bobl** |

**4.** Dyma'r ieithoedd Celtaidd:

**Cymraeg, Gaeleg yr Alban, Manaweg, Gwyddeleg, Cernyweg a Llydaweg.**

**5.** Pa ddinas arall yn y byd sy'n dod i'r meddwl pan fyddwch chi'n meddwl am enw gwreiddiol Caeredin?

**Dunedin**

**6.** Beth yw'r ffurfiau Cymraeg ar yr enwau lleoedd hyn?

Melrose:


**Moel Rhos**

Lanark:

**Llannerch**

Ecclefechan:

**Eglwys Fechan**




**Gwylio a gwrando 2:** Aneirin a'r Gododdin (7.55 – 11.15)

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Geirfa:** | **traddodiadau** | **trosglwyddo** | **pencadlys** | **llenyddiaeth** |
| | **trysorau** | **brwydr** | **trychinebus** | **cyfeiriadau** |

1. Wrth wylio'r fideo am y tro cyntaf, rhaid i'r dysgwyr roi cylch o gwmpas y geiriau uchod.

2. Ble mae llawysgrif Llyfr Aneirin erbyn hyn?

**Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth**

3. Llenwi'r bylchau:

Mae 'Y Gododdin' yn enw ar **gerdd Gymraeg enwog** , yn enw ar **llwyth / grŵp** o bobl ac yn enw ar **ardal / rhan o'r Hen Ogledd** lle'r oedd y bobl yn byw.

4. Beth yw arwyddocâd y rhifau hyn?

1200 - **tua 1200 o linellau sydd yng ngherdd Aneirin, Y Gododdin.**

1260 - **tua 1260 y copïwyd Llyfr Aneirin (h.y. trosglwyddwyd y cerddi o'r llafar i lawysgrif)**

5. Ble digwyddodd y frwydr y mae'r fideo yn sôn amdani? Chwiliwch amdano ar y map. **Catraeth.**

'Cerdd sy'n **<u>coffáu</u>** milwyr gafodd eu lladd mewn brwydr yw'r Gododdin.' Enghreifftiau o eiriau eraill lle dyw'r acen ddim ar y goben:

i. Berfau yn gorffen â '-(h)au: **e.e.,ufuddhau, parhau, cryfhau, glanhau (cyfuniad o cas + hau yw casáu).**
ii. Berfau lle mae unsill yn dilyn **ym-** yn y sillaf gyntaf: **e.e., ymdroi, ymroi, ymweld**
iii. Geiriau benthyg o'r Saesneg: **e.e., apêl, balŵn, perswâd, carafán**

6. Llenwch y bylchau wrth wylio:
'Yn Nheyrnas y Gododdin yr oedd pennaeth o'r enw **<u>Mynyddog Mwynfawr</u>**, ac yr oedd yn enwog am ei **<u>haelioni</u>** ac am ei wleddoedd lle yr oedd y **<u>medd</u>** yn llifo'.

7. Allwch chi ddyfalu sut byddai'r dynion yn talu am eu diod?
**Byddai disgwyl i'r milwyr frwydro i'r eithaf / hyd at farwolaeth ar ran Mynyddog Mwynfawr.**

**Siaradwch - Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i drafod:**

- Edrychwch eto ar y map. Ydych chi wedi ymweld â rhai o'r ardaloedd hyn yn Ne'r Alban neu Ogledd Lloegr?
  **Gellid gofyn a oedden nhw'n ymwybodol o'r hanes neu unrhyw gysylltiadau â Chymru.**
  **Gellid tynnu sylw at yr enwau Cymraeg megis Catraeth, (*Catterick*) ac Ystrad Clud (*Strathclyde*) a gofyn i'r dosbarth restru enwau Cymraeg eraill ar fannau tu allan i Gymru, e.e. Ynysoedd Heledd (*Hebrides*), Yr Ynys Hir (*Skye*), Caerliwelydd (*Carlisle*), Caerhirfryn, Caerfaddon, Caergaint, Caergrawnt, Rhydychen, Caersallog, Caerwrangon, Amwythig, Llydaw, Caergystennin!**

- Mae'r *Gododdin* yn dangos cymdeithas oedd yn canmol rhyfelwyr dewr. Ydy hynny'n dal i fod yn rhywbeth i'w ddathlu heddiw?
  **Bydd angen bod yn ofalus wrth drafod y pwnc gan y bydd gwahanol farn gan bobl ynglŷn â'r lluoedd arfog a rhyfela.**

- Mae'r ansoddair 'arwrol' yn cael ei ddefnyddio'n aml wrth drafod barddoniaeth Yr Hen Ogledd. Ydych chi wedi darllen llenyddiaeth neu wylio ffilm am oesoedd arwrol? Beth sy'n wahanol am ein harwyr ni heddiw? **Efallai bydd rhai wedi darllen epigau neu gerddi storïol enwog Homer, yr *Iliad* a'r *Odyssey,* neu efallai wedi astudio'r gerdd Hen Saesneg, *Beowulf.* Mae'r ffilm enwog John Wayne *The Alamo* (1960) yn trafod safiad arwrol olaf gan fyddin fechan. Bu hanes o'r hen fyd clasurol am safiad olaf y Sbartiaid – trichant ohonynt, fel yn *Y Gododdin* – yn sail i ddwy ffilm, *The 300 Spartans* (1962) a *300* (2007). Mae'r ffilm *Troy* (2004) hefyd yn seiliedig ar hen farddoniaeth arwrol.**

- Criw bach o arwyr yn wynebu gelyn llawer mwy yw hanes brwydr Catraeth a llwyth y Gododdin. Pam mae hynny'n apelio? Allwch chi feddwl am enghreifftiau eraill o hynny?
  **Efallai bydd rhai sydd â diddordeb yn y campau yn gallu rhoi enghreifftiau o fyd chwaraeon.**

## Cam 8 – Atgyfnerthu Geirfa Uned 9

Ceir cyfres o fylchau i barau eu llenwi yn y llyfr. Dyma'r atebion:

1. 'Nid da lle gellir gwell' oedd **arwyddair** fy ysgol.
2. Trefnon ni **fenthyciad** banc er mwyn talu am yr estyniad.
3. Cynhaliodd **darlithwyr** prifysgol streic undydd ddoe.
4. Doedd dim **gwrthwynebiad** i'r cais felly dechreuwyd ar y gwaith adeiladu yn syth.
5. Mae gwledydd Prydain yn **mewnforio** llawer o geir o wledydd tramor.
6. Roedd popeth yn ymddangos yn **llachar** ar ôl bod yn nhywyllwch y sinema.
7. **Clawdd Offa** yw enw'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.
8. Mrs Jones fydd y pennaeth **dros dro**, am ddau dymor yn y lle cyntaf.
9. **Dulyn** yw prifddinas Iwerddon.
10. Bydd cau'r ysgol yn sicr o gael **effaith andwyol** ar y pentref.

# Canllawiau Uned 10 Uwch 3

## Cam 1 - Siarad

## Siarad o brofiad – Disgrifiwch berson sy wedi gwneud cyfraniad mawr yn eich ardal.

i) Yn gyntaf, rhannwch y dosbarth yn grwpiau a gofynnwch iddynt feddwl am y modd y mae pobl yn cyfrannu at eu hardal, a nodi'r gweithgareddau yn y blwch. Gallech gynnig rhai enghreifftiau i'w helpu ar y dechrau e.e. gyrru bws i'r henoed, codi arian at adnodd lleol, siopa i bobl yn ystod cyfnod anodd megis pandemig iechyd, ac ati.

ii) Ewch ymlaen wedyn i drafod gwaith cynghorwyr lleol. Efallai bod rhai o aelodau'r dosbarth yn gynghorwyr lleol, ac fe all hyn fod yn gyfle i'w holi am eu gwaith. Yna, trowch at y rhestr yn y cwrslyfr. Gofynnwch i'r grwpiau drafod pob pwynt ar y rhestr, cyn mynd ati i ddewis y tri pheth pwysicaf. Efallai hefyd y byddant yn dymuno ychwanegu pwyntiau eraill at y rhestr.

iii) Gorffennwch y gweithgaredd trwy ofyn i bawb drafod person sydd wedi gwneud cyfraniad mawr yn eu hardal. Dylent gyfeirio at y pwyntiau yn eu cwrslyfr, sef:

- pwy ydy'r person a beth ydy natur y cyfraniad;
- sut dych chi'n nabod y person yma;
- un enghraifft o gyfraniad y person yn yr ardal;
- sut mae'r ardal yn cydnabod cyfraniad y person yma;
- tasech chi'n ysgrifennu llyfr am y person yma, beth fasai'r teitl? Pam?

## Cam 2 - Gwybodaeth o iaith

**i) Llenwi bylchau**

Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i lenwi'r bylchau yn y darn darllen am Barti Ddu. Dyma'r atebion:

<u>Cafodd</u> Bartholomew Roberts ei eni ym mhentref Casnewydd-bach yn sir Benfro tua'r flwyddyn 1682. Mae'n bosibl <u>mai / taw</u> John Roberts oedd ei enw'n wreiddiol, ond iddo gymryd yr enw Bartholomew pan <u>ddaeth</u> e'n fôr-leidr. Mae e'n cael ei adnabod <u>gan</u> y Cymry fel Barti Ddu.

Aeth Barti i'r môr ar long fasnach pan oedd yn fachgen ifanc. Ym 1719, cafodd ei long ei chipio gan fôr-ladron dan arweiniad Cymro arall <u>o'r</u> enw Hywel Davies. Ymunodd

Barti â'r môr-ladron, ac erbyn i Davies gael ei ladd chwe wythnos yn ddiweddarach, roedd Roberts wedi ennill digon o barch ac wedi dangos digon o awdurdod i gael ei ddewis yn gapten ar y llong.

Dros y pedair blynedd nesaf, datblygodd Barti Ddu i fod yn un o'r môr-ladron mwyaf llwyddiannus erioed. Ymosododd ar longau'r holl ffordd ar hyd arfordir America, cyn hwylio'n ôl i'r Caribî. Roedd masnach ym môr y Caribî bron â dod i ben oherwydd gweithgareddau Bartholomew Roberts. Doedd bywyd môr-leidr byth yn hir oherwydd bod y gwaith mor beryglus, ond buodd e fyw yn hirach na'r un capten arall. Roedd rhai capteiniaid yn cael eu lladd mewn brwydrau, rhai gan eu criwiau eu hunain, a rhai'n marw ar ôl yfed gormod. O leiaf doedd Roberts ddim mewn perygl o ddioddef o broblem alcohol, oherwydd doedd e'n yfed fawr ddim o'r ddiod feddwol.

Parhaodd Roberts a'i griw i ddwyn ar ochr draw'r Iwerydd, ger arfordir Affrica. Ond ym mis Chwefror 1773, cyfarfu â llong ryfel Brydeinig, sef ***HMS Swallow***. Yn anffodus, roedd y rhan fwyaf o griw Roberts naill ai wedi meddwi neu'n sâl ar ôl dathlu cipio llong arall y noson gynt. Bu farw Bartholomew Roberts wrth i'r ergyd gyntaf daro'i long.

Taflwyd ei gorff dros ochr y llong gan y criw, yn hytrach na gadael i'r Llynges Frenhinol gael gafael arno fe. Heb arweinydd, ildiodd y criw'n fuan. Ar ôl sefyll eu prawf, cafodd 54 o fôr-ladron eu crogi, derbyniodd 37 ohonyn nhw gosbau llai a chafwyd 74 yn ddieuog.

**iii) Ymarferion**

Ceir ymarferion yn seiliedig ar ymadroddion a welir yn y darn.

***To become***

Esboniwch ein bod yn defnyddio **dod yn** pan fydd rhywbeth da yn digwydd, a **mynd yn** pan fydd yr ystyr yn fwy negyddol:

> Mae hi'n **dod yn** athrawes fach dda.
> Mae hi'n **mynd yn** dywyll erbyn pedwar y gloch yn y gaeaf.

Dyma'r atebion:

Mae e'n dod yn bêl-droediwr bach da.
Mae e'n mynd yn anodd ei drin.
Dw i'n gwybod fy mod i'n mynd yn hen achos dw i angen fy sbectol bob munud.
Rwyt ti'n mynd yn wallgof!

Bydd hi'n dod yn bartner yn y cwmni y flwyddyn nesaf.
Daeth e'n enwog ar ôl ennill sioe dalent ar y teledu.
Mae'r bwlch rhwng y tlawd a'r cyfoethog yn mynd yn fwy.
Ydych chi eisiau helpu pobl yn eich cymuned? Beth am ddod yn gynghorydd lleol?

**Mewn**

Esboniwch ein bod yn defnyddio **mewn** gyda geiriau haniaethol cyn gofyn iddynt gyfieithu'r ymadroddion yn eu cwrslyfrau. Dyma'r atebion:

| | | | |
|---|---|---|---|
| *in love* | mewn cariad | *in hope* | mewn gobaith |
| *in fear* | mewn ofn | *in faith* | mewn ffydd |
| *in truth* | mewn gwirioned | *in despair* | mewn anobaith |
| *in silence* | mewn tawelwch/distawrwydd | *in darkness* | mewn tywyllwch |

**Siaradwch – yn hytrach na**

Rhannwch y dosbarth yn grwpiau i drafod y datganiadau a geir yn y cwrslyfrau, sef:

Dylen ni hedfan o Faes Awyr Caerdydd yn hytrach na theithio i feysydd awyr yn Lloegr.
Dylai pawb allu cerdded i mewn i feddygfa yn hytrach na threfnu apwyntiad ymlaen llaw.
Dylai myfyrwyr gael grantiau yn hytrach na benthyciadau.
Dylen ni roi arian i elusen yn hytrach nag anfon cardiau Nadolig.

Gofynnwch i bob grŵp adrodd yn ôl. A ydynt yn cytuno â'r gosodiadau?

## Cam 3 - Gwrando – Trafodaeth

Yn y darn Gwrando, clywir Emyr Davies yn holi Branwen a Gareth am eu barn ar dechnoleg.
Cyn gwrando, gofynnwch i'r dysgwyr nodi yn eu cwrslyfrau o leiaf chwe gair y byddent yn disgwyl eu clywed mewn trafodaeth ar dechnoleg.
Gofynnwch i'r dysgwyr ateb y cwestiynau ar sail yr wybodaeth yn y darn.
Dyma'r atebion:

**1.** Mae Branwen yn defnyddio'r tabled...
a. i edrych ar Twitter.
**b. i brynu pethau.**
c. i ffonio ffrindiau.
ch. i dynnu lluniau.

**2.** Mae gwefannau cymdeithasol yn galluogi Branwen...
a. i hyrwyddo ei gwaith.
**b. i gysylltu â hen ffrindiau.**
c. i brynu pethau.
ch. i weld newyddion y byd.

**3.** Ym marn Gareth, mae gormod o bobl yn defnyddio Twitter i hyrwyddo...
a. lluniau.
b. busnesau.
c. cyngherddau.
**ch. eu hunain.**

**4.** Yn ôl Gareth, mae perygl bod newyddiadurwyr...
a. yn bwlio pobl eraill ar y gwefannau cymdeithasol.
b. yn cuddio tu ôl i ffugenw.
c. yn anghofio am fanteision y dechnoleg.
**ch. ddim yn gwirio'r storïau sy'n ymddangos ar Twitter.**

**5.** Yn ôl Branwen, mae'r bobl sy'n bwlio ar y we neu'r 'trolls'...
a. yn dweud celwyddau am bobl eraill.
b. wedi achosi problemau mawr iddi hi ei hun.
**c. yn debygol o gael eu dal a'u cosbi.**
ch. yn mynd i gynyddu.

**6.** Yn ôl Gareth, un o beryglon technoleg yw...
**a. bod rhywun yn cadw golwg ar beth sy'n cael ei ddweud.**
b. bod pobl yn peidio â siarad â'i gilydd.
c. bod gwybodaeth bersonol yn cael ei rhoi ar lwyfan cyhoeddus.
ch. bod pobl yn dibynnu gormod ar ddyfeisiau fel y ffôn.

**Ymarfer disodli**

Tynnwch sylw at frawddeg ddiddorol a glywir yn y darn Gwrando, sef: **Mae'r heddlu'n gallu dod o hyd i'r sawl sy'n bwlian ar y we**. Cyflwynwch y frawddeg i'r dosbarth, gan sicrhau bod pawb yn ei deall (yn arbennig felly'r gair 'sawl', sy'n golygu **yr un**, **yr hwn/hon** neu **pwy bynnag** yn y fan hon, yn hytrach na'r ystyr ***how many*** sy'n fwy cyfarwydd bellach). Yna, gofynnwch i bawb ddisodli **bwlian ar y we** (e.e. gyda rhywbeth fel 'gyrru'n rhy gyflym') a cherdded o gwmpas yn cyfnewid eu brawddegau newydd. Ar ôl i bawb gael digon o amser i grwydro, gofynnwch i'r dosbarth rannu'r brawddegau mwyaf diddorol.

**Siaradwch**

I gloi'r gweithgaredd, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y brawddegau isod mewn parau neu grwpiau, ac adrodd yn ôl i weddill y dosbarth.

- Ydych chi'n cytuno bod technoleg wedi gwneud bywyd yn haws?
- Ydych chi'n poeni bod y 'brawd mawr' yn eich gwylio chi?
- Cafodd y sgwrs ei recordio yn 2017. Ydych chi'n meddwl y basai eu sgwrs yn wahanol erbyn hyn? Os felly, sut?
- Beth fydd y datblygiadau nesa ym maes technoleg?

## Cam 4 - Siarad – Pwnc llosg – "Mae pobl yn rhy brysur i goginio"

i) Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i lenwi'r bylchau yn y darn isod. Esboniwch nad oes atebion cywir nac anghywir oherwydd y bydd barn pawb yn amrywio ar y testun hwn. Er hynny, dyma atebion enghreifftiol addas:

Dylai bwyta fod yn brofiad <u>pleserus</u>. Ond mae ein harferion bwyta wedi newid dros y blynyddoedd. Rydyn ni'n bwyta allan yn llawer amlach erbyn hyn. Ac mae nifer ohonon ni'n dibynnu ar fwydydd parod. Ond dyma ychydig o gynghorion i chi:

- Mae'n bwysig <u>cynllunio</u> ar gyfer yr wythnos gyfan a sicrhau bod popeth gyda chi yn eich cypyrddau.
- Mae pobl yn mwynhau <u>amrywiaeth</u> yn eu deiet – mae'n ddiflas bwyta'r un pethau bob amser.
- Defnyddiwch lawer o <u>lysiau</u> yn eich bwyd.
- Gwnewch ddefnydd llawn o'ch <u>rhewgell</u> .

Ar ôl i'r parau lenwi'r bylchau, gofynnwch iddynt newid partner a thrafod yr atebion. Yna, gallech drafod yr atebion enghreifftiol, a holi faint a ddewisodd y geiriau hynny.

ii) Gofynnwch i'r dysgwyr godi ar eu traed a siarad ag o leiaf chwe aelod o'r dosbarth am eu harferion coginio. Ceir holiadur yn y cwrslyfr i nodi'r atebion. Dylid annog y dysgwyr i ymhelaethu ar y cwestiynau.

**iii)Fideo Garddio a Mwy**

Chwaraewch y fideo i'r dosbarth, sy'n dangos mecryll a salad cynnes yn cael eu paratoi. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr gwblhau'r dasg yn eu cwrslyfrau. Dyma'r atebion:

Edrychwch ar y mecryll a'r salad cynnes yn cael eu paratoi. Ym mha drefn mae'r cynhwysion yn cael eu hychwanegu i wneud y salad cynnes? Nodwch un peth am bob un o'r cynhwysion:

| | | |
|---|---|---|
| ffa gwyrdd | 4 | Maen nhw'n ffres o'r ardd ac yn ffa ifanc, felly does dim angen tynnu'r croen i ffwrdd. |
| garlleg | 2 | Wedi ei sleisio'n fân, yn hytrach na'i falu. |
| letys | 5 | Peidiwch â choginio'r letys, dim ond ei wywo. |
| olew olewydd | 1 | Mae'n rhoi digonedd ohono yn y badell ffrio. |
| tsili | 3 | Mae lliw coch hyfryd gan y tsilis, a fydd yn edrych yn dda gyda'r ffa gwyrdd. |

iv) Yn olaf, rhannwch y dosbarth yn grwpiau i drafod y datganiad "Mae pobl yn rhy brysur i goginio". Rhowch gyfle i bob grŵp adrodd yn ôl.

## Cam 5 - Gwybodaeth o iaith – Dewis y ffurf gywir

**1.** Ces i gacen hyfryd gyda fy nhe yn nhŷ bwyta'r Ardd ddoe. **ROEDD**

Roedd y gacen ges i gyda fy nhe yn nhŷ bwyta'r ardd ddoe yn hyfryd.

**2.** Beth roedd hi'n ei feddwl o'r ffilm? **BARN**

Beth oedd ei barn hi am y ffilm?

**3.** Arhosodd aelodau'r côr allan ymhell wedi hanner nos yn dathlu eu buddugoliaeth yn yr eisteddfod. **MÂN**

Roedd aelodau'r côr allan tan oriau mân y bore/ tan yr oriau mân yn dathlu eu buddugoliaeth yn yr eisteddfod.

**4.** Cafodd Dafydd ei gyhuddo o wneud rhywbeth drwg iawn. **TROSEDD**
Cafodd Dafydd ei gyhuddo o drosedd ddifrifol.

**5.** Doedd dim digon o lyfrau, felly roedd rhaid i ni rannu. **PRINDER**
Roedd prinder llyfrau, felly roedd rhaid i ni rannu.

**6.** Mae modd ffrio wy i ti, neu ei ferwi. **WEDI**
Gelli di gael wy wedi'i ffrio, neu wedi'i ferwi.

**7.** Mae'r Jonesiaid yn Sbaen am chwarter yr amser bob blwyddyn. **MIS**
Mae'r Jonesiaid yn treulio tri mis yn Sbaen bob blwyddyn.

**8.** Gallwch chi ddibynnu ar Siôn – mae'n gwneud y dewis iawn bob tro. **PERSON**
Mae Siôn yn berson dibynadwy – mae'n gwneud y dewis iawn bob tro.

**Help llaw – Cenedl enwau**

Cyn troi at yr Help Llaw, rhannwch y dosbarth yn barau i drafod sut maen nhw'n dysgu cenedl enw ac a ydyn nhw'n gwybod unrhyw reolau neu 'tips' i helpu. Ar ôl i'r parau adrodd yn ôl, trafodwch y tabl yn yr adran Help llaw, sy'n cyflwyno rhai rheolau. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ddewis ansoddeiriau addas i ddisgrifio'r enwau yn eu cwrslyfrau, gan dreiglo ar ôl enwau benywaidd. Dylent droi at y tabl i'w helpu os nad ydynt yn gwybod cenedl yr enw. Dyma'r atebion:

| | | |
|---|---|---|
| bwthyn diarffordd | cynnydd cynaliadwy | Ffrainc wledig |
| llythyr cyfrinachol | penderfyniad boddhaol | plentyn byddar |
| polisi canlynol | swyddfa brysur | Taf droellog |

## Cam 6 - Cymraeg ffurfiol – Geirfa

Yn y cwrslyfr, ceir enghreifftiau o eiriau ffurfiol / llenyddol sy'n dal i gael eu defnyddio. Gofynnwch i'r dysgwyr weithio mewn parau i ddyfalu eu hystyron. Dyma'r atebion.

| | |
|---|---|
| chwi | chi |
| ef | fe/fo |
| hwy | nhw |
| paham | pam |
| megis | fel |
| parthed | ynglŷn â / ynghylch |

| | |
|---|---|
| drachefn | eto |
| oblegid | oherwydd / achos |
| myned | mynd |
| dyfod | dod |
| ymhle | ble |
| ebe | meddai / dywedodd |

ii) Esboniwch fod geiriau yn cael eu hysgrifennu yn eu ffurf lawn mewn Cymraeg ffurfiol, e.e.

stafell > ystafell  molchi > ymolchi

Yna, gofynnwch iddynt weithio mewn parau i drafod sut y byddent yn dweud y brawddegau yn y llyfr cwrs ar lafar. Mae hwn yn gyfle da i drafod ffurfiau lleol, tafodieithol.

Atebion posib:

**1.** "Rhaid cychwyn," ebe ef drachefn.
"Rhaid i ni fynd," meddai fe / fo wedyn.
**2.** I chwi mae'r llythyr hwn.
I chi mae'r llythyr yma.
**3.** Gwelais hwy yn myned.
Gwelais i nhw'n mynd / Mi weles i nhw'n mynd.
**4.** Bydd yn dyfod yn y car oblegid y glaw.
Bydd e/ hi'n dod yn y car achos y glaw/achos bod hi'n bwrw.
**5.** Ymhle y maent hwy'n cadw eu hesgidiau?
Ble / lle maen nhw'n cadw'u sgidie?

## Cam 7 – Cefndir - Arferion y Nadolig a'r Calan

Yn y Blwch Adnoddau, ceir setiau o bedwar cerdyn sy'n cynnwys gwybodaeth am rai o arferion Nadoligaidd traddodiadol y Cymry. Ceir fersiynau bylchog o'r cardiau hynny yn y llyfr cwrs ac mae fersiynau cyflawn yn Atodiad 1 y canllawiau hyn. Yn ogystal, mae'r cardiau ar gael ar ffurf Word a chyflwyniad PowerPoint yn Adran y Tiwtoriaid ar y Safle Rhyngweithiol.

Rhannwch y dosbarth yn barau, a rhowch gardiau 1 a 2 i un partner, a chardiau 3 a 4 i'r llall. Yna, gofynnwch iddynt ddarllen eu cardiau i'w gilydd, a llenwi'r bylchau yn eu

cwrslyfrau. Efallai y bydd angen i chi esbonio a thrafod yr eirfa newydd a geir yn y cardiau. Os ydych chi'n dysgu dosbarth rhithiol, ebostiwch gardiau 1 a 2 at hanner y dosbarth ymlaen llaw, a chwestiynau 3 a 4 at hanner arall y dosbarth.

Ar ôl i bawb gael cyfle i lenwi'r bylchau, trafodwch yr arferion dan sylw. Oedd unrhyw un wedi clywed amdanynt?

**Gwylio a gwrando 1: Y Plygain**

Yn y fideo hwn, gwelwn Felicity Roberts yn siarad am gôr CYD, sy'n canu mewn llawer o wasanaethau Plygain. Yna, aiff ymlaen i roi cyflwyniad i'r Plygain, gan esbonio pam y mae'n draddodiad mor arbennig ac unigryw. Ar y diwedd, clywn y côr yn canu tair o garolau traddodiadol y Plygain.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwylio a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ateb y cwestiynau yn eu cwrslyfrau:

1. Mae Felicity'n dweud mai Maldwyn yw **cadarnle**'r Plygain.
Yn ôl Geiriadur Gomer, ystyr cadarnle yw 'man diogel lle y gall rhywbeth dyfu a datblygu'. Dyma frawddeg enghreifftiol yn cynnwys y gair 'cadarnle' y gellid ei defnyddio cyn i'r parau greu eu brawddegau nhw neu ei hychwanegu ar ôl i'r parau adrodd yn ôl.

***Roedd y gwleidydd yn siomedig gyda chanlyniad yr etholiad oherwydd bod ei blaid wedi colli seddau yn eu ei chadarnleoedd.***

Dyma esboniadau posib i'r cwestiwn yn gofyn am esboniadau o'r geiriau'n cynnwys yr elfen **cadarn**.

| | |
|---|---|
| cadarnhad | *Sicrwydd bod rhywbeth yn mynd i ddigwydd.* |
| cadarnhaol | *Mae rhywbeth yn bositif; y gwrthwyneb i 'negyddol.'* |
| cadernid | *cryfder, nerth, grym.* |

**2.** Dyma rai ffeithiau posib y gall y dysgwyr eu nodi am y darn Gwylio:
- Mae'r traddodiad o gynnal gwasanaethau plygain yng Nghymru yn mynd yn ôl i'r canol oesoedd.
- Gwasanaeth yn gynnar yn y bore oedd y Plygain.
- O'r geiriau Lladin *Pulli Cantio* mae'r gair Plygain yn dod, sydd  yn golygu caniad y ceiliog.
- Erbyn hyn mae'r rhan fwyaf o wasanaethau plygain yn cael eu cynnal gyda'r nos rhwng dechrau Rhagfyr a dechrau Chwefror.

- Cenir carolau Plygain yn ddigyfeiliant gan unigolion, deuawdau neu bartïon mewn harmoni.
- Byddai aelodau o'r un teulu yn aml yn canu â'i gilydd ac mae gan nifer o deuluoedd lyfrau sy'n cynnwys eu casgliad nhw o garolau.
- Does dim rhaglen wedi ei chynllunio ymlaen llaw, ond mae'n arferol i adael i bartïon lleol ganu'n gyntaf.
- Dydy hi ddim yn dderbyniol i neb ganu carol sydd wedi cael ei chanu'n barod.
- Does neb yn curo dwylo mewn gwasanaeth plygain.
- Fel arfer mae rhyw ddeuddeg o garolau yn cael eu canu un ar ôl y llall. Y cylch cyntaf ydy'r enw sydd yn cael ei roi ar hyn.
- Mae'r gymuned leol yn paratoi swper i'r cantorion a'r gynulleidfa wedi'r gwasanaeth.
- Gall fod yn anodd cael sedd mewn gwasanaeth plygain – maen nhw'n boblogaidd iawn ac mae mwy a mwy o ardaloedd yn dechrau eu cynnal eto.

Cyflwynwch yr ymadrodd **wrth gefn** sy'n codi yn y fideo. Mae ***in reserve*** yn gyfieithiad addas. Rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am eiriau/ymadroddion eraill sy'n cynnwys cefn.

Enghreifftiau posib: cefndir, cefn gwlad, cefn dydd golau, bod yn gefn i rywun, cefnogaeth, cefnu (ar), cefnogi, cefnogwr, cefnogol, drws cefn, strydoedd cefn.

**I gloi'r gweithgaredd, arweiniwch drafodaeth ar y pwnc a nodir yn y cwrslyfr, ac unrhyw fater arall a fydd wedi codi wrth wylio'r fideo.**

**Gwylio a gwrando 2: Y Fari Lwyd**

Rhan o'r rhaglen Straeon Tafarn gyda Dewi 'Pws' Morris yw'r ail fideo. Gwelwn Dewi Pws yn mynd i ardal Llangynwyd i ddysgu am draddodiad y Fari Lwyd.

Mae'r fideo yn eithaf heriol, felly dylid esbonio nad oes disgwyl iddynt ddeall popeth – yn enwedig felly'r rhan sy'n cynnwys y 'pwnco'.

Dilynwch y canllawiau cyffredinol ar gyfer tasgau Gwylio a gwrando. Yna, gofynnwch i'r dysgwyr ateb y cwestiynau isod. Dyma'r atebion:

1. Pa fath o greadur yw'r Fari Lwyd?
<u>Penglog ceffyl yw'r pen, ac mae'r corff wedi'i wneud o gynfasau.</u>
2. Pryd mae pobl Llangynwyd yn mynd o gwmpas gyda'r Fari?
<u>Maen nhw'n mynd allan ar Nos Galan, neu ar yr Hen Galan (Ionawr y 13eg).</u>
3. Ym mha ffordd y byddai'r Fari Lwyd yn moderneiddio yn y dyfodol yn ôl y dyn yn yr

hen fideo du-a-gwyn?
Roedd e'n credu y byddai pobl yn mynd allan gyda'r Fari mewn car neu jîp.

4. Beth yw **pwnco**?
Y pwnco yw'r gystadleuaeth farddoni sy'n digwydd rhwng perchennog y tŷ a chriw'r Fari Lwyd wrth i'r Fari geisio cael mynediad i'r tŷ. Os yw penillion criw'r Fari yn trechu penillion y perchennog, rhaid i'r perchennog eu gadael i mewn i gael bwyd a diod.

5. Yn ôl Allan James, beth oedd ystyr wreiddiol defod y Fari Lwyd?
Mae'r Fari Lwyd yn gysylltiedig â hen arferion Celtaidd. Adeg Heuldro'r Gaeaf, byddai'r Celtiaid yn aberthu anifeiliaid fel y ceffyl i dduw'r haul, er mwyn sicrhau dychweliad yr haul yn y gwanwyn.

6. Pam daeth yr arfer i ben am gyfnod yn 1914-15?
Daeth yr arfer i ben bryd hynny oherwydd bod llawer o ddynion ifanc i ffwrdd yn ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf.

I gloi'r gweithgaredd, arweiniwch drafodaeth ar y pynciau a nodir yn y llyfr cwrs ac unrhyw fater arall a fydd yn codi wrth drafod y thema hon.

## Cam 7 – Atgyfnerthu Geirfa Uned 10 - Lluniadur

Rhannwch y dosbarth yn nifer o grwpiau bach i chwarae 'Lluniadur'. Bydd aelod o bob grŵp yn dod atoch a byddwch chi'n ysgrifennu gair ar bapur. Rhaid iddynt ruthro'n ôl at eu grŵp a thynnu llun i gyfleu ystyr y gair. Unwaith y bydd un grŵp wedi dyfalu'n gywir, rhaid dechrau eto, gydag aelod gwahanol yn tynnu llun. Y geiriau i'w defnyddio: derwen, padell, cwmpawd, ewinedd, disgleirio, ffrio, ffiaidd. Gan mai hwn yw diwedd y cwrs, gellir ychwanegu at y rhestr hon trwy ddefnyddio geiriau o unedau eraill.

# Uned 10, Atodiad 1

**Cerdyn 1**

**Noson Gyflaith**

Arfer traddodiadol mewn rhannau o ogledd Cymru i ddathlu'r Nadolig neu'r Flwyddyn Newydd oedd cynnal Noson **Gyflaith**. Byddai teuluoedd yn gwahodd ffrindiau i'w cartrefi am swper mawr (gŵydd a phwdin Nadolig fel arfer). Wedyn, bydden nhw'n chwarae gemau, yn adrodd storïau ac yna'n gwneud **cyflaith**.

I ddechrau, roedd yn rhaid berwi'r cynhwysion, sef **triog** du, **triog** melyn, siwgr gwyn a menyn. Wedyn, bydden nhw'n **iro** llechen neu garreg fawr, ac yn arllwys y gymysgedd arni hi. Weithiau, bydden nhw'n glanhau **carreg yr aelwyd** ac yn ei defnyddio hi at y **diben** hwnnw. Y cam nesaf oedd tynnu'r **cyflaith** tra ei fod yn dal yn gynnes. Byddai pawb yn cael tro, ac yn ceisio tynnu'r cyflaith nes ei fod fel **rhaffau** melyn. Haws dweud na gwneud! Byddai pawb yn cael tipyn o hwyl wrth weld ymdrechion trychinebus y rhai dibrofiad!

------------------------------------------------------------------------------------------------

**Cerdyn 2**

**Canu Calennig**

Mae'r arfer o gael anrhegion ar Ddydd Calan yn hen iawn. Yng Nghymru, yr enw ar y traddodiad yma yw casglu calennig, neu ganu calennig.

Hyd heddiw, yn gynnar ar Ddydd Calan fe welwch chi grwpiau o blant yn mynd o dŷ i dŷ i ddymuno iechyd a llwyddiant i bawb ar gyfer y flwyddyn i ddod. Byddan nhw'n canu penillion arbennig i'r bobl sy'n eu croesawu, ac yna'n cael arian neu losin cyn mynd ymlaen i'r tŷ nesaf. Yn y gorffennol byddai plant yn cario afalau wedi'u haddurno ag ŷd a dail **bytholwyrdd**, yn symbol o iechyd a llwyddiant.

Dyma un o'r penillion Calan mwyaf adnabyddus:

Blwyddyn Newydd Dda i chi,
Ac i bawb sydd yn y tŷ,
Dyma yw'n dymuniad chi,
Blwyddyn Newydd Dda i chi.

**Cerdyn 3**

**Yr Hen Galan**

Traddodiad diddorol sydd wedi parhau yng Nghwm Gwaun yw dathlu’r Hen Galan, sef dathlu’r  flwyddyn newydd ar y 13eg o Ionawr. Dyna pryd yr arferai pobl ddathlu’r Calan dan y calendr Iwlaidd.  Yn 1752, cafodd y calendr Iwlaidd ei **ddisodli** gan y calendr Gregoraidd, ond roedd pobl Cwm Gwaun yn **amharod** iawn i dderbyn y newid hwn.

Yn yr un ffordd â’r Canu Calennig ar Ionawr y cyntaf, bydd plant Cwm Gwaun yn mynd o ddrws i ddrws yn canu i ddymuno iechyd a llwyddiant i bawb, ac yn cael arian neu losin yn wobr. Bydd oedolion yn dathlu gyda’i gilydd yn nhafarn enwog y Dyffryn Arms, sydd yn yr un teulu ers 1840. Yn y gorffennol, byddai’r Hen Galan yn fwy o ddathliad na’r Nadolig, felly byddai twrci neu ŵydd i ginio yn gyffredin.

----------------------------------------------------------------------------------------------------

**Cerdyn 4**

**Hela’r Dryw**

Roedd hela’r **dryw** yn ddefod boblogaidd drwy’r gwledydd Celtaidd. Yn fras, byddai criw o ddynion yn dal dryw ac yn ei gadw mewn **blwch** neu **gawell**, a fyddai’n aml wedi’i addurno i edrych fel tŷ. Bydden nhw wedyn yn gorymdeithio o dŷ i dŷ gyda’r dryw, i ofyn am fwyd, diod neu arian. Byddai aelodau o’r grŵp yn dal **pastwn**, **picell** neu arfau eraill wedi’u haddurno â rhubanau neu glychau, yn debyg i orymdaith y Fari Lwyd.

Roedd yr arfer yn tarddu o ddefodau cyn-Gristnogol i ddathlu duw'r goleuni (sef yr haul) drwy aberthu brenin yr adar (sef y dryw bach). Mae'n dilyn dydd byrraf y flwyddyn (Alban Arthan), ac yn ddathliad fod yr haul yn codi'n gynt o hynny ymlaen. Yn ddiddorol iawn, y dryw – yr aderyn lleiaf – yw brenin yr adar mewn llawer o ddiwylliannau eraill. Mewn rhai ieithoedd, mae’r gair ‘brenin’ yr un peth â’r gair ‘dryw.’

Diflannodd yr arferiad hwn o Gymru oddeutu 1890, yn bennaf oherwydd ymgyrchwyr a oedd yn gwrthwynebu creulondeb tuag at anifeiliaid.

## Trawsgrifiad Gwylio a gwrando 1

### Gwasanaethau Plygain

Mi ddechreuodd Côr Cyd tua diwedd yr wythdegau, ac mi ddechreuon ni drwy ddysgu carolau plygain, er mwyn mynd i ganu mewn gwasanaeth plygain traddodiadol ym Maldwyn.

Ac mi gawson ni ein **cyfareddu**.

Maldwyn ydy **cadarnle**’r canu plygain wrth gwrs. Ond mae’n debyg fod ’na draddodiad o gynnal gwasanaethau plygain yng Nghymru felly yn mynd yn ôl i’r canol oesoedd. Ac yn yr adeg honno, wel, gwasanaeth cynnar yn y bore oedd y Plygain, fel mae’r enw yn ei awgrymu. Mae’r geiriau Lladin *Pulli Cantio* yn cyfieithu fel Plygain yn Gymraeg, sef **‘ar ganiad y ceiliog’**. Erbyn hyn mae’r rhan fwyaf o wasanaethau plygain yn cael eu cynnal gyda’r nos a hynny rhwng dechrau Rhagfyr a dechrau Chwefror, sy’n dipyn o gyfnod.

Beth sy’n arbennig am y carolau plygain yma? Yn un peth maen nhw’n hyfryd iawn fel carolau, ac maen nhw’n wahanol i’r carolau mae pawb ohonon ni’n gyfarwydd â nhw. Ac maen nhw’n arfer eu canu nhw, wel, mae unigolion yn eu canu nhw, neu ddeuawdau neu bartïon, a hynny mewn harmoni.

Yn y lle cyntaf roedd teuluoedd neu aelodau o wahanol deuluoedd yn canu efo’i gilydd ac mae gan nifer o deuluoedd lyfrau efo’u casgliad nhw o garolau, lle maen nhw wedi casglu carolau.

Does ’na ddim rhaglen wedi ei chynllunio ymlaen llaw. Mae ’na wasanaeth byr wedyn mae’r ficer neu’r gweinidog yn dweud, “Mae’r blygain yn agored”. Ac yn dilyn hynny, mae’r partïon neu’r  unigolion jest yn codi un ar ôl y llall, yn cerdded i fyny ac yn canu. Ond mae’n rhaid dweud ei bod hi’n arferol i bartïon lleol ganu’n gyntaf.

Wedyn yn ail, dydy hi ddim yn dderbyniol i ganu carol sydd wedi cael ei chanu’n barod. Dyna pam mae gofyn cael carol neu ddwy wrth gefn.

Wedyn yn drydydd, er mor wefreiddiol ydy rhai o’r eitemau, does ’na ddim clapio. Nid cyngerdd ydy o ond gwasanaeth gwerinol o fawl.

Mewn plygain nodweddiadol mae ’na ryw ddeuddeg o garolau yn cael eu canu un ar ôl y llall, a’r enw ar hyn ydy’r cylch cyntaf. Wedyn mae’r gynulleidfa i gyd yn canu carol gyfarwydd ac mae’r ail gylch yn dechrau, ac mae’r grwpiau, y partïon a’r deuawdau a’r unigolion yn codi ac yn mynd i fyny yn yr un drefn yn union ac yn canu eu hail garol.

Ar ôl y gwasanaeth, mae ’na swper, ac mae hwn wedi’i baratoi gan y bobl leol ar gyfer y cantorion a’r gynulleidfa ac mae pawb wedyn yn mynd ac yn mwynhau siarad a chymdeithasu â’i gilydd yn Gymraeg.

### Trawsgrifiad Gwylio a gwrando 2

**Dewi Pws:** Does dim syndod bod 'na bethe od yn digwydd yn y Tŷ Canol. Mae'r bobol 'ma'n dal i arfer traddodiadau rhyfedd.
Mae 'na griw yn dod i'r dafarn gyda phen ceffyl ar ben rhyw foi yn cwato dan hen flanced.

[penillion]

**DP:** Pryd y'ch chi'n neud e, pa noson?
**Siaradwr:** Fel arfer, Nos Galan, neu'r Hen Galan yng nghanol mis Ionawr.
**DP:** Pam mae'r traddodiad wedi aros yn yr ardal yma 'te?
**Siaradwr:** Pobl yr ardal nawr yn byw fan hyn ac yn cofio'r traddodiad am amser hir.

**Hen fideo:** Mae hyn yn hen arferiad gyda ni yn Llangynw'd. A'r cynta' glywas i sôn amdano... o'dd ewythr i mi yn dweud bod e'n byw yn Llwyn Brain yn 'ogyn ac yn cofio'r Fari Lwyd yn dod yn gro's i gaea' Bryn Llywarch ac mae hynny dros gan mlynadd yn ôl... ond mae'r Fari Lwyd fel llawar o bethach erill yn moderneiddio ac yn y dyfodol, tebyg iawn taw mewn rhyw gar neu jîp byddan nhw'n mynd allan o gylch y ffermydd... Dewch mewn bois.

**DP:** Sa i'n gwybod amdanoch chi, ond wi 'di drysu'n llwyr! Drwy lwc, mae'r peniog Allan James yn deall beth sy'n mynd 'mlaen. Felly, dyma fi'n dechre ei groesholi fe.

Beth yw arwyddocâd y pwnco 'ma?

**Allan James:** Dull o gael mynediad i'r tŷ oedd y pwnco. A'r ddadl oedd wrth gwrs, petai parti'r Fari Lwyd yn cael yr oruchafiaeth, bydden nhw'n cael mynd i mewn. Ond pe bai rhywun tu fewn... t'mbach yn fwy o fardd os chi isie, bydden nhw'n sicrhau nad oedd y Fari Lwyd yn cael mynediad.

**DP:** Felly rhywbeth Paganaidd oedd e?

**Allan James:** Peth Paganaidd mae'n debyg, yn y lle cyntaf, oedd yn perthyn i fyd lle'r oedd pobl yn dibynnu ar y pwerau oedd tu fas. T'mbod, erbyn hyn y'n ni'n cael rhagolygon y tywydd, ond pan oedd hi'n ganol gaea, mater o ffydd mewn gwirionedd oedd 'A gewn ni wanwyn, a gewn ni dyfiant yn y flwyddyn sy'n dod?'

**DP:** Beth yw gwir ystyr y Fari Lwyd 'te?

**Allan James:** Wel mae arbenigwyr yn awgrymu bod 'na gysylltiad rhwng y pen ceffyl... a nid yn unig y ceffyl ond anifeiliaid eraill, y bydden nhw'n aberthu ar wahanol adegau'r flwyddyn ac wrth gwrs, un o'r adegau hynny fyddai heuldro'r gaeaf lle'r oedd popeth yn llwm, doedd dim tyfiant na dim byd ac felly bydden nhw'n cael rhyw ddefodau er mwyn hybu y tyfiant yn y flwyddyn newydd a'r sôn yw wrth gwrs bod y Fari Lwyd yn un o'r symbolau hynny.

Beth sy'n ddiddorol yn yr ardal yma yw bod yr arfer wedi parhau. Y duedd gydag arbenigwyr yw sôn am *survivals* a *revivals*, ond fan hyn, roedd e'n survival, dw i'n credu, hyd blynyddoedd y Rhyfel Byd Cyntaf... ac mae Cadrawd yn sôn mewn erthygl, yn dweud, t'mbod, *"The Mari Lwyd has appeared annually until this year,"* a "*this year*" oedd wrth gwrs 1914-15 lle'r oedd y llanciau i gyd wedi mynd i Ryfel ond fe barhaodd y Fari Lwyd. Mae nifer o arferion eraill wedi diflannu ond mae'r Fari Lwyd yn dal i fod, fel petai y Fari Lwyd yn cynrychioli mewn gwirionedd, oes a fu. T'mbod, maen nhw'n dal gafael ar yr arfer arbennig honno.

# Atodiadau Ysgrifennu

Yn y papur Ysgrifennu yn Arholiad Defnyddio'r Gymraeg Uwch, ceir dau gwestiwn:

i) Ysgrifennu erthygl neu adolygiad

ii) Ysgrifennu llythyr ffurfiol

Argymhellir dilyn y camau isod dros gyfres o wersi.

# Ysgrifennu erthygl neu adolygiad

Y mae'r cwestiwn hwn yn codi yn y Gwaith cartref o Uned 1 ymlaen.

# Cam 1 – Arddywediad

Er mwyn paratoi'r dysgwyr, argymhellir gwneud ymarfer arddywediad ar ddiwedd Uned 1. Ceir copi o'r arddywediad i'w ddosbarthu i'r dysgwyr yn Atodiad 1 a gall hwn fod yn dempled defnyddiol ar gyfer ysgrifennu erthyglau. Ar ôl cwblhau'r arddywediad, rhowch amser i'r dysgwyr wirio eu gwaith nhw yn erbyn y gwreiddiol a gofynnwch i bawb nodi un broblem a gawsant wrth gofnodi'r darn. Bydd hyn yn rhoi cyfle i chi ymhelaethu. Gellir hefyd ateb cwestiynau am eirfa neu unrhyw beth arall sydd yn peri trafferth yn y cyfnod hwn.

Wedyn, rhannwch y dosbarth yn barau i edrych ar y darn a thanlinellu unrhyw eiriau neu ymadroddion fydd yn ddefnyddiol wrth ysgrifennu unrhyw erthygl debyg, waeth beth fo'r cyd-destun. Mae'r geiriau hyn mewn ffont tywyll yn y darn.

Dyma'r darn i'w arddweud:

**Cyhoeddodd** Cwmni Tesbury's eu bod yn bwriadu agor archfarchnad newydd ar gyrion y dref. **Cyhoeddwyd** y bydd yr archfarchnad yn rhan o'r datblygiad newydd a fydd yn cynnwys sinema, gwesty ac ysgol. Bwriad y cwmni yw agor y siop newydd erbyn Nadolig 2022.

**Mae'r cyhoeddiad hwn wedi rhannu'r gymuned leol. Mae un garfan yn teimlo** y bydd cael archfarchnad ychwanegol yn sicrhau prisiau cystadleuol gan y bydd tair archfarchnad yn brwydro am yr un cwsmeriaid. **Dadl arall o blaid** Tesbury's yw eu bod yn gwerthu llawer o gynnyrch Cymreig a chynnyrch organig. **Fodd bynnag, mae carfan arall sy'n cynnwys** Siambr Fasnach Aberheli'n gwrthwynebu'r archfarchnad newydd yn llwyr. Maen nhw'n dadlau mai hon fyddai'r **hoelen olaf yn arch** y stryd fawr. Mae nifer o siopau a'r banciau eisoes wedi cau ond mae hi dal yn bosib cael bara a chig ffres yn y stryd fawr ac mae cyfle am glonc yng Nghaffi Cynnes ar y sgwâr.

**Y garreg filltir bwysig nesaf fydd** cais cynllunio cwmni Tesbury's gerbron y Cyngor Sir ddydd Mercher nesaf. Mae'r Siambr Fasnach **yn galw ar bobl leol i lobïo eu cynghorwyr lleol** cyn y cyfarfod gan alw arnynt i wrthwynebu'r cais cynllunio.

## Cam 2 – Cyfieithu

Gofynnwch i'r dysgwyr gyfieithu'r brawddegau (Atodiad 2) sy'n ymarfer rhai o'r ymadroddion defnyddiol ar gyfer erthygl neu adolygiad. Sicrhewch eich bod yn gwneud nodyn o unrhyw beth sy'n peri trafferth er mwyn dychwelyd at y pethau hyn yn y wers nesaf.

## Cam 3 – Creu brawddegau

Gwnewch y cam hwn rywbryd wrth ddysgu Uned 2. Problemau yn dilyn llifogydd yw testun yr erthygl yn y Gwaith Cartref y tro hwn. Rhannwch y dosbarth yn barau i greu brawddeg addas ar gyfer erthygl ar y testun hwn gan ddefnyddio pob un o'r isod. Gellid defnyddio byrddau gwyn bach ar gyfer y brawddegau. Dylai pawb nid yn unig helpu ei gilydd i gywiro unrhyw wallau ond i wella'r brawddegau hefyd.

Dro ar ôl tro

Gorau po gyntaf

Mae hi'n hen bryd

Ar y cyfan

Gwaed yn berwi

## Cam 4 – Cyfieithu

Y pwnc llosg yn Uned 4 yw'r Gwasanaeth Iechyd felly argymhellir gosod brawddegau i'w cyfieithu i gyd-fynd â'r pwnc llosg hwn. Mae'r brawddegau yn Atodiad 3.

# Ysgrifennu llythyr ffurfiol

Y mae'r cwestiwn hwn yn codi yn y Gwaith Cartref o Uned 6 ymlaen. Gofynnir i ddysgwyr roi cynnig ar ysgrifennu yn y cywair ffurfiol ar gyfer y cwestiwn hwn. Rhaid cofio bod llythyrwyr yn y wasg Gymraeg yn cymysgu cyweiriau'n gyson y dyddiau hyn a bod ysgrifennu'n gywir yn bwysicach na bod yn ffurfiol.

## Cam 1 – Ymarfer y person cyntaf presennol ac arddywediad

Argymhellir cyflwyno'r gwaith yma ar ddiwedd Uned 6, i baratoi ar gyfer y Gwaith Cartref. Cyflwynir ffurfiau person cyntaf presennol yn adran Cymraeg Ffurfiol Uned 8. Ond gellir gwneud y gwaith yma (Atodiad 4) a'i atgyfnerthu yn Uned 8. Yna, gwnewch ymarfer arddywediad a dilynwch yr un camau ag ar gyfer yr erthygl/adolygiad (gweler Cam 1 uchod). Ceir copi o'r llythyr yn Atodiad 5.

Ar ôl i'r dysgwyr wirio eu gwaith, rhannwch y dosbarth yn barau i wneud dau beth: i) **tanlinellu'r holl nodweddion ffurfiol a geir yn y llythyr** a ii) tanlinellu unrhyw eiriau neu ymadroddion defnyddiol ar gyfer llythyr ffurfiol. Dylid defnyddio lliwiau gwahanol ar gyfer y ddwy dasg:

Dyma'r darn i'w arddweud:

Annwyl Eirian Jones, AS,

**Ysgrifennaf atoch** ar ran Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Aberheli 2023 **a gynhelir** ym Mharc Aberheli rhwng dydd Gwener, Awst 3ydd a dydd Sadwrn, Awst 11eg. Yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r ŵyl deithiol gelfyddydol **fwyaf** yng Nghymru a bydd yn denu tua 160,000 o ymwelwyr. Fel yr Aelod lleol o'r Senedd, **hoffem eich gwahodd i** fod yn Llywydd yr Ŵyl.

Fel Llywydd yr Ŵyl, bydd disgwyl i chi annerch y gynulleidfa yn y Pafiliwn ar y dydd Sadwrn **olaf**. Hefyd, bydd cinio i noddwyr am hanner dydd. Bydd aelod o staff yr Eisteddfod ar gael **i'ch tywys** yn ystod y dydd.

**Gobeithiaf y** bydd modd i chi dderbyn **y gwahoddiad hwn** – **rydym** yn ffyddiog **y byddai'ch presenoldeb** yn codi proffil yr Eisteddfod ymhlith trigolion yr ardal. **Rydym** am sicrhau bod pawb yn yr ardal yn teimlo bod yr Eisteddfod yn berthnasol **iddynt**, boed yn siaradwyr Cymraeg neu beidio. **Rydym** hefyd yn hyderu **y bydd y digwyddiad pwysig hwn** yn hwb sylweddol i'r Gymraeg yn yr ardal.

**A fyddech cystal â'm hysbysu o'ch penderfyniad** erbyn diwedd y mis **os gwelwch yn dda?**

**Edrychaf** ymlaen at glywed **oddi wrthych**.

Yn gywir

Ceri Jones

Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

**Terfyniadau berfol ffurfiol** – ysgrifennaf/hoffem/gobeithiaf/rydym/edrychaf
**Gollwng y rhagenw** – atoch/eich gwahodd/i'ch tywys/byddai'ch presenoldeb/iddynt/os gwelwch yn dda/oddi wrthych
**Ysgrifennu cymalau'n llawn** – a gynhelir/y byddai'ch presenoldeb/y bydd
**Ysgrifennu geiriau'n llawn** – fwyaf/olaf
**Rhagenwau dangosol ffurfiol** – y gwahoddiad hwn

## Cam 2 – Ymarfer cyfieithu

Yn Atodiad 5, ceir copi arall o'r llythyr ond gyda rhai ymadroddion a brawddegau yn Saesneg i'r dysgwyr eu cyfieithu. Wrth eu rhoi o fewn corff y llythyr, golyga eu bod yn cael cyfle arall i weld y Gymraeg ffurfiol.

## Cam 3 – Edrych ar lythyrau yn y wasg Gymraeg

Ewch â chasgliad o lythyrau cyfredol o'r wasg Gymraeg i'r dosbarth er mwyn dadansoddi'r ffurfiau ynddynt.

## Cam 4 – Llunio llythyr ar y cyd

Rhannwch y dosbarth yn barau i feddwl am destunau posibl ar gyfer llunio llythyr ffurfiol. Rhowch nhw ar y bwrdd gwyn a dewiswch un ohonynt. Yna, ewch ati i lunio llythyr (neu ran o lythyr) ar y cyd. Dylid gofyn am yr isod o leiaf:

Cyfarchiad

Brawddeg agoriadol

Dwy frawddeg fyddai’n berthnasol yng nghorff y llythyr (i fod yn berthnasol i’r testun a ddewiswyd)

Brawddeg gloi

Bydd pawb yn ysgrifennu un frawddeg ac yna’n ei phasio ymlaen at y person nesaf i ychwanegu ati. Ar y diwedd, rhannwch y dosbarth yn grwpiau o dri (gyda thri llythyr yr un) i ystyried cywiro unrhyw wallau a gwella’r brawddegau. Wrth gynnal sesiwn adrodd yn ôl, ceisiwch gyfuno’r elfennau gorau fel bod gennych frawddegau enghreifftiol da.

## Atodiad 1 - Ysgrifennu Erthygl neu Adolygiad

Cyhoeddodd Cwmni Tesbury's eu bod yn bwriadu agor archfarchnad newydd ar gyrion y dref. Cyhoeddwyd y bydd yr archfarchnad yn rhan o'r datblygiad newydd a fydd yn cynnwys sinema, gwesty ac ysgol. Bwriad y cwmni yw agor y siop newydd erbyn Nadolig 2022.

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi rhannu'r gymuned leol. Mae un garfan yn teimlo y bydd cael archfarchnad ychwanegol yn sicrhau prisiau cystadleuol gan y bydd tair archfarchnad yn brwydro am yr un cwsmeriaid. Dadl arall o blaid Tesbury's yw eu bod yn gwerthu llawer o gynnyrch Cymreig a chynnyrch organig. Fodd bynnag, mae carfan arall sy'n cynnwys Siambr Fasnach Aberheli'n gwrthwynebu'r archfarchnad newydd yn llwyr. Maen nhw'n dadlau mai hon fyddai'r hoelen olaf yn arch y stryd fawr. Mae nifer o siopau a'r banciau eisoes wedi cau ond mae hi dal yn bosib cael bara a chig ffres yn y stryd fawr ac mae cyfle am glonc yng Nghaffi Cynnes ar y sgwâr.

Y garreg filltir bwysig nesaf fydd cais cynllunio cwmni Tesbury's gerbron y Cyngor Sir ddydd Mercher nesaf. Mae'r Siambr Fasnach yn galw ar bobl leol i lobïo eu cynghorwyr lleol cyn y cyfarfod gan alw arnynt i wrthwynebu'r cais cynllunio. gwreiddiol.

## Atodiad 2 - Ysgrifennu erthygl neu adolygiad

Cyfieithwch:

i. Tesbury's announced ______________________________

ii. It was announced ______________________________

iii. This announcement has split the community

______________________________

iv. in favour of ______________________________

v. to completely oppose ______________________________

vi. the final nail in the coffin ______________________________

vii. the next important milestone ______________________________

## Atodiad 3 - Ysgrifennu erthygl neu adolygiad

### Cyfieithwch

i. The Health Board announced that they intend closing the Accident and Emergency Department.

______________________________________________

______________________________________________

ii. An argument in favour is that the facilities will be more modern in the nearby hospital.

______________________________________________

______________________________________________

iii. However, the majority of local people completely oppose the decision.

______________________________________________

______________________________________________

iv. The next important milestone will be a meeting of the Health Board.

______________________________________________

______________________________________________

v. The final decision will be made at this meeting.

______________________________________________

______________________________________________

## Atodiad 4 - Ysgrifennu llythyr ffurfiol

Ysgrifennwch y ffurfiau isod yn fwy ffurfiol:

i. Dw i'n ysgrifennu ______________________________

ii. Dw i'n teimlo ______________________________

iii. Dw i'n sylweddoli ______________________________

iv. Dw i'n hyderu ______________________________

v. Dw i'n edrych ymlaen ______________________________

vi. Dw i'n credu ______________________________

vii. Dw i'n gallu ______________________________

viii. Dw i'n bwriadu cwyno ______________________________

ix. Dw i'n gwybod ______________________________

x. Dw i ddim yn teimlo ______________________________

xi. Dw i ddim yn bwriadu ______________________________

**Atodiad 5 - Ysgrifennu llythyr ffurfiol**

Annwyl Eirian Jones, AS,

Ysgrifennaf atoch ar ran Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Genedlaethol Aberheli 2023 a gynhelir ym Mharc Aberheli rhwng dydd Gwener, Awst 3ydd a dydd Sadwrn, Awst 11eg. Yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r ŵyl deithiol gelfyddydol fwyaf yng Nghymru a bydd yn denu tua 160,000 o ymwelwyr. Fel yr Aelod lleol o'r Senedd, hoffem eich gwahodd i fod yn Llywydd yr Ŵyl.

Fel Llywydd yr Ŵyl, bydd disgwyl i chi annerch y gynulleidfa yn y Pafiliwn ar y dydd Sadwrn olaf. Hefyd, bydd cinio i noddwyr yr hoffem i chi ei fynychu. Bydd aelod o staff yr Eisteddfod ar gael i'ch tywys yn ystod y dydd.

Gobeithiaf y bydd modd i chi dderbyn y gwahoddiad hwn – rydym yn ffyddiog y byddai'ch presenoldeb yn codi proffil yr Eisteddfod ymhlith trigolion yr ardal. Rydym am sicrhau bod pawb yn yr ardal yn teimlo bod yr Eisteddfod yn berthnasol iddynt, boed yn siaradwyr Cymraeg neu beidio. Rydym hefyd yn hyderu y bydd y digwyddiad pwysig hwn yn hwb sylweddol i'r Gymraeg yn yr ardal.

A fyddech cystal â'm hysbysu o'ch penderfyniad erbyn diwedd y mis os gwelwch yn dda?

Edrychaf ymlaen at glywed oddi wrthych.

Yn gywir

Ceri Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

**Atodiad 6 - Ysgrifennu llythyr ffurfiol**

Annwyl Eirian Jones, AS,

I am writing to you on behalf of Pwyllgor Gwaith Eisteddfod Aberheli 2023 a gynhelir ym Mharc Aberheli rhwng dydd Gwener, Awst 3ydd a dydd Sadwrn, Awst 11eg. Yr Eisteddfod Genedlaethol yw'r ŵyl deithiol gelfyddydol fwyaf yng Nghymru a bydd yn denu tua 160,000 o ymwelwyr. Fel yr Aelod lleol o'r Senedd, hoffem eich gwahodd i fod yn Llywydd yr Ŵyl.

Fel Llywydd yr Ŵyl, bydd disgwyl i chi address the audience yn y Pafiliwn ar y dydd Sadwrn olaf. Hefyd, bydd cinio i noddwyr am hanner dydd. Bydd aelod o staff yr Eisteddfod ar gael i'ch tywys yn ystod y dydd.

I hope it will be possible for you to accept this invitation – rydym yn ffyddiog y byddai'ch presenoldeb yn codi proffil yr Eisteddfod among the residents of the area. Rydym am sicrhau bod pawb yn yr ardal yn teimlo bod yr Eisteddfod yn berthnasol iddynt, boed yn siaradwyr Cymraeg neu beidio.

A fyddech cystal â'm hysbysu o'ch penderfyniad erbyn diwedd y mis os gwelwch yn dda?

I look forward to hearing from you.

Yours sincerely

Ceri Jones
Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith

Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

www.dysgucymraeg.cymru